

CYFRIFON
AC ADRODDIADAU

Archwiliad Annibynnol o Gyfrifon Elusennau

Canllaw Archwilwyr

Ebrill 2009

COMISIWN ELUSENNAU

Y Comisiwn Elusennau

Y Comisiwn Elusennau yw rheolydd annibynnol elusennau yng Nghymru a Lloegr. Ei nod yw rheoleiddio elusennau yng Nghymru a Lloegr yn y ffordd orau bosibl er mwyn cynyddu effeithiolrwydd elusennau a ffydd a hyder y cyhoedd. Mae'n rhaid i'r rhan fwyaf o elusennau gofrestru gyda'r Comisiwn, ond nid oes rhaid i rai mathau arbennig o elusennau gofrestru. Mae tua 180,000 o elusennau cofrestredig yng Nghymru a Lloegr. Mae'r fframwaith yn wahanol yn yr Alban, ac nid yw'r Comisiwn yn rheoleiddio elusennau'r Alban.

Mae'r Comisiwn yn darparu amrywiaeth helaeth o gyngor a chanllawiau i elusennau a'u hymddiriedolwyr, ac yn aml iawn gall helpu i ddatrys problemau. Mae'n rhaid i elusennau cofrestredig sydd ag incwm blynyddol o fwy na £10,000 roi gwybodaeth flynyddol i'r Comisiwn. Mae pwerau eang gan y Comisiwn i ymyrryd ym materion elusen pan fydd pethau wedi mynd o'i le.

Fe gewch fwy o wybodaeth am y Comisiwn ynghyd ag amrywiaeth o ganllawiau i elusennau ar ein gwefan **www.charitycommission.gov.uk**.

Gellir gweld neu lawrlwytho pob un o gyhoeddiadau'r Comisiwn y cyfeirir atynt yn y cyhoeddiad hwn ar ein gwefan.

Contents

A	Cyflwyniad	2
B	Cipolwg cyflym ar archwiliad annibynnol	5
C	Pa elusennau all gael eu harchwilio'n annibynnol a chan bwy?	7
Ch	Sut i baratoi ar gyfer archwiliad annibynnol	15
D	Cyfarwyddiadau'r Comisiwn Elusennau	20
Dd	Dyletswydd statudol i adrodd i'r Comisiwn Elusennau	38
E	Atodiadau	42

A
Cyflwyniad

A1. Am beth mae'r canllaw hwn?

Mae'r canllaw hwn wedi cael ei ysgrifennu'n benodol i archwilwyr annibynnol ac mae'n esbonio eu rôl a'u dyletswyddau o ran archwilio cyfrifon elusen a'r materion y mae'n rhaid eu cynnwys yn eu hadroddiad i'r ymddiriedolwyr elusen sy'n cael ei gyflwyno gyda'r cyfrifon. Mae'r cyhoeddiad hefyd yn amlinellu Cyfarwyddiadau'r Comisiwn i archwilwyr annibynnol y mae'n rhaid eu dilyn mewn unrhyw archwiliad.

A2. 'Rhaid' a 'dylai': beth ydym yn ei olygu

Yn y canllaw hwn, pan ddefnyddiwn **'rhaid'**, golygwn ei fod yn ofyniad cyfreithiol neu reoleiddiol penodol sy'n effeithio ar yr archwiliwr annibynnol. Rhaid i archwilwyr annibynnol gydymffurfio â'r gofynion hyn. Er mwyn eich helpu i adnabod yr adrannau hynny sy'n cynnwys gofyniad cyfreithiol neu reoleiddiol rydym wedi defnyddio'r symbol C wrth ochr yr ateb byr yn yr adran honno.

Defnyddiwn **'dylai'** ar gyfer eitemau sy'n arfer da lleiaf, ond nid oes unrhyw ofyniad cyfreithiol penodol ar eu cyfer. Dylai archwilwyr ddilyn y canllawiau arfer da oni bai fod rheswm da dros beidio â gwneud hynny.

Rydym hefyd yn cynnig cyngor llai ffurfiol ac argymhellion a all fod yn ddefnyddiol i archwilwyr wrth iddynt drefnu a chynllunio'r archwiliad o gyfrifon eu helusen.

A3. Canllawiau blaenorol

Mae'r canllaw hwn yn diweddaru ein cyhoeddiadau blaenorol sef *Archwiliad Annibynnol o Gyfrifon Elusennau: Cyfarwyddiadau a Nodiadau Canllaw* (CC63 a CC63a) ar gyfer newidiadau a gyflwynwyd yn dilyn gweithredu'r rhannu hynny o Ddeddf Elusennau 2006 sy'n delio â'r archwiliad allanol o gyfrifon elusennau. Mae'r canllaw a'r Cyfarwyddiadau yn gymwys i bob archwiliad annibynnol sy'n cael ei gynnal ar gyfer cyfnodau cyfrifyddu sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ebrill 2008 ac mae'n ymdrin â'r newidiadau trothwy sy'n gymwys i flynyddoedd ariannol yn diweddu ar neu ar ôl 1 Ebrill 2009. Mae canllawiau ar wahân ar gael i ymddiriedolwyr elusen sy'n gyfrifol am benodi archwiliwr annibynnol eu helusen yn ein cyhoeddiad *Archwiliad Annibynnol o Gyfrifon Elusennau: Canllaw Ymddiriedolwyr* (CC31).

A4. Hyd a lled y canllaw hwn

Mae'r canllaw yn bwriadu rhoi dealltwriaeth glir i'r archwiliwr o'r hyn sydd i'w wneud mewn archwiliad annibynnol ac adnabod pa elusennau all ddewis cael archwiliad annibynnol yn lle archwiliad ariannol. Mae'r canllaw hefyd yn esbonio pwy all ymgymryd ag archwiliad annibynnol ac mae'n amlinellu Cyfarwyddiadau'r Comisiwn, sy'n darparu'r sail weithdrefnol ar gyfer archwiliad y mae'n rhaid ei dilyn mewn unrhyw archwiliad.

Mae'r canllaw hwn hefyd yn ymdrin â'r newidiadau pwysig yn y trefniadau archwilio (archwiliad annibynnol ac ariannol) a gyflwynwyd gan Ddeddf Elusennau 2006 (Deddf 2006) a Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 (Rheoliadau 2008) sy'n gymwys ar gyfer archwilio cyfrifon elusennau heb fod yn gwmnïau a chwmnïau elusennol bach cymwys sydd wedi'u corffori o dan y gyfraith cwmnïau ar gyfer blynyddoedd ariannol yn dechrau ar neu ar ôl 1 Ebrill 2008. Mae'r canllaw hwn hefyd yn ymdrin â'r trothwyon diwygiedig ar gyfer archwiliad annibynnol a gyflwynwyd gan Orchymyn (Dirprwyo Symiau) 2009 Deddfau Elusennau 1992 a 1993 (Gorchymyn 2009) sy'n gymwys i flynyddoedd ariannol yn diweddu ar neu ar ôl 1 Ebrill 2009.

Pan basiwyd Deddf Elusennau 2006, gwnaethpwyd ymrwymiad i'r Senedd y byddai gweithredu'r Ddeddf yn cael ei adolygu o fewn pum mlynedd. Felly rhagwelir y bydd y trothwyon ariannol yn cael eu hystyried unwaith eto fel rhan o'r adolygiad hwn.

Yn ogystal mae'r canllaw hefyd yn esbonio'r ddyletswydd statudol sydd ar archwilwyr elusennau sy'n gwmnïau a heb fod yn gwmnïau i adrodd ar wahân faterion sydd o arwyddocâd perthnasol i swyddogaethau rheoleiddiol y Comisiwn y maent yn dod ar eu traws tra eu bod yn gweithredu fel archwilwyr.

Mae'r canllaw hwn wedi'i ysgrifennu i archwilwyr annibynnol pob math o elusennau sy'n gymwys i gael archwiliad annibynnol, boed yn gwmnïau, yn ymddiriedolaethau neu'n gymdeithasau.

A5. Defnyddio'r canllaw hwn

Er mwyn sicrhau archwiliad annibynnol llwyddiannus rhaid deall beth yw cyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr a beth yw cyfrifoldebau'r archwiliwr o ran archwilio, paratoi a ffeilio cyfrifon. Bydd archwiliad llwyddiannus yn dibynnu ar ddeall beth a olygir wrth archwiliad, pwy all gynnal archwiliad a chael archwiliwr sy'n meddu ar y sgiliau a'r profiad perthnasol i gynnal archwiliad cymwys.

Bydd darllen adran B (sy'n rhoi crynodeb 'cyflym') yn rhoi dealltwriaeth gyffredinol i'r archwiliwr o ofynion archwiliad annibynnol a'r fframwaith ar gyfer cynnal yr archwiliad. Mae adran C y canllaw hwn yn esbonio yn fwy manwl beth y mae angen i archwilwyr ei wybod am archwiliad annibynnol, eu cymhwyster i gynnal archwiliad a'r materion i'w cynnwys yn eu hadroddiad. Mae adran Ch yn cynnwys rhai argymhellion i helpu i wneud y broses archwilio yn effeithlon ac yn effeithiol.

Mae adran D yn cynnwys Cyfarwyddiadau'r Comisiwn i archwilwyr annibynnol. Mae'r Cyfarwyddiadau hyn yn nodi'r gweithdrefnau y mae'n rhaid i'r archwiliwr eu dilyn. Mae arweiniad yn cael ei roi yn dilyn pob Cyfarwyddyd sy'n disgrifio sut y gellir bodloni gofynion y Cyfarwyddiadau yn ymarferol. Mae adran Dd yn esbonio'r ddyletswydd newydd i adrodd materion sydd o arwyddocâd perthnasol i'r Comisiwn Elusennau os yw'r materion hyn yn ymwneud â'r defnydd posibl o bwerau ymchwilio'r Comisiwn. Mae gwybodaeth ychwanegol yn cael ei rhoi yn yr atodiadau i gyfeirio atynt os oes angen, gan gynnwys cyngor i elusennau sydd hefyd wedi cofrestru gyda Swyddfa Rheolydd Elusennau'r Alban (Atodiad 3) ac adroddiadau archwilwyr enghreifftiol (Atodiad 4).

Mae pob cyfeiriad at 'adrannau' Deddf Elusennau 1993 yn y Cyfarwyddiadau a'r canllaw yn cyfeirio at adrannau Deddf 1993, fel y'u diwygiwyd gan Ddeddf Elusennau 2006. Mae'r cyfeiriadau at y gyfraith cwmnïau yn cyfeirio at Ddeddf Cwmnïau 2006 fel y bônt yn gymwys o 6 Ebrill 2008.

A6. Termau a diffiniadau

Bydd y canllaw a'r Cyfarwyddiadau yn defnyddio sawl term fydd yn gyfarwydd i gyfrifwyr. Weithiau, bydd angen i archwilwyr, yn enwedig y rhai sydd heb gefndir cyfrifyddu proffesiynol, gyfeirio at y rhestr termau (Atodiad 6) pan ddefnyddir term cyfrifyddu neu dechnegol.

Mae gwaith yr archwiliwr yn cynnwys arfer barn wrth ymgymryd â'i waith ac asesu'r wybodaeth a gafwyd wrth baratoi ei adroddiad. Wrth arfer y farn hon mae'r termau perthnasol, arwyddocaol ac arwyddocâd perthnasol yn dermau pwysig i'r archwiliwr eu deall oherwydd bydd y termau hyn yn llywio barn yr archwiliwr wrth benderfynu a yw mater yn berthnasol i'w dyletswyddau adrodd.

Perthnasol/perthnasedd: Perthnasedd yw barn yr archwiliwr annibynnol ynghylch a fyddai unrhyw wybodaeth sydd wedi'i hepgor neu ei cham-ddatgan yn effeithio ar ddealltwriaeth y darllenydd o'r cyfrifon. Mae perthnasedd yn dibynnu ar faint, swm neu bwysigrwydd yr eitem, y gwall neu'r camddatganiad. Weithiau disgrifir polisi cyfrifyddu fel un perthnasol os yw'r effaith yn berthnasol i sut y mae eitem neu drafodiad yn cael ei gydnabod, ei fesur neu ei ddatgelu yn y cyfrifon. Os nad yw polisi yn cydymffurfio â'r SORP, mae'n rhaid i'r archwiliwr ystyried a yw effaith y polisi hwnnw pan gaiff ei chymhwyso i'r trafodion neu'r eitemau yn y cyfrifon mor berthnasol fel ei fod yn effeithio ar y cyflwyniad neu'r ddealltwriaeth o'r cyfrifon.

Yn y canllaw hwn defnyddir y term perthnasedd mewn cysylltiad â Chyfarwyddyd 10 (adroddiad archwiliwr) a chyfrifon croniadau (Cyfarwyddyd 8 polisïau cyfrifyddu, amcangyfrifon a barnau) ac mae'n gofyn i'r archwiliwr ystyried y barnau sylfaenol, polisïau cyfrifyddu, neu'r sail ar gyfer symiau sy'n berthnasol yng nghyd-destun y cyfrifon.

Arwyddocaol: Defnyddir y term hwn yn y canllaw hwn mewn perthynas â chadw cofnodion cyfrifyddu (Cyfarwyddyd 4), yr adolygiad dadansoddi (Cyfarwyddyd 6) a wneir gan yr archwiliwr annibynnol ac wrth ddisgrifio ystyriaethau sy'n effeithio ar adroddiad yr archwiliwr (Cyfarwyddyd 10). Mewn perthynas â chofnodion cyfrifyddu, ystyr arwyddocâd yw i ba raddau y mae'r

cofnodion heb fod yn gyflawn neu i ba raddau y mae'r wybodaeth sy'n eisiau yn creu ansicrwydd ynghylch digonolrwydd cadw cyfrifon. O ran yr adolygiad dadansoddol, mae'n ei gwneud hi'n ofynnol i'r archwiliwr ystyried a yw'r mater neu'r swm yn arwyddocaol o ran ei faint neu ei bwysigrwydd ac felly mae angen esboniad. Ar gyfer yr adroddiad, mae'n golygu a yw'r hyn y mae'r archwiliwr wedi ei ganfod yn ei adolygiad yn ddigon arwyddocaol i'w gynnwys yn adroddiad yr archwiliwr. Ni fydd symiau bach neu fân faterion yn arwyddocaol ond gallant fod yn arwyddocaol os ydynt yncodi'n aml neu'n treiddio drwy'r adroddiad. Yn aml gall arwyddocâd gael ei asesu dim ond os yw'r archwiliwr naill ai wedi cynnal adolygiad dadansoddol neu wedi gorffen ei waith ac mae'n myfyrio ynghylch yr hyn sydd wedi dod i'r amlwg ac yn paratoi'r adroddiad. Gall mater fod yn arwyddocaol hyd yn oed os nad yw'n berthnasol o ran ei swm yn unig.

Arwyddocâd perthnasol: Mae hwn yn derm arbennig a ddefnyddir yn y diffiniad statudol o'r ddyletswydd i adrodd materion sydd o arwyddocâd perthnasol i'r Comisiwn. Mae hyn yn gofyn am ddealltwriaeth o'r materion hynny sydd o arwyddocâd perthnasol i swyddogaethau rheoleiddio'r Comisiwn. Mae'r materion hynny y mae'r Comisiwn bob amser yn eu hystyried yn berthnasol wedi'u rhestru yn adran Dd y canllaw hwn gyda chyngor pellach yn Atodiad 5.

B
Cipolwg cyflym ar archwiliad annibynnol

Er mwyn cynnal ffydd y cyhoedd yng ngwaith elusennau, mae'r gyfraith elusennau yn ei gwneud hi'n ofynnol i gyfrifon y rhan fwyaf o elusennau gael eu harchwilio'n allanol. Ar yr amod nad yw'n ofynnol i elusen yn ôl y gyfraith neu ei dogfen lywodraethol i gael archwiliad ariannol yna gall yr ymddiriedolwyr ddewis math symlach a llai costus o archwiliad allanol o'r enw archwiliad annibynnol.

Ar gyfer blynyddoedd ariannol sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ebrill 2008 ac a ddaeth i ben ar neu cyn 31 Mawrth 2009, gall yr ymddiriedolwyr ddewis cael archwiliad annibynnol ar yr amod nad yw incwm gros eu helusen am y flwyddyn ariannol yn fwy na £500,000, neu os yw'r incwm gros yn fwy na £100,000 nid yw ei hasedau gros yn fwy na £2.8 miliwn.

Ar gyfer blynyddoedd ariannol sy'n diweddu ar neu ar ôl 1 Ebrill 2009, mae'r trothwy incwm gros o £500,000 yn parhau heb eu niwed ond mae'r trothwy ased gros yn cael ei gynyddu i £3.26 miliwn os yw'r incwm gros yn fwy na £250,000.

Cafodd archwiliad annibynnol ei gyflwyno gan Ran 6 o Ddeddf 1993, ac adran 43 o Ddeddf 1993 ac mae'n caniatáu i ymddiriedolwyr elusennau llai ddewis y fath symlach hwn o archwiliad allanol yn lle archwiliad ariannol.

Mae archwiliad annibynnol yn fath symlach o archwiliad nag archwiliad ariannol ond er hynny mae'n rhoi sicrwydd i ymddiriedolwyr, noddwyr, buddiolwyr, rhanddeiliaid a'r cyhoedd fod cyfrifon yr elusen wedi cael eu hadolygu gan unigolyn annibynnol.

Ar gyfer blynyddoedd ariannol sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ebrill 2008, mae archwiliad annibynnol hefyd yn ddewis i gwmnïau elusennol bach cymwys nad yw'n ofynnol iddynt gael archwiliad ariannol. Bydd cwmnïau elusennol sydd wedi dewis i beidio â chael archwiliad ariannol yn cael archwiliad annibynnol os yw eu hincwm gros yn fwy na £10,000 ar gyfer blwyddyn ariannol sy'n diweddu ar neu cyn 31 Mawrth 2009. Mae'r trothwy pan fydd archwiliad annibynnol yn ofynnol yn cynyddu i incwm gros sy'n fwy na £25,000 ar gyfer blynyddoedd ariannol sy'n diweddu ar neu ar ôl 1 Ebrill 2009.

Mae archwiliad annibynnol yn darparu gwiriad allanol ar y cyfrifon a gall unrhyw unigolyn sydd â'r gallu a'r profiad perthnasol ei gyflawni, ac eithrio os yw'r incwm gros yn fwy na £250,000, ac yn yr achos hwn dim ond aelodau o un o'r cyrff a restrir yn Neddf 1993 (gweler adran C2) sy'n gallu ymgymryd â'r archwiliad. Mae archwiliad annibynnol yn llai beichus nag archwiliad ariannol ac mae'n darparu llai o sicrwydd o ran dyfnder y gwaith sydd i'w wneud. Mae'r hyn y mae'n rhaid i archwiliwr ei wneud wedi'i ddatgan yn y Cyfarwyddiadau a wnaed gan y Comisiwn ac mae cynnwys adroddiad yr archwiliwr wedi'i ddatgan yn Rheoliadau 2008. Mae Rheoliadau a Chyfarwyddiadau 2008 yn orfodol ac yn gymwys i archwiliadau o elusennau cofrestredig ac elusennau sydd wedi'u heithrio rhag cofrestru ar hyn o bryd.

Yn ei adroddiad, mae'n ofynnol i archwiliwr gadarnhau yn unig nad yw unrhyw dystiolaeth wedi dod i'r amlwg sy'n awgrymu bod rhai pethau heb gael eu

gwneud gan yr elusen. Mae'r math hwn o 'sicrwydd negyddol' yn fath mwy cyfyngedig o archwilio. Nid yw'r archwiliwr yn gweithredu fel archwiliwr ariannol ac felly nid yw'n ofynnol iddo gynllunio ei waith i adnabod twyll perthnasol neu brofi'r rheolaethau ariannol mewnol sy'n gweithredu yn yr elusen.

Mae archwiliad yn golygu adolygu'r cofnodion cyfrifyddu a gedwir gan yr elusen a chymharu'r cyfrifon a gyflwynir yn erbyn y cofnodion hynny. Mae hefyd yn cynnwys adolygu'r cyfrifon ac ystyried unrhyw eitemau neu ddatgeliadau anarferol a ddaeth i'r amlwg. Mae'n bwysig nodi bod gweithdrefnau gwirio a gwarantu, pan fydd eitem yn y cyfrifon yn cael ei gwirio yn erbyn dogfen wreiddiol megis anfoneb neu dderbynneb, dim ond yn ofynnol pan fydd pryderon arwyddocaol yn deillio o waith yr archwiliwr, neu os nad oes modd cael esboniadau boddhaol gan yr ymddiriedolwyr.

Yn adroddiad yr archwiliwr, mae'n ofynnol i'r archwiliwr ddarparu datganiad ar faterion penodol sydd wedi dod at ei sylw o ganlyniad i'r gweithdrefnau archwilio a nodwyd yn y Cyfarwyddiadau a wnaed gan y Comisiwn. Mae hwn yn ofyniad symlach nag archwiliad ariannol. Mae'n ofynnol i archwiliwr ariannol adeiladu corff o dystiolaeth i gefnogi datganiad barn cadarnhaol ar y cyfrifon. Yn arbennig, mae'n ofynnol i archwiliwr ariannol ffurfio barn sy'n datgan a yw'r cyfrifon yn rhoi 'darlun gwir a theg'.

Mae rôl yr archwiliwr yn un pwysig ac mae ei adroddiad yn rhoi sicrwydd ynghylch materion penodol ac mae hefyd yn rhoi cyfle i'r archwiliwr dynnu sylw'r sawl sy'n darllen y cyfrifon at unrhyw faterion o bryder. Mae'n bwysig bod archwilwyr yn deall natur eu rôl ac yn fodlon cyn eu bod yn dechrau ar eu gwaith bod y gallu a'r profiad gofynnol ganddynt i wneud archwiliad cymwys.

Diben y canllaw hwn yw helpu archwilwyr i ddeall yr hyn a olygir wrth ymgymryd ag archwiliad, beth sy'n rhaid iddynt ei wneud a beth sy'n rhaid iddynt adrodd amdano. Argymhellir bod archwilwyr yn neilltuo amser i ddarllen y canllaw hwn a'r Cyfarwyddiadau cyn dechrau archwiliad annibynnol.

Os oes pryder arwyddocaol yn codi ynghylch y cyfrifon, y teimlai'r archwiliwr sy'n bwysig er mwyn deall y cyfrifon, ac mae'n parhau heb ei ddatrys, neu os yw materion eraill yn codi y mae'n rhaid eu cynnwys yn adroddiad yr archwiliwr, bydd angen ystyried sut i adrodd am hyn. Os yw mater yn codi sydd o arwyddocâd perthnasol i swyddogaethau rheoleiddio'r Comisiwn, ac rydym yn debygol o ystyried defnyddio ein pwerau ymchwilio, mae'n rhaid i'r archwiliwr baratoi adroddiad ar wahân hefyd ar y mater i'r Comisiwn yn ogystal ag adroddiad yr archwiliwr sydd wedi'i atodi i'r cyfrifon.

C
Pa elusennau all gael eu harchwilio'n annibynnol a chan bwy?

Mae'r adran hon yn esbonio pa elusennau all ddewis cael archwiliad annibynnol yn lle archwiliad ariannol. Mae'n esbonio pwy all ymgymryd ag archwiliad a beth sy'n rhaid ei gynnwys yn adroddiad yr archwiliwr i'r ymddiriedolwyr ar y cyfrifon.

C1. Pa elusennau all ddewis cael archwiliad annibynnol?

C

Yr ateb byr

Ar gyfer blynyddoedd ariannol sy'n diweddu ar neu cyn 31 Mawrth 2009, nid yw'n ofynnol i elusennau gydag incwm gros yn y flwyddyn o £10,000 neu lai gael unrhyw fath o archwiliad allanol. Ar gyfer blynyddoedd ariannol sy'n diweddu ar neu ar ôl 1 Ebrill 2009, mae'r trothwy hwn yn cael ei gynyddu ac felly nid yw'n ofynnol i elusennau gydag incwm gros o £25,000 neu lai gael archwiliad allanol.

Ar gyfer blynyddoedd ariannol sy'n diweddu ar neu cyn 31 Mawrth 2009, gall elusennau gydag incwm gros o £500,000 neu lai ddewis cael archwiliad annibynnol yn lle archwiliad ariannol oni bai fod eu hasedau gros yn fwy na £2.8 miliwn ac mae eu hincwm gros yn fwy na £100,000.

Ar gyfer blynyddoedd ariannol sy'n diweddu ar neu ar ôl 1 Ebrill 2009, mae'r trothwy ased gros a'r lefel incwm gros pan fydd y trothwy ased yn gymwys yn cael ei gynyddu felly gall elusennau gydag incwm gros o £500,000 neu lai ddewis cael archwiliad annibynnol yn lle archwiliad ariannol oni bai fod eu hasedau gros yn fwy na £3.26 miliwn ac mae eu hincwm gros yn fwy na £250,000.

Yn fwy manwl

Mae'r trothwyon ar gyfer archwiliad annibynnol wedi cynyddu ar gyfer blynyddoedd ariannol sy'n diweddu ar neu ar ôl 1 Ebrill 2009. Mae'r trothwyon sydd bellach yn gymwys wedi'u nodi isod. Dylai incwm gros gael ei gyfrifo yn unol â chanllawiau'r Comisiwn, fel y nodwyd yn Atodiad 1.

Ar gyfer elusennau gyda blynyddoedd ariannol sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ebrill 2008 ac sy'n diweddu ar neu cyn 31 Mawrth 2009, y trothwyon ar gyfer archwiliad statudol yw:

incwm gros o fwy na £500,000; neu

asedau gros o fwy na £2.8 miliwn os yw incwm gros yn fwy na £100,000 yn y flwyddyn ariannol.

Oni bai fod incwm gros yn fwy na £100,000 nid yw'r trothwy ased gros o £2.8 miliwn yn gymwys.

Ar gyfer elusennau gyda blynyddoedd ariannol sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ebrill 2009 y trothwyon ar gyfer archwiliad statudol yw:

incwm gros o fwy na £500,000; neu

asedau gros o fwy na £3.26 miliwn os yw incwm gros yn fwy na £250,000 yn y flwyddyn ariannol.

Oni bai fod incwm gros yn fwy na £250,000 nid yw'r trothwy ased gros o £3.26 miliwn yn gymwys.

Mae'r siart rediad yn Atodiad 2 yn nodi'r camau ar gyfer penderfynu a yw elusen unigol yn gymwys i gael archwiliad annibynnol neu beidio.

Mae'r dewis o gael archwiliad annibynnol hefyd yn gymwys i gwmnïau elusennol bach ar gyfer cyfnodau cyfrifyddu sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ebrill 2008 nad yw'n ofynnol iddynt gael archwiliad ariannol statudol. Er y gall cwmnïau elusennol sy'n gymwys i gael eithriad

archwiliad ariannol o dan y gyfraith cwmnïau ddewis gael archwiliad annibynnol yn lle archwiliad ariannol elusen ar yr un sail ag elusennau heb fod yn gwmnïau, mae dyletswydd ganddynt i gadw cofnodion cyfrifyddu, ac mae ffurf a chynnwys eu cyfrifon yn parhau i fod yn ddarostyngedig i'r gyfraith cwmnïau.

Fel rheol bydd elusennau sy'n is na'r trothwyon hyn ar gyfer archwiliad ariannol yn gallu dewis cael archwiliad annibynnol oni bai fod dogfen lywodraethol yr elusen yn mynnu fel arall. Ar gyfer blynyddoedd ariannol sy'n diweddu ar neu cyn 31 Mawrth 2009, fel rheol nid oes unrhyw ofyniad am unrhyw archwiliad annibynnol os yw'r incwm gros am y flwyddyn dan sylw yn £10,000 neu lai. Ar gyfer blynyddoedd ariannol sy'n diweddu ar neu ar ôl 1 Ebrill 2009, mae'r trothwy hwn yn cael ei gynyddu ac fel rheol nid oes unrhyw ofyniad am unrhyw archwiliad annibynnol os yw'r incwm gros am y flwyddyn dan sylw yn £25,000 neu lai.

Os yw incwm gros yr elusen yn fwy na £250,000 ac nid yw'r elusen yn destun archwiliad statudol, mae Deddf 2006 wedi cyflwyno gofyniad newydd i'r archwiliwr annibynnol fod yn aelod o gorff rhestredig. Rhestrir y cyrff hyn yn Neddf 1993 a hefyd yn adran C2 y canllaw hwn.

C2. Pwy all ymgymryd ag archwiliad annibynnol?

C

Yr ateb byr

Cyn derbyn penodiad fel archwiliwr annibynnol elusen, dylai'r archwiliwr fodloni ei hun fod y **gallu gofynnol** a'r **profiad ymarferol** ganddo i gynnal **archwiliad cymwys**.

Yn fwy manwl

Disgrifir archwiliwr annibynnol yn adran 43(3)(a) o Ddeddf 1993 fel "**unigolyn annibynnol** y mae sail resymol gan ymddiriedolwyr yr elusen dros gredu fod ganddo'r **gallu gofynnol** a'r **profiad ymarferol** i ymgymryd ag **archwiliad cymwys** o'r cyfrifon". Pan fydd incwm gros elusen yn fwy na £250,000, rhaid i'r archwiliwr fod yn unigolyn sy'n aelod o un o'r cyrff canlynol a restrir yn Neddf 1993 a dylai gael ei ganiatáu gan reolau'r corff hwnnw i ymgymryd â rôl archwiliwr annibynnol:

- Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr
- Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig yr Alban
- Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Iwerddon
- Cymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig
- Cymdeithas y Cyfrifwyr Cyhoeddus Awdurdodedig
- Cymdeithas y Technegwyr Cyfrifyddu
- Cymdeithas y Cyfrifwyr Rhyngwladol
- Sefydliad Siartredig Cyfrifwyr Rheoli
- Sefydliad Ysgrifenyddion a Gweinyddwyr Siartredig
- Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg
- Cymrawd Cymdeithas yr Archwilwyr Annibynnol Elusennau

Mae hawl gan archwilwyr annibynnol gael tâl rhesymol am eu gwasanaethau er bod nifer o archwilwyr yn darparu eu gwasanaethau yn wirfoddol.

Argymhellir bod aelodau cyrff proffesiynol yn gwirio a yw'n ofynnol iddynt feddu ar dystysgrif weithredol i dderbyn y penodiad, boed yn codi ffi neu'n gweithredu fel gwirfoddolwr. Gall gofynion pob corff proffesiynol amrywio o ran ei ofynion ar gyfer tystysgrif weithredol ac yswiriant indemniad proffesiynol.

Os ydynt yn codi ffi, dylai archwilwyr hefyd fod yn ymwybodol yr ystyrir eu bod yn darparu gwasanaethau cyfrifyddu ac felly rhaid iddynt fod yn gyfarwydd â Rheoliadau Gwyngalchu Arian a darpariaethau Deddf Elw Troseddau 2002, a chydymffurfio â nhw pan fydd yn ofynnol yn gyfreithiol iddynt wneud hynny. Fel rheol bydd y darpariaethau hyn yn berthnasol i unrhyw un sy'n ymgymryd â gwasanaethau cyfrifyddu am ffi, boed yn aelod o gorff proffesiynol neu beidio. Nid yw'r Comisiwn yn rheolydd ar gyfer y maes hwn o'r gyfraith; am ffynonellau gwybodaeth pellach, cyfeiriwch at Atodiad 7.

C3. Pwy yw rhywun annibynnol?

Yr ateb byr

Rhaid i archwiliwr fod yn annibynnol ar yr elusen y mae ei chyfrifon yn cael eu hadolygu. Mae annibyniaeth yn golygu nad yw'r archwilir yn cael ei ddylanwadu, neu'n cael ei weld fel ei fod yn cael ei ddylanwadu gan naill ai berthnasau personol agos ag ymddiriedolwyr yr elusen neu drwy ymwneud â gweinyddu'r elusen o ddydd i ddydd.

Yn fwy manwl

Er mwyn i archwiliwr fod yn annibynnol ni ddylai fod gan yr unigolyn hwnnw unrhyw gysylltiad â'r ymddiriedolwyr elusen a allai amharu ar gynnal yr archwiliad yn ddiduedd. Ni all archwiliwr adolygu'n annibynnol ei waith ei hun ac felly ni all yr unigolyn sy'n cadw llyfrau'r elusen fod yn archwiliwr yr elusen. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu na all archwiliwr fod yn aelod neu'n gefnogwr yr elusen ac yn aml bydd rhywfaint o gyfraniad yn cynnig brwdfrydedd a chynefindra ychwanegol i rôl yr archwiliwr.

Os yw darpar archwiliwr annibynnol yn aelod o'r elusen, er enghraifft yn aelod o gynulleidfa eglwys, ar yr amod nad yw wedi ymwneud â'r gwaith bob dydd o wneud penderfyniadau neu weinyddu'r elusen, er enghraifft drwy wasanaethu ar bwyllgor neu is-bwyllgor a gynullwyd gan yr elusen, ac nid yw'n gysylltiedig â'r ymddiriedolwyr elusen, fel rheol gall weithredu fel archwiliwr, ar yr amod bod y gallu, y profiad a'r cymhwyster gofynnol ganddo. Hefyd ni fyddai'r hawl i gymryd rhan neu fynychu fel aelod mewn cyfarfod cyffredinol blynyddol (CCB) yn atal yr archwiliwr annibynnol rhag cynnal archwiliad annibynnol er byddai cymryd rhan weithredol yng ngweinyddiad yr elusen, er enghraifft trwy osod cynnig gerbron mewn CCB yn ei atal rhag gwneud hynny.

Mae penderfynu a yw cysylltiad â'r elusen yn effeithio ar annibyniaeth yn dibynnu ar yr amgylchiadau arbennig ond fel rheol ni fydd yr unigolion canlynol yn cael eu hystyried yn annibynnol:

a. ymddiriedolwyr elusen neu unrhyw un arall sydd â chysylltiad agos â gweinyddu'r elusen;

b. prif roddwr neu brif fuddiolwr yr elusen; neu

c. plentyn, rhiant, ŵyr neu wyres, nain neu daid, brawd neu chwaer, cymar, partner sifil, partner busnes neu weithiwr cyflogedig unrhyw un sydd wedi'i gynnwys o fewn is-baragraff (a) neu (b) uchod.

C4. Pa sgiliau sydd eu hangen ar yr archwiliwr?

C

Yr ateb byr

Mae'r ymddiriedolwyr yn penodi archwiliwr annibynnol a rhaid iddynt gredu'n rhesymol bod gan y sawl a ddewiswyd y gallu gofynnol a'r profiad ymarferol i gynnal archwiliad cymwys o'r cyfrifon.

Yn fwy manwl

Yn y ddadl yn Nhŷ'r Arglwyddi ar y Mesur Elusennau a arweiniodd at Ddeddf 1993, dywedwyd "mae'n amlwg bod rhaid i archwiliwr annibynnol fod yn gymwys i gyflawni'r dasg sydd ganddo i'w wneud a rhaid iddo fod yn gyfarwydd â dulliau cyfrifyddu, ond nid oes rhaid iddo fod yn gyfrifydd gweithredol. Y bobl sydd gennym mewn golwg yw....pobl fel rheolwyr banc neu reolwyr cymdeithasau adeiladu, trysoryddion awdurdodau lleol neu gyfrifwyr sydd wedi ymddeol. Byddent i gyd yn archwilwyr annibynnol addas."

Bydd y sgiliau sy'n ofynnol gan archwiliwr yn dibynnu ar y cyfrifon ac a ydynt wedi'u paratoi ar sail derbyniadau a thaliadau neu ar sail croniadau, a maint a natur trafodion yr elusen.

Argymhellwn i ymddiriedolwyr pan fydd eu cyfrifon yn cael eu paratoi ar sail croniadau y dylent ystyried dewis unigolyn sy'n aelod o un o'r cyrff cyfrifeg a restrir yn Neddf 1993 (gweler adran C2), neu unigolyn medrus tebyg, sy'n dangos dealltwriaeth dda o egwyddorion cyfrifyddu, safonau cyfrifyddu a gwybodaeth o'r SORP. Dylai archwiliwr fodloni ei hun fod y gallu gofynnol a'r sgiliau angenrheidiol ganddo cyn ymgymryd ag archwiliad o'r cyfrifon a baratowyd ar sail croniadau.

Mae gan y mwyafrif o elusennau incwm gros sy'n is na'r trothwy ar gyfer paratoi cyfrifon croniadau, ac oni bai eu bod wedi'u cyfansoddi fel cwmni o dan y gyfraith cwmnïau, gallant baratoi cyfrifon derbyniadau a thaliadau syml. Mae'r math hwn o gyfrifyddu yn syml iawn ac yn darparu dewis arall syml i gyfrifon croniadau sy'n ateb gofynion cyfreithiol elusennau llai yn llawn. Nid oes angen cael gwybodaeth o safonau cyfrifyddu a'r SORP er mwyn archwilio cyfrifon derbyniadau a thaliadau.

Er y byddai profiad blaenorol yn ddefnyddiol iawn os yw cyfrifon derbyniadau a thaliadau yn cael eu paratoi, dylai unrhyw un sydd ag ymwybyddiaeth ariannol a sgiliau rhifiadol feddu ar y gallu gofynnol i weithredu fel archwiliwr annibynnol ar gyfer cyfrifon derbyniadau a thaliadau. Rhaid i bob archwiliwr ddarllen a deall y canllaw hwn a'r Cyfarwyddiadau sy'n gymwys iddynt wrth archwilio cyfrifon.

Os yw cyfrifon derbyniadau a thaliadau neu gyfrifon croniadau'n cael eu paratoi, mae angen i'r archwiliwr fod rhywfaint yn gyfarwydd â rhai egwyddorion sylfaenol gan gynnwys y mathau gwahanol o gronfeydd incwm (anghyfyngedig a chyfyngedig) a chronfeydd cyfalaf (gwaddol parhaol a gwaddol treuliadwy), natur yr ymddiriedolaethau, cyfrifoldebau ymddiriedolwyr, a rôl dogfen lywodraethol yr elusen. Am fwy o wybodaeth ynghylch dyletswyddau ymddiriedolwyr cyfeiriwch at ein cyhoeddiad *Yr Ymddiriedolwr Hanfodol: Yr hyn y mae angen i chi wybod* (CC3) sy'n ymwneud â dyletswyddau ymddiriedolwyr.

Mae meddu ar y gallu gofynnol yn bwysig er mwyn sicrhau bod yr archwiliwr yn cynnal archwiliad cymwys. **Archwiliad cymwys** yw un sy'n cael ei wneud gyda medr a gofal rhesymol yn unol â'r Cyfarwyddiadau ar gyfer archwiliad annibynnol.

Hefyd rhaid i ddarpar archwilwyr feddu ar brofiad ymarferol sy'n berthnasol i'r elusen dan sylw a allai olygu bod yr archwiliwr wedi:

- ymwneud â gweinyddiad ariannol elusen o natur debyg; neu
- weithredu'n llwyddiannus fel archwiliwr annibynnol yn flaenorol ar gyfer elusennau o'r fath; neu
- feddu ar brofiad ymarferol perthnasol ym maes cyfrifeg neu fasnach.

C5. Beth sy'n cael ei gynnwys yn adroddiad yr archwiliwr?

C

Yr ateb byr

Rhaid i adroddiad yr archwiliwr, sydd i'w gyflwyno i'r ymddiriedolwyr, gynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith.

Yn fwy manwl

Rhaid i adroddiad yr archwiliwr fodloni holl ofynion Rheoliadau 2008. Nid yw'r adroddiadau archwiliwr enghreifftiol yn Atodiad 4 yn orfodol a gall yr archwiliwr ddatblygu ei eiriad ei hun ar yr amod bod yr adroddiad yn cwmpasu holl ofynion Rheoliadau 2008. Nodir dyletswyddau adrodd penodol yr archwiliwr annibynnol yn Rheoliad 31 o Reoliadau 2008. Mae Cyfarwyddyd 10 a chanllawiau cysylltiedig yn pennu'r hyn y mae angen ei ystyried wrth baratoi adroddiad.

Mae adroddiad archwiliad annibynnol i gwmni elusennol a gorfforwyd o dan y gyfraith cwmnïau yn wahanol i adroddiad elusen heb fod yn gwmni oherwydd rhaid iddo ystyried gofynion cyfrifyddu Deddf Cwmnïau 2006 hefyd. Felly bydd angen i archwiliwr cwmni elusennol gael peth dealltwriaeth o ofynion cyfrifyddu ychwanegol cwmnïau bach.

Mae rhan gyntaf adroddiad yr archwiliwr yn cadarnhau nifer o faterion ffeithiol sy'n rhoi sicrwydd i'r darllenydd bod yr elusen yn gymwys i gael archwiliad annibynnol a bod yr archwiliwr wedi dilyn y Cyfarwyddiadau. Yn arbennig:

- enw'r elusen a'r cyfnod y cyfeiria'r cyfrifon ato;
- cymhwyster yr elusen i gael archwiliad annibynnol yn hytrach nag archwiliad ariannol;
- mae'r archwiliwr wedi dilyn y Cyfarwyddiadau;
- cyfrifoldeb yr archwiliwr i nodi a yw materion arbennig a bennwyd yn Rheoliadau 2008 wedi cael dod at ei sylw;
- sail adroddiad yr archwiliwr, sy'n helpu darllenydd yr adroddiad i ddeall camau'r archwiliad;
- os yw'r ymddiriedolwyr wedi cael goddefeb i gael archwiliad annibynnol yn lle archwiliad ariannol, mae'r archwiliwr yn cyfeirio at y ffaith hon; ac
- enw'r archwiliwr, ei gyfeiriad ac unrhyw gymhwyster proffesiynol perthnasol sydd ganddo ac, os yw incwm gros yr elusen yn fwy na £250,000, y cymhwyster a feddir sy'n ei alluogi i weithredu fel yr archwiliwr.

Mae ail ran yr adroddiad yn cadarnhau a yw materion arbennig wedi dod i'r amlwg yn ystod yr archwiliad. Yn wahanol i archwiliad ariannol ni roddir barn ynghylch a yw'r cyfrifon yn rhoi 'darlun gwir a theg'; yn hytrach mae'r archwiliwr yn cadarnhau a yw unrhyw beth wedi dod at ei sylw i awgrymu bod:

- cofnodion cyfrifyddu digonol heb gael eu cadw, neu yn achos cwmni elusennol bod cofnodion cyfrifyddu digonol heb gael eu cadw;
- nid yw'r cyfrifon yn cyfateb â chofnodion o'r fath;
- os yw cyfrifon yn cael eu paratoi ar sail croniadau, a ydynt yn methu â chydymffurfio â gofynion cyfrifyddu perthnasol o dan Reoliadau 2008 neu, os yw'n gwmni elusennol, ag adran 396 o Ddeddf Cwmnïau 2006 neu nid ydynt yn cydymffurfio â'r SORP; ac
- unrhyw fater y cred yr archwiliwr y dylid ei dynnu at sylw'r darllenydd er mwyn cael dealltwriaeth briodol o'r cyfrifon.

Mae'r materion y mae'n rhaid i'r archwiliwr eu hadrodd amdanynt yn cynnwys:

- gwariant neu weithredu perthnasol sy'n groes i ymddiriedolaethau'r elusen;
- methiant ar ran yr ymddiriedolwyr i ddarparu gwybodaeth ac esboniadau y mae hawl gan yr archwiliwr eu cael; a
- thystiolaeth bod cyfrifon sydd wedi'u paratoi ar sail croniadau yn berthnasol anghyson ag Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr ac yn achos cwmni elusennol ag adroddiad y cyfarwyddwyr.

Rhaid i adroddiad yr archwiliwr gael ei arwyddo gan yr archwiliwr yn ei enw ei hun. Er y gellir ychwanegu enw partneriaeth neu gwmni, mae penodi archwiliwr yn ymwneud â'r unigolyn yn hytrach na'r bartneriaeth neu'r cwmni. Os yw cyflwyniad electronig yn cael ei wneud i'r Comisiwn, gall fod yn ddelwedd o'r gwreiddiol neu'n gopi gyda llofnod wedi'i deipio.

Mae rhai elusennau sy'n gweithio yng Nghymru a Lloegr hefyd yn gweithredu yn yr Alban ac mae'n bosibl y bydd angen iddynt gofrestru gyda Swyddfa Rheolydd Elusennau'r Alban (OSCR). Mewn achosion o'r fath bydd angen i adroddiad yr archwiliwr fodloni gofynion cyfraith yr Alban hefyd. Mae canllawiau pellach i archwiliwr cyfrifon elusennau sy'n gweithio ar draws ffiniau i'w gweld yn Atodiad 3 ynghyd ag adroddiadau enghreifftiol.

C6. All ein cyfrifon grŵp gael eu harchwilio'n annibynnol?

C

Yr ateb byr

Os yw cyfrifon grŵp yn cael eu paratoi, sef cydgrynhoi cyfrifon elusen ac unrhyw is-gwmnïau, oherwydd bod hyn yn ofynnol yn ôl y gyfraith, yna rhaid cael archwiliad ariannol.

Yn fwy manwl

Mae gan rai elusennau is-gwmni masnachu sydd yn aml wedi'i gofrestru fel cwmni o dan y gyfraith cwmnïau ac mae'n ymgymryd â busnes masnachol er mwyn i unrhyw elw a wneir gael ei roi trwy Rodd Cymorth i'r elusen. Oni bai fod cyfanswm incwm gros y grŵp, hynny yw incwm gros yr elusen ynghyd ag incwm gros unrhyw is-gwmnïau (ar ôl dileu trafodion o fewn grŵp), yn fwy na'r trothwy statudol o £500,000, nid oes unrhyw ofyniad i baratoi cyfrifon grŵp. Os yw cyfanswm yr incwm gros yn fwy na £500,000 rhaid i'r cyfrifon grŵp gael eu paratoi a rhaid cynnal archwiliad ariannol.

Os cafodd cyfrifon grŵp eu paratoi yn is na'r trothwy hwn, byddent yn gyfrifon anstatudol a byddai unrhyw archwiliad o'r cyfrifon grŵp hyn yn wirfoddol er y gellid cymhwyso'r egwyddorion a nodwyd yn y Cyfarwyddiadau a wnaed gan y Comisiwn drwy drefniadau dan gytundeb rhwng yr elusen a'r archwiliwr annibynnol. Os hoffai ymddiriedolwyr ffeilio cyfrifon grŵp wedi'u paratoi yn wirfoddol fel eu cyfrifon statudol, dylai cyfrifon grŵp gydymffurfio â gofynion Deddf 1993, Rheoliadau 2008 a'r SORP. Os yw'r rhiant elusen yn gwmni, argymhellir bod cyfrifon grŵp hefyd yn cydymffurfio â'r gyfraith cwmnïau, yn enwedig os bydd cyfrifon yn cael eu defnyddio at ddibenion ffeilio yn Nhŷ'r Cwmnïau. Mae unrhyw archwiliad gwirfoddol o gyfrifon grŵp yn gofyn am lefel uchel o allu cyfrifyddu gan gynnwys dealltwriaeth o safonau cyfrifyddu ac egwyddorion cydgrynhoi.

Rhaid i gyfrifon rhiant elusen, os ydynt yn fwy na'r trothwy ar gyfer archwiliad annibynnol neu ariannol, gael eu harchwilio'n ariannol neu'n annibynnol yn unol â'r gofynion trothwy pan fyddant wedi'u cynnwys yn y cyfrifon grŵp sydd i'w ffeilio gyda'r Comisiwn. Mae'r gofyniad hwn yn gymwys hyd yn oed os yw'r cyfrifon grŵp yn cael eu paratoi yn wirfoddol i'w ffeilio gyda ni.

I gael mwy o wybodaeth am gyfrifon grŵp cyfeiriwch at adran berthnasol y SORP ac am fanylion y trothwy paratoi cyfeiriwch at ein cyfres CC15 o gyhoeddiadau - *Adroddiadau a Chyfrifon Elusennau: Yr Hanfodion* - ar gyfer y flwyddyn ariannol berthnasol.

Ch

Sut i baratoi ar gyfer archwiliad annibynnol

Er mwyn sicrhau archwiliad effeithlon ac effeithiol mae angen gwneud ychydig o waith paratoi. Mae'n rhaid i archwilwyr annibynnol ddeall eu dyletswyddau a'u hawliau fel yr esboniwyd yn y canllaw hwn a'r Cyfarwyddiadau. Dylai'r archwiliwr ac ymddiriedolwyr elusen gyd-drafod a chynllunio amserlen ar gyfer yr archwiliad a chael dealltwriaeth glir o gyfrifoldebau ei gilydd o ran yr archwiliad a pharatoi a ffeilio cyfrifon ac adroddiad yr elusen.

Ch1. Beth mae'r Comisiwn yn ei ddisgwyl gan yr archwiliwr annibynnol?

Yr ateb byr

Mae'r Comisiwn yn disgwyl y bydd pob archwiliwr wedi darllen y canllaw hwn ac wedi dilyn y Cyfarwyddiadau hyd orau ei allu a pharatoi adroddiad yr archwiliwr yn onest.

Yn fwy manwl

Mae'r Comisiwn yn ymwybodol bod archwilwyr gwirfoddol, nad ydynt yn codi ffi, yn rhoi eu hamser yn rhad ac am ddim er budd y sector elusennol. Os yw pryder yn codi ynghylch digonolrwydd archwiliad annibynnol a wnaed gan wirfoddolwr, bydd y Comisiwn yn ystyried natur y rôl wirfoddol a bod yn gymesur yn ein hymagwedd wrth ystyried unrhyw fethiant yn y broses archwilio ar yr amod bod yr archwiliwr wedi gweithredu'n onest. Mae'r safle hwn yn gyson â barn y Llysoedd pan fydd gwirfoddolwyr yn gweithredu fel ymddiriedolwyr ac nid ydynt yn meddu ar sgiliau proffesiynol arbennig.

Os yw'r archwiliwr yn codi ffi neu'n derbyn taliad mae'n darparu gwasanaethau cyfrifyddu a disgwyliwn i'r gwasanaethu hynny gael eu darparu i safon broffesiynol a disgwylir y bydd archwiliwr sy'n cael ei dalu:

- yn dangos gwybodaeth dechnegol briodol, gan gynnwys bod yn gyfarwydd â'r SORP os yw cyfrifon croniadau'n cael eu paratoi;
- ymgymryd â'i waith yn unol â'r Cyfarwyddiadau; ac
- mewn sefyllfa dda, trwy rinwedd ei allu a'i brofiad, i gyflawni ei ddyletswydd statudol i adrodd am faterion sydd o arwyddocâd perthnasol i'r Comisiwn.

Yn achos elusennau sydd ag incwm gros o fwy na £250,000 yng Nghymru a Lloegr, rhaid i'r archwiliwr fod yn aelod o gorff cyfrifyddu a restrir yn Neddf 1993 (gweler adran C2). Wrth osod y trothwy hwn mae'r Senedd wedi cydnabod y lefel uwch o fedr a phrofiad sy'n ofynnol wrth archwilio'r elusennau mwy hyn. O ganlyniad, boed yn gyflogedig neu beidio, mae'r Comisiwn yn disgwyl i'r archwiliad o'r elusennau mwy hyn fod wedi cael eu gwneud i safon broffesiynol gan ateb y meini prawf a osodwyd uchod.

Mae'r Comisiwn yn disgwyl y bydd yr archwiliwr yn ymwybodol o unrhyw faterion o arwyddocâd perthnasol y mae dyletswydd arnynt i'w hadrodd amdanynt hefyd wrth ymgymryd â'i waith.

Ch2. Pa gofnodion cyfrifyddu sy'n rhaid bod ar gael i'r archwiliwr?

C

Yr ateb byr

Rhaid i bob elusen gadw cofnodion cyfrifyddu a rhaid iddynt gael eu diweddaru a bod ar gael i'r archwiliwr annibynnol.

Yn fwy manwl

Rhaid i bob elusen gadw cofnodion cyfrifyddu. Rhaid cadw'r cofnodion hyn (ee llyfrau arian, anfonebau, derbyniadau, cofnodion Rhodd Cymorth ac ati) am o leiaf 6 blynedd (neu o leiaf 3 blynedd yn achos cwmnïau elusennol). Os yw taliadau Rhodd Cymorth yn cael eu derbyn bydd angen cadw cofnodion am 6 mlynedd gyda manylion unrhyw roddwyr sylweddol yn cael eu cadw yn unol â chanllawiau Tollau a Chyllid EM.

Rhaid i'r cofnodion cyfrifyddu fod yn ddigonol i ganiatáu i'r cyfrifon gael eu paratoi, gan adnabod trafodion gan gynnwys eu swm a'u dyddiad, ac adnabod symiau a natur asedau a rhwymedigaethau'r elusen.

Ch3. Pa wybodaeth all yr archwiliwr ofyn amdani?

C

Yr ateb byr

Mae hawl gan yr archwiliwr ofyn am unrhyw wybodaeth ac esboniadau gan gyn-ymddiriedolwyr elusen neu ymddiriedolwyr elusen presennol, swyddogion neu weithwyr yr elusen y teimlai'r archwiliwr sydd eu hangen ar gyfer yr archwiliad.

Yn fwy manwl

Mae gan yr archwiliwr hawl i gael at unrhyw lyfrau, dogfennau a chofnodion eraill (sut bynnag y cânt eu cadw) sy'n ymwneud â'r elusen ac mae'r archwiliwr yn teimlo y mae angen eu harchwilio at ddibenion yr archwiliad.

Yn ystod archwiliad mae'n debygol iawn y bydd angen i'r archwiliwr ofyn rhai cwestiynau neu geisio eglurhad o faterion sy'n codi ac mae'n ofynnol i gyn ymddiriedolwyr elusen neu ymddiriedolwyr elusen presennol, swyddogion neu weithwyr yr elusen gynorthwyo yn ôl y gyfraith. Mae hawl gan yr archwiliwr i geisio gwybodaeth ac esboniadau ar unrhyw fater y mae'r archwiliwr yn ystyried sydd ei angen at ddibenion cynnal yr archwiliad.

Ch4. Pwy sy'n rhaid paratoi'r Adroddiad Blynyddol a chyfrifon?

C

Yr ateb byr

Yr ymddiriedolwyr elusen sy'n gyfrifol am baratoi Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr a chyfrifon er gall yr archwiliwr annibynnol helpu elusen i'w paratoi.

Yn fwy manwl

Mae ein cyfres CC15 o gyhoeddiadau - *Adroddiadau a Chyfrifon Elusennau: Yr hanfodion* - yn esbonio'r gofynion ar gyfer Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr a'r dewisiadau ar gyfer paratoi cyfrifon ar gyfer blynyddoedd ariannol perthnasol.

Gall elusennau bach, heb fod yn gwmnïau elusennol sydd wedi cofrestru gyda Thŷ'r Cwmnïau, baratoi naill ai cyfrifon croniadau neu gyfrifon derbyniadau a thaliadau ar yr amod nad yw eu hincwm gros yn fwy na'r trothwy incwm gros perthnasol ar gyfer eu paratoi. Mae cyfrifon derbyniadau a thaliadau yn cynnig dewis arall syml a hyblyg ar gyfer cyfrifon croniadau mwy cymhleth. Yn syml mae cyfrifon derbyniadau a thaliadau yn gofnod wedi'i ddadansoddi o'r arian parod a dderbyniwyd ac a wariwyd yn y flwyddyn ariannol gan gysoni gweddillion arian parod a gweddillion banc a ddelir ar ddechrau ac ar ddiwedd y flwyddyn ynghyd ag atodlen o unrhyw asedau neu rwymedigaethau eraill ar ddiwedd y flwyddyn a elwir y 'Datganiad o Asedau a Rhwymedigaethau'. Mae ein cyhoeddiad *Pecyn Cyfrifon Derbyniadau a Thaliadau* (CC16) yn darparu cynllun pro forma ar gyfer Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr, cyfrifon derbyniadau a thaliadau, datganiad o asedau a rhwymedigaethau ac adroddiad yr archwiliwr annibynnol. Mae enghraifft barod yn seiliedig ar Glwb Ieuenctid sy'n defnyddio'r pecyn ar ein gwefan: www.charitycommission.gov.uk/investigations/sorp/sorp05exraa.asp

Mae'n rhaid i bob cwmni elusennol baratoi cyfrifon croniadau. Rhaid i elusennau sydd heb fod yn gwmnïau gyda blwyddyn ariannol sy'n diweddu ar neu cyn 31 Mawrth 2009 baratoi cyfrifon croniadau os yw eu hincwm gros yn fwy na £100,000. Ar gyfer blynyddoedd ariannol sy'n diweddu ar neu ar ôl 1 Ebrill 2009, mae'r trothwy hwn yn cael ei gynyddu felly rhaid i elusennau heb fod yn gwmnïau baratoi cyfrifon croniadau os yw eu hincwm gros yn fwy na £250,000. Yn gyffredinol rhaid i elusennau sy'n paratoi cyfrifon croniadau wneud hynny drwy ddilyn y SORP. Fodd bynnag, mae gan landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a sefydliadau addysg bellach ac uwch eu SORP eu hunain a dylent ddefnyddio hwn yn lle hynny ond mae maint y sefydliadau hyn yn golygu fel arfer nad ydynt yn debygol o fod yn gymwys i gael archwiliad annibynnol.

Mae cyfrifon croniadau yn fwy na dim ond yn fath syml o gyfrifon arian parod gyda dyledwyr (arian sy'n ddyledus i'r elusen ond sydd heb ei dalu erbyn diwedd y flwyddyn) a chredydwyr (arian sy'n daladwy gan yr elusen ond heb ei dalu erbyn diwedd y flwyddyn) oherwydd rhaid iddynt gynnwys cost neu brisiad asedau, dibrisiant asedau sefydlog, darpariaethau, prisiad y farchnad buddsoddiadau, amhariad asedau swyddogaethol ac addasiadau a datgeliadau cyfrifyddu eraill, er enghraifft, cyfrifyddu ar gyfer trefniadau pensiwn. Mae cyfrifon croniadau yn ffurf llawer mwy cymhleth o gyfrifyddu na derbyniadau a thaliadau ac mae'n dilyn y rheolau cyfrifyddu a

bennwyd gan y Bwrdd Safonau Cyfrifeg mewn safonau cyfrifyddu ac a ddehonglwyd gan y SORP ar gyfer y sector elusennau. Rhaid i gwmnïau elusennol gydymffurfio hefyd â gofynion cyfrifyddu Deddf Cwmnïau 2006.

Ar gyfer elusennau nad oes angen archwiliad statudol arnynt, mae'r SORP yn cynnig nifer o gonsesiynau ac i gynorthwyo elusennau llai nad ydynt yn gwmnïau mae ein cyhoeddiad *Pecyn Cyfrifon Croniadau* (CC17) yn darparu cynllun pro forma ar gyfer y cyfrifon, Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr ac adroddiad yr archwiliwr a phan fydd wedi'i gwblhau mae'n bodloni'r gofynion cyfreithiol yn llawn. Ar gyfer elusennau sy'n gwmnïau a heb fod yn gwmnïau, mae nifer o enghreifftiau parod o gyfrifon croniadau i'w gweld ar ein gwefan: www.charitycommission.gov.uk/investigations/sorp/sorp05exraa.asp

Ch5. Pwy ddylai ffeilio Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr a chyfrifon a phryd?

C

Yr ateb byr

Yr ymddiriedolwyr elusen sy'n gyfrifol am ffeilio cyfrifon eu helusen gyda'r Comisiwn cyn pen 10 mis o ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Yn fwy manwl

Ar gyfer blynyddoedd ariannol sy'n diweddu ar neu cyn 31 Mawrth 2009, rhaid i'r elusennau hynny sydd ag incwm gros o fwy na £10,000 ffeilio eu hadroddiad a'u cyfrifon gyda'r Comisiwn. Ar gyfer blynyddoedd ariannol sy'n diweddu ar neu ar ôl 1 Ebrill 2009, mae'r trothwy hwn yn cael ei gynyddu ac felly dim ond elusennau gydag incwm gros sy'n fwy na £25,000 sy'n rhaid ffeilio eu hadroddiad a'u cyfrifon gyda ni. Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am sicrhau bod Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr a chyfrifon, ynghyd ag adroddiad yr archwiliwr annibynnol yn cael eu cyflwyno i'r Comisiwn cyn pen 10 mis o ddiwedd y flwyddyn ariannol. Dylai ymddiriedolwyr cwmnïau elusennol nodi bod ffeilio gyda Thŷ'r Cwmnïau yn ofynnol cyn pen 9 mis o ddiwedd y flwyddyn ariannol a gall fod yn gyfleus iddynt ffeilio gyda'r Comisiwn yr un pryd.

Dylai'r ymddiriedolwyr gytuno ar amserlen ar gyfer cwblhau'r archwiliad gyda'r archwiliwr. Dylai Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr, cyfrifon a chofnodion a gwybodaeth ategol gael eu darparu i'r archwiliwr yn ddigon cynnar i ganiatáu i'r archwiliad gael ei gwblhau ac i'r cyfrifon gael eu cymeradwyo gan yr ymddiriedolwyr cyn y dyddiad cau ar gyfer ffeilio.

Os yw'r ymddiriedolwyr yn awyddus i'r archwiliwr ddelio â'r ffeilio dylai hyn gael ei gytuno yn ysgrifenedig â'r archwiliwr fel rhan o'r ymrwymiad. Os yw'r ffeilio yn debygol o fod yn hwyr dylai'r ymddiriedolwyr roi gwybod i'r Comisiwn cyn y dyddiad cau ar gyfer ffeilio gan esbonio'r amgylchiadau, y camau y mae'r ymddiriedolwyr yn eu cymryd a'r dyddiad tebygol pan fyddant yn ffeilio.

Ch6. Beth arall all yr archwiliwr ei wneud i sicrhau archwiliad cymwys?

Yr ateb byr

Mae dilyn y canllawiau a'r Cyfarwyddiadau yn y cyhoeddiad hwn yn hanfodol ac yn ogystal â dilyn y gofynion cyfreithiol, mae cynllunio a pharatoi yn bwysig.

Yn fwy manwl

Mae paratoi ar gyfer yr archwiliad yn bwysig. Mae cynllunio gofalus yn allweddol i archwiliad llwyddiannus. Mae nifer o'r camau y mae angen eu cymryd eisoes wedi cael eu hesbonio yn y canllaw hwn - mae'r pwyntiau allweddol i'w cofio yn cynnwys:

- cydweithio â'r ymddiriedolwyr i sicrhau bod cofnodion cyfrifyddu yn gyfoes ac ar gael;
- cytuno ar amserlen gyda'r ymddiriedolwyr ar gyfer paratoi'r cyfrifon ac Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr;
- cytuno ar gyfrifoldebau gyda'r ymddiriedolwyr, er enghraifft, pwy fydd yn paratoi'r cyfrifon ac yn eu ffeilio gyda'r Comisiwn;
- cytuno ar amserlen ar gyfer yr archwiliad gyda'r ymddiriedolwyr; a
- sicrhau bod yr archwiliad yn digwydd ar adeg pan fydd ymddiriedolwyr a staff allweddol ar gael i ateb unrhyw gwestiynau a all godi.

Gallwch lwytho i lawr gwybodaeth bellach, gan gynnwys amserlen bosibl, yn: www.charitycommission.gov.uk/investigations/fileearly.asp

D

Cyfarwyddiadau'r Comisiwn Elusennau

Mae Cyfarwyddiadau'r Comisiwn Elusennau yn darparu'r sail drefniadol neu'r fframwaith i ddiffinio sut y mae'n rhaid bodloni dyletswyddau'r archwiliwr. Mae'r Cyfarwyddiadau yn cael eu gwneud gan y Comisiwn Elusennau o dan bwerau a roddwyd yn Neddf 1993 ac maent yn pennu'r meysydd gwaith y mae'n rhaid eu hastudio mewn unrhyw archwiliad.

Mae 10 Cyfarwyddyd penodol y mae'n rhaid i'r archwiliwr eu hystyried wrth archwilio cyfrifon croniadau a 7 Cyfarwyddyd sy'n gymwys i archwilio cyfrifon derbyniadau a thaliadau. Yn ogystal, dylai pob archwiliwr ystyried a yw unrhyw faterion o arwyddocâd perthnasol wedi dod i'w sylw ac felly mae dyletswydd gyfreithiol i adrodd i'r Comisiwn yn codi (gweler adran Dd).

Cyfarwyddyd	Yn gymwys i dderbyniadau a thaliadau	Yn gymwys i gyfrifon croniadau	Yn gymwys i gwmnïau elusennol
1. Trothwyon archwilio a chyfrifyddu	✓	✓	✓
2. Dogfennaeth	✓	✓	✓
3. Deall yr elusen	✓	✓	✓
4. Cofnodion cyfrifyddu	✓	✓	✓
5. Cymharu â chofnodion cyfrifyddu	✓	✓	✓
6. Gweithdrefnau dadansoddol	✓	✓	✓
7. Ffurf a chynnwys cyfrifon		✓	✓
8. Polisïau, amcangyfrifon a barnau cyfrifyddu		✓	✓
9. Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr		✓	✓
10. Adroddiad yr archwiliwr	✓	✓	✓
Dyletswydd statudol i adrodd am faterion penodol sydd o arwyddocâd perthnasol i'r Comisiwn Elusennau	✓	✓	✓

Er mai dim ond archwilwyr cyfrifon sy'n cael eu paratoi ar sail croniadau sy'n rhaid adolygu Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr o ran bod yn gyson â'r cyfrifon, gall Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr barhau i fod yn ddefnyddiol i archwilwyr cyfrifon derbyniadau a thaliadau.

Mae'r adran hon yn rhoi:

- esboniad o amcan pob un o'r 10 Cyfarwyddyd; a
- chanllaw ar weithdrefnau a dulliau gweithredu sy'n helpu archwilwyr i fodloni gofynion y Cyfarwyddiadau.

Mae'r Cyfarwyddiadau (y mae'n rhaid eu dilyn) wedi'u hatgynhyrchu mewn print bras, gyda chanllaw esboniadol mewn print ysgafn oddi dano. Nid yw'r canllaw sy'n dilyn pob Cyfarwyddyd yn orfodol ond fe'i hargymhellir er mwyn helpu sicrhau bod archwilwyr yn bodloni gofynion y Cyfarwyddiadau. Fel unrhyw ganllaw, ni all yr enghreifftiau a'r gweithdrefnau a roddwyd fodloni'r holl amgylchiadau a all godi yn achos archwiliad a bydd angen i bob archwiliwr lunio barn am hyn yng nghyd-destun ei waith ei hun.

Mae pob cyfeiriad at 'adrannau' Deddf Elusennau 1993 yn y Cyfarwyddiadau a'r canllawiau sy'n dilyn yn cyfeirio at adrannau Deddf 1993, fel y'u diwygiwyd gan Ddeddf Elusennau 2006. Mae'r cyfeiriadau at y gyfraith cwmnïau yn cyfeirio at Ddeddf Cwmnïau 2006 fel y bônt yn gymwys o 6 Ebrill 2008.

Mae canllawiau sy'n esbonio ym mha amgylchiadau y bydd dyletswydd gyfreithiol yn codi i adrodd i'r Comisiwn am fater o arwyddocâd perthnasol i'w gweld yn adran Dd.

Ar gyfer cwmnïau elusennol gyda blwyddyn ariannol sy'n dechrau cyn 6 Ebrill 2008, dylai cyfeiriadau at Ddeddf Cwmnïau 1985 ddisodli'r rhai yn Neddf Cwmnïau 2006 yn yr adroddiadau archwilwyr enghreifftiol (atodiadau 3 a 4), fel y nodwyd yn y tabl isod.

Cyfeiriad at Ddeddf Cwmnïau 2006	Cyfeiriad at Ddeddf Cwmnïau 1985
Adran 386 (cofnodion cyfrifyddu)	Adran 221
Adran 396 (math o gyfrifon)	Adran 226(A)
Adran 474(2) (cyfrif incwm a gwariant)	Adran 262(2)
Adran 477 (eithriad archwiliad)	Adran 249(A))

Cyfarwyddyd 1

Trothwyon archwilio a chyfrifyddu

Bydd yr archwiliwr yn dilyn gweithdrefnau penodol fel yr ystyrir sy'n angenrheidiol er mwyn darparu sail resymol i gasglu:

(i) bod angen archwiliad o dan adran 43(3) o Ddeddf Elusennau 1993, ac nid yw adran 43(2) (archwiliad ariannol) o Ddeddf Elusennau 1993 yn gymwys i'r elusen; ac

(ii) os yw'r elusen yn elusen cwmni bach, ei bod wedi'i hesgusodi rhag cael archwiliad ariannol yn unol ag adran 477 o Ddeddf Cwmnïau 2006; ac

(iii) os yw cyfrifon yn cael eu paratoi ar sail derbyniadau a thaliadau o dan adran 42(3) o Ddeddf Elusennau 1993, mae'n briodol i'r ymddiriedolwyr elusen ddewis paratoi cyfrifon o dan yr is-adran hon.

Canllaw

1.1. Gall ymddiriedolwyr ddewis cael archwiliad annibynnol (o dan adran 43(3)) ac, i elusennau heb fod yn gwmnïau yn unig, os yw eu helusen yn gymwys i ddewis paratoi cyfrifon derbyniadau a thaliadau (o dan adran 42(3)). Er mwyn i'r naill ddewis neu'r llall fod yn ddilys, rhaid i'r elusen ddod o fewn y bandiau incwm perthnasol a bennwyd gan ddeddfwriaeth.

Dylai'r archwiliwr gymryd camau rhesymol i gadarnhau'r canlynol:

- Nid yw incwm gros yr elusen am y flwyddyn ariannol neu gyfanswm gwerth asedau yn fwy na'r trothwy ar gyfer archwiliad annibynnol. Ar gyfer elusennau gyda blynyddoedd ariannol sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ebrill 2008 ac sy'n diweddu ar neu cyn 31 Mawrth 2009, os yw'r incwm gros yn fwy na £500,000 neu os yw'r incwm gros yn fwy na £100,000 ac mae cyfanswm gwerth asedau (cyn tynnu rhwymedigaethau) yn fwy na £2.8 miliwn mae archwiliad ariannol yn ofynnol. Ar gyfer blynyddoedd ariannol sy'n diweddu ar neu ar ôl 1 Ebrill 2009 rhaid cael archwiliad ariannol os yw'r incwm gros yn fwy na £500,000 neu os yw'r incwm gros yn fwy na £250,000 ac mae cyfanswm gwerth asedau (cyn tynnu rhwymedigaethau) yn fwy na £3.26 miliwn.
- Os yw'r elusen yn rhiant elusen gydag un neu fwy o is-gwmnïau (ee, cwmni masnachu), nid yw cyfanswm incwm gros y rhiant elusen a'i his-gwmnïau ar ôl addasiadau cyfuno yn fwy na £500,000 oherwydd rhaid paratoi cyfrifon grŵp os yw'n uwch na'r trothwy hwn sy'n gofyn am archwiliad ariannol.
- Os yw'r elusen yn gweithredu canghennau ac mae'r canghennau hyn yn rhan o'r elusen (ac nid yn elusennau cofrestredig ar wahân) mae unrhyw incwm a dderbynnir gan y canghennau wedi cael ei gynnwys yn incwm gros yr elusen.

1.2. Os yw derbyniadau a thaliadau'n cael eu paratoi, nid yw'r elusen yn gwmni wedi'i gorffori o dan y gyfraith cwmnïau ac ar gyfer elusennau heb fod yn gwmnïau:

- ar gyfer blynyddoedd ariannol sy'n diweddu ar neu cyn 31 Mawrth 2009, mae'r incwm gros yn £100,000 neu lai; neu
- ar gyfer blynyddoedd ariannol sy'n diweddu ar neu cyn 1 Ebrill 2009, mae'r incwm gros yn £250,000 neu lai.
- A yw'r incwm gros:
- ar gyfer blynyddoedd ariannol sy'n diweddu ar neu cyn 31 Mawrth 2009 yn fwy na £10,000; neu

- ar gyfer blynyddoedd ariannol sy'n diweddu ar neu cyn 1 Ebrill 2009 yn fwy na £25,000;

Nid yw unrhyw archwiliad yn ofynnol yn ôl y gyfraith os yw'n is na'r trothwyon hyn.

- A yw dogfen lywodraethol yr elusen yn gofyn am unrhyw fath o archwiliad proffesiynol.
- A yw unrhyw amod grant yn gofyn am archwiliad ariannol o'r cyfrifon.

1.3. Trwy ddilyn y gweithdrefnau hyn yn gynnar yn y broses dylid atal gwaith yr archwiliwr rhag cael ei ddyblygu gan archwiliad ariannol proffesiynol a fyddai'n ychwanegu at gostau'r elusen. Os nad yw'r elusen yn gymwys i gael archwiliad annibynnol dylai'r cyfrifon gael eu cyfeirio yn ôl at yr ymddiriedolwyr i benodi archwiliwr ariannol os yw'r incwm gros yn fwy na'r trothwy neu ystyried archwiliad gwirfoddol os yw incwm gros yr elusen yn is na'r trothwy pan fydd archwiliad allanol yn ofynnol yn ôl y gyfraith.

1.4. Dylai incwm gros at ddibenion trothwy gael ei gyfrifo yn unol â'r dulliau a nodir yn Atodiad 1. Os yw cyfrifon yn cael eu paratoi ar sail croniadau dylai lefel yr incwm gael ei ystyried ar sail croniadau. Os yw cyfrifon yn cael eu paratoi ar sail derbyniadau a thaliadau dylai lefel yr incwm gael ei ystyried ar sail yr arian a dderbyniwyd.

1.5. Dylai'r archwiliwr ystyried yn gynnar yn y broses archwilio lefel yr incwm a ddatgelir gan y cofnodion cyfrifyddu a thrwy'r prawfweddill. Fodd bynnag, mae angen i'r archwiliwr fod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth ychwanegol a all ddod i'r amlwg yn ystod yr archwiliad sy'n dangos bod trothwy incwm wedi cael ei groesi.

1.6. Dylai'r camau rhesymol sy'n cael eu cymryd i gadarnhau incwm yr elusen a chanlyniad yr ymchwil hwnnw gael eu dogfennu yn unol â Chyfarwyddyd 2.

1.7. Os yw'r ymddiriedolwyr wedi gwneud cais a chael cymeradwyaeth y Comisiwn ymlaen llaw am archwiliad annibynnol yn lle archwiliad ariannol, dylai'r archwiliwr annibynnol geisio copi o'r llythyr cymeradwyo gan y Comisiwn a chyfeirio ato yn adroddiad yr archwiliwr.

1.8. Mae'r trothwyon ar gyfer archwiliad ariannol, archwiliad annibynnol ac ar gyfer cyfrifon derbyniadau a thaliadau yn cael eu hadolygu'n barhaus. Mae'r Llywodraeth wedi darparu ar gyfer adolygiad o'r trothwyon hyn yn dilyn Deddf Elusennau 2006 ac felly mae'n bwysig i gadarnhau'r trothwyon sy'n gymwys. Felly argymhellir cyn archwiliad annibynnol bod y trothwyon yn cael eu cadarnhau. Mae manylion yr holl drothwyon cyfredol i'w gweld trwy edrych ar dudalennau cyfrifyddu neu gyhoeddiadau ar wefan y Comisiwn - www.charitycommission.gov.uk.

1.9. Pan basiwyd Deddf Elusennau 2006, gwnaethpwyd ymrwymiad i'r Senedd y byddai gweithredu'r Ddeddf yn cael ei adolygu o fewn pum mlynedd. Rhagwelir y bydd yr holl drothwyon ariannol yn cael eu hailystyried fel rhan o'r adolygiad hwn. Argymhellir bod darllenwyr yn cyfeirio at wefan y Comisiwn Elusennau i gadarnhau y trothwyon sy'n gymwys os ydynt yn defnyddio'r canllaw hwn ar gyfer blynyddoedd ariannol sy'n diweddu yn neu ar ôl 2011.

Cyfarwyddyd 2

Dogfennaeth

Bydd yr archwiliwr yn cofnodi'r gweithdrefnau archwilio a ddilynwyd ac unrhyw faterion sy'n bwysig i gefnogi'r casgliadau neu ddatganiad a ddarparwyd yn adroddiad yr archwiliwr.

Canllaw

2.1. Dylai papurau gweithio'r archwiliwr ddarparu manylion am y gwaith a wnaed a chefnogi unrhyw gasgliadau, a chofnodi unrhyw faterion o farn (os yw cyfrifon croniadau yn cael eu paratoi gweler Cyfarwyddyd 8) a all godi. Fel rheol dylai papurau gweithio gael eu cadw gan yr archwiliwr am chwe blynedd ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol y maent yn cyfeirio ati, a byddent yn cynnwys:

- gohebiaeth â'r ymddiriedolwyr sy'n cadarnhau ei fod wedi'i benodi fel yr archwiliwr annibynnol. Dylai archwilwyr annibynnol sy'n codi ffi neu'n derbyn unrhyw fath o dâl baratoi llythyr ymrwymiad;
- llythyr ymrwymiad, os yw'n briodol, gan yr archwiliwr annibynnol i'r ymddiriedolwyr, ynghyd â thystiolaeth ei fod wedi cael ei dderbyn gan yr ymddiriedolwyr (er enghraifft, copi o'r llythyr ymrwymiad wedi'i arwyddo gan gynrychiolydd yr ymddiriedolwyr);
- gwybodaeth berthnasol a dynnwyd neu a gafwyd o'r ddogfen lywodraethol, cofnodion cyfarfod yr ymddiriedolwyr a chofnod o drafodaethau gyda'r ymddiriedolwyr elusen a staff yr elusen;
- nodiadau ynghylch sut y mae unrhyw feysydd o bryder a nodwyd wedi cael eu datrys, gan gynnwys cyfarfodydd gydag ymddiriedolwyr a staff yr elusen, ynghyd â manylion unrhyw weithdrefnau gwirio a ddefnyddiwyd;
- os yw gweithdrefnau gwirio wedi cael eu defnyddio, manylion am unrhyw wirio neu warantu a wnaed yn ystod yr archwiliad, y casgliadau ac unrhyw feysydd o bryder a nodwyd;
- os yw eitemau'n cael eu hadio fel un cofnod yn y cyfrifon, atodlenni yn dangos y dadansoddiad o eitemau cyfrifyddu sydd wedi cael eu hagregu at ddibenion datgelu'r cyfrifon;
- copïau o unrhyw brawfweddill a'r cyfrifon;
- Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr os yw cyfrifon croniadau yn cael eu paratoi (mae gweld Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr yn ofynnol o dan Cyfarwyddyd 9 os yw cyfrifon croniadau yn cael eu paratoi, ond mae'n cael ei argymell ond nid yw'n ofynnol os yw cyfrifon derbyniadau a thaliadau yn cael eu paratoi); ac
- mewn amgylchiadau eithriadol, copïau o unrhyw sicrwydd ysgrifenedig yr oedd yr archwiliwr wedi gofyn i'r ymddiriedolwyr ei ddarparu yn cadarnhau'r symiau sydd wedi'u cynnwys o fewn y cyfrifon.

2.2. Os oes achos gan yr archwiliwr dros ymddiswyddo neu nid yw'n gallu cwblhau ei archwiliad annibynnol, dylai ystyried yr amgylchiadau'n ofalus a phenderfynu a oes dyletswydd i adrodd i'r Comisiwn, er enghraifft, a gafodd ei atal rhag cwblhau'r archwiliad neu gael ei rwystro gan ymddiriedolwyr neu staff yr elusen i ymgymryd â'i archwiliad. Hyd yn oed os nad oes unrhyw ddyletswydd i adrodd, gall yr archwiliwr benderfynu ei fod wedi adnabod materion yr hoffai adrodd amdanynt oherwydd y teimlai eu bod yn berthnasol i waith y Comisiwn. Rhoddir canllawiau pellach ar faterion adrodd i'r Comisiwn yn adran Dd ac Atodiad 5.

Cyfarwyddyd 3

Deall yr elusen

Bydd yr archwiliwr yn cael dealltwriaeth o gyfansoddiad yr elusen, ei threfniadaeth, ei systemau cyfrifyddu, ei gweithgareddau a natur ei hasedau, ei rhwymedigaethau, ei hadnoddau a dderbynnir a'r defnydd o adnoddau er mwyn cynllunio'r gweithdrefnau archwilio penodol sy'n briodol i amgylchiadau'r elusen.

Canllaw

3.1. Er mwyn cynnal archwiliad priodol mae'n bwysig i'r archwiliwr gael dealltwriaeth o'r hyn y mae'r elusen yn ceisio ei wneud a sut y mae'n mynd ati i'w gyflawni. Bydd angen i'r archwiliwr wybod am weithrediadau, strwythur ac amcanion yr elusen. Bydd y ddealltwriaeth hon yn helpu'r archwiliwr i gynllunio ei archwiliad annibynnol drwy nodi prif brosiectau a gweithgareddau pwysig yr elusen, problemau neu bryderon posibl a darparu cefndir i'w adolygiad dadansoddol. Fel rheol byddai'r camau y mae'r archwiliwr yn eu cymryd yn cynnwys:

- ystyried dogfen lywodraethol yr elusen, gan roi sylw arbennig i amcanion, pwerau a rhwymedigaethau'r elusen;
- ystyried unrhyw faterion a fyddai'n esgor ar ddyletswydd statudol i baratoi adroddiad i'r Comisiwn (gweler adran Dd ac Atodiad 5 am arweiniad);
- trafodaethau gyda'r ymddiriedolwyr ac, os yw'n briodol, staff yr elusen, er mwyn deall y gweithgareddau, strwythur, nodau ac amcanion a ddefnyddir gan yr elusen i geisio cyflawni ei hamcanion er budd cyhoeddus;
- trafodaethau â'r ymddiriedolwyr ac, os yw'n briodol, staff yr elusen, am weithgareddau'r elusen er mwyn dirnad unrhyw amgylchiadau a phroblemau arbennig sy'n effeithio ar yr elusen;
- adolygu cofnodion cyfarfodydd yr ymddiriedolwyr er mwyn gwybod manylion prif ddigwyddiadau, cynlluniau, penderfyniadau ac unrhyw newidiadau i'r corff ymddiriedolwyr; a
- chael manylion y cofnodion cyfrifyddu sy'n cael eu cadw a'r dulliau o gofnodi trafodion ariannol.

3.2. Fel rheol dylai trafodaeth gydag un o'r ymddiriedolwyr a'r sawl sydd wedi paratoi'r cyfrifon roi'r holl wybodaeth neu esboniadau sy'n ofynnol. Fodd bynnag, yn ystod archwiliad annibynnol, os yw diffyg cyfarfodydd ffurfiol yr ymddiriedolwyr, neu absenoldeb cadw cofnodion neu gadw cofnodion priodol, neu orddibynnu ar unigolyn allweddol yn cael ei nodi, mae'n bosibl y bydd angen i'r archwiliwr gadarnhau neu drafod materion arwyddocaol gyda dau neu fwy o'r ymddiriedolwyr a/neu aelodau staff yr elusen er mwyn cael yr wybodaeth gefndir angenrheidiol ar gyfer yr archwiliad.

Cyfarwyddyd 4

Cofnodion cyfrifyddu

Bydd yr archwiliwr yn adolygu'r cofnodion cyfrifyddu sy'n cael eu cadw yn unol ag adran 41 o Ddeddf Elusennau 1993 neu, yn achos elusen sy'n gwmni, y cofnodion cyfrifyddu a gedwir yn unol ag adran 386 o Ddeddf Cwmnïau 2006, er mwyn darparu sail resymol ar gyfer adnabod unrhyw fethiant perthnasol i gadw cofnodion o'r fath.

Canllaw

4.1. Mae'r ymddiriedolwyr elusen yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu. Mae hwn yn gyfrifoldeb pwysig ac mae absenoldeb cofnodion cyfrifyddu trefnus a chyflawn yn peri risg arwyddocaol o gam-ddatgan a cholled o dwyll, lladrad neu gamddefnyddio cronfeydd elusennol.

4.2. Mae'n ofynnol i'r archwiliwr adolygu'r cofnodion cyfrifyddu gyda'r nod o adnabod unrhyw fethiant perthnasol i gadw cofnodion o'r fath yn unol â dyletswydd gyfreithiol yr ymddiriedolwyr. Dylai adolygiad syml ddangos a yw cofnodion neu dalebau (anfonebau, derbyniadau, hawliadau a gwaith papur arall) wedi cael eu cadw i gefnogi'r cyfrifon ac a ydynt i'w gweld yn rhesymol gyflawn. Gall tystiolaeth bellach ynghylch cyflawnrwydd y cofnodion hynny ddod o unrhyw warantu a wnaed yn dilyn yr adolygiad dadansoddol. I ymddiriedolwyr elusennau heb fod yn gwmnïau mae eu dyletswydd o dan adran 41(1) o Ddeddf 1993. I ymddiriedolwyr (cyfarwyddwyr fel rheol) cwmnïau elusennol mae eu dyletswydd gyfreithiol o dan adran 386 o Ddeddf Cwmnïau 2006.

4.3. Nid yw'r gweithdrefnau adolygu wedi'u hanelu at adnabod hepgoriad achlysurol neu wall dibwys, ond yn hytrach adnabod unrhyw fethiant dybryd i gadw cofnodion mewn ffordd sy'n gyson â'r gofynion statudol.

4.4. Dylai cofnodion cyfrifyddu gael eu trefnu'n dda a gallu cael eu hadfer a'u dadansoddi'n hawdd. Gall cofnodion fod ar sawl ffurf, er enghraifft ar ffurf llyfr, rhwymwr tudalennau rhydd neu gofnodion cyfrifiadurol.

4.5. Dylai'r cofnodion cyfrifyddu:

- fod yn gyfoes;
- fod ar gael yn hawdd; a
- darparu'r wybodaeth sylfaenol ar gyfer pennu'r safle ariannol, nid yn unig ar ddiwedd y flwyddyn, ond hefyd ar unrhyw ddyddiad arbennig.

4.6. Dylai'r cofnodion cyfrifyddu gynnwys:

- manylion yr holl arian a dderbyniwyd ac a ddefnyddiwyd, dyddiad a natur yr hyn a dderbyniwyd neu a ddefnyddiwyd; a
- manylion asedau a rhwymedigaethau.

4.7. Mae'n bosibl nad yw elusennau llai wedi cadw cyfriflyfrau nominal i gofnodi asedau a rhwymedigaethau, ac mewn achosion o'r fath yn gyffredinol gall y gofynion gael eu bodloni trwy gadw cofnod syml o drafodion a ffeiliau ar gyfer anfonebau heb eu talu a symiau sydd i'w derbyn. Hefyd mae cofnod o stociau ac asedau sefydlog yn ofynnol yn gyffredinol i fodloni'r gofynion cyfrifyddu.

4.8. Mae'n ofynnol i gwmnïau elusennol gan adran 386 o Ddeddf Cwmnïau 2006 i gadw cofnodion cyfrifyddu sy'n cynnwys:

- cofnodion o ddydd i ddydd o'r holl symiau arian a dderbyniwyd ac a ddefnyddiwyd gan y cwmni a'r materion y mae'r arian yn cael ei dderbyn a'i wario ar eu cyfer; a
- chofnod o asedau a rhwymedigaethau'r cwmni.

4.9. Rhaid i gwmnïau elusennol sy'n delio mewn nwyddau hefyd gadw cofnodion stoc, ac mae'r gofynion arbennig ar eu cyfer wedi'u nodi yn adran 386(4) o Ddeddf Cwmnïau 2006.

Cyfarwyddyd 5

Cymharu â chofnodion cyfrifyddu

Bydd yr archwiliwr yn cymharu cyfrifon yr elusen â chofnodion cyfrifyddu'r elusen yn ddigon manwl er mwyn darparu sail resymol ar gyfer penderfynu a yw'r cyfrifon yn unol â chofnodion cyfrifyddu o'r fath.

Canllaw

5.1. Mae angen cymharu'r cyfrifon â'r cofnodion cyfrifyddu sylfaenol er mwyn bod yn fodlon bod y cyfrifon yn dangos yn briodol pa incwm y mae'r elusen wedi'i dderbyn, sut y mae wedi gwario ei chronfeydd elusennol, ac, os yw trafodion yn ymwneud â chronfeydd cyfyngedig neu gronfeydd gwaddol, bod y rhain wedi cael eu cofnodi a'u hadnabod yn briodol yn y cyfrifon.

5.2. Os yw cyfrifon yn cael eu paratoi ar sail croniadau, bydd angen i'r holl weddillion yn y cyfrifon gael eu cymharu â'r prawfweddill neu unrhyw gyfriflyfr nominal a gedwir.

5.3. Os yw cyfrifon yn cael eu paratoi ar sail derbyniadau a thaliadau, dylid gwneud cymhariaeth uniongyrchol â chofnodion arian parod yr elusen os nad yw cyfriflyfr nominal yn cael ei gadw. Gall cofnodion ar gyfer cyfrifon derbyniadau a thaliadau olygu cyfriflenni, ffeil o dderbyniadau ac anfonebau, a rhestr syml o drafodion mewn llyfr, neu ar bapur, neu gofnodion mewn taenlen o'r symiau a dalwyd ac a dderbyniwyd gydag esboniad wrth ochr pob swm.

5.4. Os yw cofnodion ar gyfer trafodion heb gael eu gwneud yn uniongyrchol i'r cyfriflyfr nominal, bydd gwiriadau prawf yn ofynnol hefyd o bostio'r cofnodion o lyfrau prif gofnod (ee, llyfrau arian, unrhyw gyfriflyfrau gwerthu a phrynu neu lyfrau dydd eraill sy'n cofnodi trafodion) i'r prawfweddill ei hun. Mae gwiriadau tebyg yn ofynnol hyd yn oed os yw cofnodion cyfrifyddu yn cael eu cadw drwy ddefnyddio pecynnau cyfrifyddu cyfrifiadurol.

5.5. Bydd adolygiad o gysoniadau banc, crynodebau cyflogres a chyfrifon rheoli a baratowyd yn darparu gwiriad defnyddiol ynghylch cyflawnrwydd postio o lyfrau prif gofnod lle mae'r trafodion yn cael eu cofnodi gyntaf (llyfrau prif gofnod).

5.6. Nid oes unrhyw ofyniad i gofnodion cyfrifyddu gael eu gwirio yn erbyn dogfennau ffynhonnell (ee anfonebau, datganiadau cyflenwyr, archebion prynu, cofnodion Rhodd Cymorth ac ati) oni bai bod pryderon yn codi yn ystod yr archwiliad neu'n dilyn yr adolygiad dadansoddol (Cyfarwyddyd 6) na ellir eu datrys trwy geisio esboniadau gan yr ymddiriedolwyr, neu os yw'n briodol staff yr elusen, neu os yw'r esboniadau a roddir yn annigonol.

5.7. Er bod yr ymddiriedolwyr elusen yn gyfrifol am baratoi cyfrifon, weithiau gall yr archwiliwr baratoi'r cyfrifon statudol hefyd ar ran yr ymddiriedolwyr. Yn gyffredinol ni fydd paratoi cyfrifon yn effeithio ar annibyniaeth ar yr amod bod yr archwiliwr yn sicrhau bod gofynion y Cyfarwyddiadau wedi'u bodloni ac ar yr amod:

- bod cofnodion cyfrifyddu (llyfrau prif gofnod) wedi cael eu cadw gan unigolyn arall; ac
- nid yw'r archwiliwr wedi ymwneud yn uniongyrchol â rheoli neu weinyddu'r elusen o ddydd i ddydd.

Cyfarwyddyd 6

Gweithdrefnau dadansoddol

Bydd yr archwiliwr yn dilyn gweithdrefnau dadansoddol i adnabod eitemau neu ddatgeliadau anarferol yn y cyfrifon. Os yw pryderon yn codi o'r gweithdrefnau hyn, rhaid i'r archwiliwr geisio esboniad gan yr ymddiriedolwyr elusen. Ar ôl dilyn gweithdrefnau o'r fath, os oes gan yr archwiliwr annibynnol reswm dros gredu y gall y cyfrifon fod wedi cael eu cam-ddatgan yn sylweddol mewn unrhyw ffordd, rhaid cynnal gweithdrefnau ychwanegol, gan gynnwys dilysu'r ased, rhwymedigaeth, adnodd a dderbynnir neu gymhwysiad.

Canllaw

6.1. Mae'r adolygiad dadansoddol yn rhan bwysig o'r archwiliad annibynnol. Ar gyfer cyfrifon derbyniadau a thaliadau mae'r adolygiad dadansoddol yn cynnwys cymharu'r dadansoddiad o'r arian a dderbyniwyd a'r arian a wariwyd yn y flwyddyn gyfredol â'r flwyddyn flaenorol er mwyn nodi newidiadau arwyddocaol o flwyddyn i flwyddyn. Ar gyfer cyfrifon croniadau mae'r adolygiad dadansoddol yn cynnwys y Datganiad o Weithgareddau Ariannol a'r fantolen gyda'r dadansoddiad yn cymharu'r incwm a'r gwariant a'r symudiad mewn gwerthoedd y fantolen yn y flwyddyn gyfredol â'r flwyddyn flaenorol. Bydd archwiliwr y cyfrifon croniadau yn chwilio am werthoedd perthnasol sydd angen cael eu hadolygu.

6.2. Mae'n bwysig bod yr archwiliwr yn edrych yn ofalus ar y cyfrifon i weld a ydynt yn dangos unrhyw eitemau arwyddocaol neu anarferol, amrywiadau annisgwyl, neu anghysondebau â gwybodaeth ariannol arall. Mae'n bwysig bod yr adolygiad dadansoddol yn cael ei ddogfennu'n ofalus ym mhapurau gweithio'r archwiliwr.

Wrth ymgymryd â'r adolygiad dadansoddol, fel rheol byddai'r camau a gymerwyd yn cynnwys:

- cymharu'r cyfrifon â'r rhai ar gyfer cyfnodau blaenorol cymaradwy;
- cymharu'r cyfrifon ag unrhyw gyllidebau neu ragolygon sydd wedi cael eu cynhyrchu;
- ystyried a yw'r adnoddau a dderbynnir yn gyson â ffynonellau codi arian hysbys, er enghraifft hanes casgliadau arian parod neu ddigwyddiadau codi arian, grantiau a dderbyniwyd, incwm o fasnachu, neu incwm o werthu nwyddau a roddwyd;
- ystyried a yw gwario adnoddau elusennol yn gyson â manylion y gyflogres, a gweithgareddau ac amcanion yr elusen - mae'n bwysig cael dealltwriaeth briodol o natur gweithgareddau a materion yr elusen er mwyn i'r agwedd hon ar yr adolygiad fod yn llwyddiannus;
- ystyried a yw'r rhwymedigaethau a'r asedau cyfredol a ddatgelir yn gyson â'r raddfa a'r math o weithgareddau a wnaed, neu yn achos cyfrifon derbyniadau a thaliadau a yw'r holl asedau a rhwymedigaethau arwyddocaol wedi'u rhestru;
- ystyried a yw buddsoddiadau asedau sefydlog yn cynhyrchu incwm sy'n gyson â natur yr asedau a ddelir;
- ystyried a yw unrhyw asedau sefydlog diriaethol a ddewisir yn gyson â'r raddfa a'r math o weithgareddau a wnaed gan yr elusen; ac
- os yw cyfrifon croniadau yn cael eu paratoi, cadarnhau gyda'r ymddiriedolwyr eu bod yn fodlon bod yr elusen yn fusnes gweithredol ac nid oes unrhyw ddigwyddiadau ôl-fantolen lle mae angen gwneud addasiadau i'r cyfrifon neu ddatgeliad yn y nodiadau ar y cyfrifon.

6.3. Os yw gweithdrefnau adolygiad dadansoddol yn nodi unrhyw eitemau anarferol, amrywiad annisgwyl neu anghysondeb, dylid ceisio esboniadau gan yr ymddiriedolwyr elusen neu, os yw'n briodol, staff yr elusen.

6.4. Bydd gweithdrefnau ychwanegol yn ofynnol dim ond os nad yw'r esboniadau a ddarparwyd gan yr ymddiriedolwyr elusen, neu os yw'n briodol gan staff yr elusen, yn bodloni'r archwiliwr. Mae'n bwysig dogfennu yn y papurau gweithio pa eitemau y mae'r archwiliwr wedi canfod sy'n gofyn am esboniad neu adolygiad pellach ac unrhyw weithdrefnau ychwanegol a wnaed i gadarnhau'r eitemau neu'r materion hynny. Gall gweithdrefnau o'r fath gynnwys:

- arolygiad corfforol o ased sefydlog diriaethol;
- gwirio'r teitl i ased;
- arolygu tystiolaeth ddogfennol trydydd parti (ee anfoneb, contract neu gytundeb) i wirio traul neu rwymedigaeth neu i gadarnhau swm yr incwm a dderbyniwyd neu sy'n dderbyniadwy;
- ardystiad trydydd parti ar gyfer gweddill banc, neu ased arall a ddelir gan gynnwys dal tystysgrifau buddsoddi; a
- gwirio derbynneb neu daliad ôl diwedd blwyddyn i gadarnhau bod modd adfer dyled neu swm rhwymedigaeth.

6.5. Mae rhestr gynhwysfawr o weithdrefnau dadansoddol, a gweithdrefnau ychwanegol lle mae pryderon yn codi, y tu hwnt i gwmpas y cyhoeddiad hwn, ac i ryw raddau bydd yn faes lle y bydd angen i'r archwiliwr ymarfer barn a thynnu ar brofiad ynghylch yr hyn sy'n rhesymol yn wyneb maint a natur gweithgareddau'r elusen.

Cyfarwyddyd 7

Ffurf a chynnwys cyfrifon

Bydd yr archwiliwr yn dilyn y gweithdrefnau y mae'r archwiliwr yn ystyried sy'n angenrheidiol er mwyn darparu sail resymol ar gyfer penderfynu a yw'r cyfrifon sydd wedi'u paratoi o dan adran 42(1) o Ddeddf Elusennau 1993 yn cydymffurfio â gofynion ffurf a chynnwys Rheoliadau 2008 gan gynnwys eu paratoi yn unol â'r dulliau a'r egwyddorion a nodwyd yn y Datganiad o Arferion Cymeradwy: Cyfrifon ac Adroddiadau Elusennau (y SORP). Neu yn achos elusen sy'n gwmni, a yw'r cyfrifon wedi'u paratoi yn unol ag adran 396 o Ddeddf Cwmnïau 2006, ac wedi'u paratoi yn unol â dulliau ac egwyddorion y SORP.

Canllaw

7.1. Mae gan y mwyafrif o elusennau sydd heb fod yn gwmnïau incwm gros o £250,000 neu lai a gallant fod yn gymwys i baratoi cyfrifon derbyniadau a thaliadau. Rhaid i elusennau sydd heb fod yn gwmnïau gyda blwyddyn ariannol sy'n diweddu ar neu cyn 31 Mawrth 2009 baratoi cyfrifon croniadau os yw eu hincwm gros yn fwy na £100,000. Ar gyfer blynyddoedd ariannol sy'n diweddu ar neu ar ôl 1 Ebrill 2009, mae'r trothwy hwn yn cael ei gynyddu felly rhaid i elusennau sydd heb fod yn gwmnïau baratoi cyfrifon croniadau os yw eu hincwm gros yn fwy na £250,000. Dylai lleiafrif o elusennau gydag incwm gros sy'n fwy na'r trothwyon hyn, a phob cwmni elusennol waeth beth fo'i incwm, baratoi cyfrifon croniadau yn unol â'r SORP. Weithiau gall yr archwiliwr ddod ar draws cyfrifon derbyniadau a thaliadau sy'n cynnwys mantolen yn lle Datganiad o Asedau a Rhwymedigaethau. Ar yr amod nad yw unrhyw eitemau heb fod yn arian parod wedi cael eu rhoi trwy'r cyfrifon derbyniadau a thaliadau dylai'r archwiliwr drin y cyfrifon hynny fel cyfrifon derbyniadau a thaliadau, fel arall dylid ystyried y cyfrifon yn gyfrifon croniadau a dylid eu harchwilio yn unol â hynny.

7.2. Mae Rheoliadau 2008 yn tynnu'n helaeth ar argymhellion y SORP. Os yw cyfrifon croniadau yn cael eu paratoi bydd yn ofynnol i'r archwiliwr ddefnyddio'r SORP a deall ei egwyddorion er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â Rheoliadau 2008.

7.3. Os yw cyfrifon yn cael eu paratoi o dan adran 42(1) (y sail croniadau), mae Rheoliadau 2008 yn mynnu bod y cyfrifon yn cael eu paratoi yn unol â dull ac egwyddorion y SORP. Mae'r SORP yn ei gwneud hi'n ofynnol i bob elusen sy'n paratoi cyfrifon croniadau i baratoi Datganiad o Weithgareddau Ariannol, mantolen, a nodiadau atodol i'r cyfrifon. Mae elusennau sy'n gymwys i gael archwiliad annibynnol yn mwynhau mwy o hyblygrwydd ac mae Atodiad 5 y SORP yn rhoi manylion am yr holl gonsesiynau sydd ar gael i elusennau llai sy'n paratoi cyfrifon croniadau.

7.4. Nid yw Rheoliadau 2008 sy'n ymwneud â chynnwys cyfrifon yn gymwys i gyfrifon cwmnïau elusennol. Rhaid i gyfrifon cwmnïau elusennol gael eu paratoi yn unol ag adran 396 o Ddeddf Cwmnïau 2006. Rhaid i ymddiriedolwyr cwmni elusennol baratoi cyfrifon sy'n rhoi darlun 'gwir a theg' ac yn gyffredinol bydd hyn yn golygu cydymffurfio â safonau cyfrifyddu a'r SORP. Mae Safon Adrodd Ariannol 18, Polisïau Cyfrifyddu, yn gofyn am ddatgeliadau ac esboniadau arbennig os nad yw'r SORP wedi cael ei ddilyn.

7.5. Dylai'r archwiliwr adolygu cyfrifon croniadau yn ddigon manwl er mwyn gallu adnabod unrhyw ddiffyg cydymffurfio arwyddocaol â Rheoliadau 2008 a dulliau ac egwyddorion y SORP. Bydd hyn yn golygu adolygu ffurf y Datganiad o Weithgareddau Ariannol a'r Fantolen a chynnwys y nodiadau ar gyfrifon angenrheidiol. Dylai'r gweithdrefnau adolygu hyn fod yn ddigon mawl i alluogi'r archwiliwr i benderfynu a ddylai unrhyw ddiffyg cydymffurfio â Rheoliadau 2008 neu'r SORP gael ei nodi yn adroddiad yr archwiliwr.

7.6. Mae set o gyfrifon cymeradwy yn y fformat SORP ar gael i elusennau heb fod yn gwmnïau yn ein *Pecyn Cyfrifon Croniadau* (CC17).

Ffurf a chynnwys cyfrifon

7.7. I gwmnïau elusennol, mae adran 396 o Ddeddf Cwmnïau 2006 yn ei gwneud hi'n ofynnol i baratoi cyfrifon unigol. Yn achos ymgymeriadau dielw, gan gynnwys elusennau, mae adran 474(2) o Ddeddf Cwmnïau 2006 yn rhoi cyfrif incwm a gwariant yn lle cyfrif elw a cholled. Yn ogystal mae angen darparu mantolen a gwybodaeth ychwanegol yn y nodiadau. Mae'r SORP yn ei gwneud hi'n ofynnol i bob elusen sy'n paratoi cyfrifon croniadau i baratoi Datganiad o Weithgareddau Ariannol, mantolen, a nodiadau atodol i'r cyfrifon. Felly, fel arfer, bydd cwmni elusennol yn cyflwyno Datganiad o Weithgareddau Ariannol sy'n cynnwys cyfrif incwm a gwariant, fodd bynnag, gall ddewis cyflwyno cyfrif incwm a gwariant a Datganiad o Weithgareddau Ariannol. Mewn achosion o'r fath bydd yr archwiliwr yn adolygu'r ddau ddatganiad am gysondeb.

7.8. Nid yw Rheoliadau 2008 yn pennu ffurf a chynnwys cyfrifon sy'n cael eu paratoi ar sail derbyniadau a thaliadau. Mae'r Comisiwn yn darparu cynllun pro forma ar gyfer cyfrifon o'r fath yn ein *Pecyn Cyfrifon Derbyniadau a Thaliadau* (CC16).

7.9. Pan basiwyd Deddf Elusennau 2006, gwnaethpwyd ymrwymiad i'r Senedd y byddai gweithredu'r Ddeddf yn cael ei adolygu o fewn pum mlynedd. Rhagwelir y bydd y trothwyon ariannol yn cael eu hailystyried unwaith eto fel rhan o'r adolygiad hwn. Argymhellir bod darllenwyr yn cyfeirio at wefan y Comisiwn Elusennau i gadarnhau y trothwyon sy'n gymwys os ydynt yn defnyddio'r canllaw hwn ar gyfer blynyddoedd ariannol sy'n diweddu yn neu ar ôl 2011.

Cyfarwyddyd 8

Polisïau, amcangyfrifon a barnau cyfrifyddu

Os yw cyfrifon yn cael eu paratoi o dan adran 42(1) o Ddeddf Elusennau 1993 neu yn achos elusen sy'n gwmni, yn cael eu paratoi o dan adran 396 o Ddeddf Cwmnïau 2006, bydd yr archwiliwr yn adolygu'r polisïau cyfrifyddu a fabwysiadwyd ac yn ystyried a ydynt yn gyson â'r Datganiad o Arferion Cymeradwy: Cyfrifon ac Adroddiadau gan Elusennau (y SORP) a'u priodoldeb i weithgareddau'r elusen. Hefyd rhaid i'r archwiliwr annibynnol ystyried ac adolygu unrhyw amcangyfrif arwyddocaol neu farn sydd wedi cael ei gwneud wrth baratoi'r cyfrifon.

Canllaw

8.1. Mae cyfrifon derbyniadau a thaliadau yn adrodd am drafodion arian parod yn y cyfnod ac felly nid ydynt wedi'u heffeithio gan y Cyfarwyddyd hwn. Os yw cyfrifon yn cael eu paratoi ar sail derbyniadau a thaliadau o dan adran 42(3), yr unig gysyniad cyfrifyddu sylfaenol sy'n gymwys yw cysondeb cyflwyniad o fewn y cyfrifon. Mae polisïau cyfrifyddu a materion barn yn llai perthnasol oherwydd mae'r cyfrif derbyniadau a thaliadau yn gofnod ffeithiol syml o'r arian sy'n cael ei dderbyn a'i wario. Mae'r datganiad o asedau a rhwymedigaethau yn atodlen syml o wybodaeth.

8.2. Cewch arweiniad pellach ar ffurf a chynnwys cyfrifon derbyniadau a thaliadau yn y nodiadau sydd wedi'u cynnwys yn ein *Pecyn Cyfrifon Derbyniadau a Thaliadau* (CC16).

8.3. Mae cyfrifon sy'n cael eu paratoi ar sail croniadau yn cynnwys defnyddio polisïau cyfrifyddu sy'n pennu sut mae trafodion a digwyddiadau'n cael eu hadlewyrchu yn y cyfrifon a'r amcangyfrifon. Rhaid defnyddio barn i bennu'r gwerthoedd ariannol sydd i'w cynnwys yn y cyfrifon, er enghraifft y cyfnod y bydd ased yn cael ei ddibrisio drosto.

8.4. Os yw cyfrifon yn cael eu paratoi o dan adran 42(1) (sail croniadau) neu o dan Ddeddf Cwmnïau 2006 adran 396 mae'r ymddiriedolwyr yn paratoi cyfrifon i roi darlun 'gwir a theg', gall y polisïau cyfrifyddu a fabwysiadwyd, a hefyd unrhyw amcangyfrifon neu farnau a wnaed wrth baratoi'r cyfrifon gael effaith berthnasol ar y gweithgareddau ariannol a'r sefyllfa a ddatgelir yn y cyfrifon. Felly gallai fod angen i'r archwiliwr ystyried materion o'r fath yn ofalus ond nid oes rhaid iddo ffurfio barn ynghylch a yw'r cyfrifon yn rhoi darlun 'gwir a theg'.

8.5. Dylai'r archwiliwr fod yn fodlon bod y cyfrifon yn cael eu paratoi ar sail sy'n gyson â'r rhagdybiaeth o fusnes gweithredol a'r cysyniad croniadau, a gwerthuso'r polisïau cyfrifyddu a fabwysiadwyd ac a ddefnyddiwyd ar sail priodoldeb i weithgareddau'r elusen a chysondeb â'r SORP. Dylai'r polisïau cyfrifyddu a fabwysiadwyd sicrhau bod cyfrifon yn cael eu cyflwyno mewn ffordd berthnasol, ddibynadwy, gymaradwy a dealladwy.

8.6. Os nad yw'r cyfrifon yn cael eu paratoi ar sail busnes gweithredol, dylai'r archwiliwr ystyried ar ba sail arall y cawsant eu paratoi a sicrhau bod sail y paratoi yn cael ei datgelu'n ddigonol yn adran polisïau cyfrifyddu y nodiadau ar y cyfrifon.

8.7. Dylai'r archwiliwr werthuso a yw'r polisïau cyfrifyddu a fabwysiadwyd yn gyson â'r dulliau a'r egwyddorion a nodwyd yn y SORP. Os nad yw'r polisïau cyfrifyddu yn cydymffurfio â'r SORP dylid tynnu sylw'r ymddiriedolwyr elusen at hyn ac os yw'r effaith ar y cyfrifon yn berthnasol, dylai'r mater gael ei adrodd yn adroddiad yr archwiliwr oni bai ei fod wedi'i gywiro.

8.8. Os yw cyfrifon yn cael eu cynhyrchu o dan y Ddeddf Cwmnïau rhaid i'r ymddiriedolwyr baratoi'r cyfrifon i roi darlun 'gwir a theg', fodd bynnag, nid yw'n ofynnol i'r archwiliwr fynegi barn sy'n datgan a yw'r cyfrifon yn rhoi darlun 'gwir a theg'. Os nad yw'r polisïau cyfrifyddu yn gyson â'r SORP, dylai'r archwiliwr dynnu sylw'r ymddiriedolwyr elusen at hyn, a dylai'r eitem(au) dan sylw, os yw'r anghysondeb yn berthnasol, gael ei nodi yn adroddiad yr archwiliwr oni bai ei fod wedi'i gywiro.

8.9. Mae'r SORP yn ei gwneud hi'n ofynnol i unrhyw wyriad o'i argymhellion gael ei esbonio yn y nodiadau ar y cyfrifon elusennau sy'n gwmnïau a heb fod yn gwmnïau. Mae gwyriad wedi'i gyfiawnhau dim ond os yw'n ofynnol er mwyn rhoi darlun 'gwir a theg' a bydd amgylchiadau o'r fath yn brin. Yn achos gwyro bydd angen i'r archwiliwr wirio bod yr esboniad sy'n ofynnol gan y SORP wedi cael ei ddarparu. Os yw gwyriad perthnasol heb gael ei gyfiawnhau neu ei esbonio'n ddigonol, dylai'r archwiliwr wneud sylwadau yn ei adroddiad.

8.10. Rhaid i'r archwiliwr werthuso rhesymoldeb unrhyw amcangyfrifon neu farnau a wnaed wrth baratoi'r cyfrifon os ydynt yn berthnasol i'r cyfrifon. Mae'r materion y gall fod angen eu hystyried yn cynnwys:

- trosglwyddiadau i gyfrifon cronfa gyfyngedig neu o gyfrifon o'r fath;
- prisio rhoddion o fath arall;
- prisio buddsoddiadau asedau sefydlog os nad yw unrhyw brisiau marchnad yn bodoli;
- amcangyfrifon sy'n deillio o drafodion sydd heb gael eu cofnodi'n llawn yn y cofnodion cyfrifyddu; ac
- os yw ymagwedd seiliedig ar weithgaredd wedi cael ei mabwysiadu, dyrannu costau rhwng categorïau gwariant amrywiol y Datganiad o Weithgareddau Ariannol.

Cyfarwyddyd 9

Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr

Pan fydd cyfrifon yn cael eu paratoi o dan adran 42(1) o Ddeddf Elusennau 1993, neu yn achos elusen sy'n gwmni, yn cael eu paratoi o dan adran 396 o Ddeddf Cwmnïau 2006, bydd yr archwiliwr yn cymharu'r cyfrifon yn erbyn unrhyw gyfeiriadau ariannol yn Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr (os oes); gan adnabod unrhyw anghysondebau o bwys ac yn ystyried yr arwyddocâd a gaiff materion o'r fath ar ddealltwriaeth briodol a chywir o gyfrifon yr elusen.

Canllaw

9.1. Os yw cyfrifon yn cael eu paratoi ar sail derbyniadau a thaliadau o dan adran 42(3) nid yw unrhyw ofyniad yn cael ei roi ar yr archwiliwr i ystyried Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr. Er hynny, gall yr Adroddiad Blynyddol fod yn ganllaw defnyddiol i weithgareddau'r elusen.

9.2. Mae Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr (neu ar gyfer cwmni elusennol adroddiad yr ymddiriedolwyr a'r cyfarwyddwyr ar y cyd) yn rhoi adroddiad o weithgareddau'r elusen yn ystod y flwyddyn ariannol. Mae ein cyfres CC15 o gyhoeddiadau - *Cyfrifon ac Adroddiadau Elusennau: Yr Hanfodion* - yn nodi'r wybodaeth y dylid ei chynnwys yn Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr am y blynyddoedd ariannol perthnasol. Mae'r gofynion cyfreithiol o ran Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr sy'n gymwys i elusennau sy'n gwmnïau a heb fod yn gwmnïau wedi'u nodi yn Rheoliadau 2008.

9.3. Dylai'r gweithdrefnau gael eu cyfeirio at adnabod anghysondebau rhwng Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr a'r cyfrifon sy'n gamarweiniol neu sy'n gwrthddweud yr wybodaeth ariannol yn y cyfrifon. Er enghraifft, dylai adolygiad adnabod ble mae'r symiau a nodwyd yn yr Adroddiad Blynyddol yn anghyson â'r rhai yn y cyfrifon neu lle mae natur neu raddfa'r gweithgareddau a ddisgrifir yn anghyson â lefel y gweithgaredd a ddatgelir yn y cyfrifon. Dylai lefel y cronfeydd wrth gefn a nodir yn yr Adroddiad Blynyddol fod yn gyson â'r symiau a ddatgelir ym mantolen yr elusen.

9.4. Os yw anghysondebau arwyddocaol yn codi, dylid eu tynnu at sylw'r ymddiriedolwyr elusen. Os nad yw unrhyw ddiwygiad priodol yn cael ei wneud i'r Adroddiad Blynyddol dylai manylion y mater gael eu darparu yn adroddiad yr archwiliwr.

Cyfarwyddyd 10

Adroddiad yr archwiliwr

Bydd yr archwiliwr yn adolygu ac yn asesu'r holl gasgliadau a wnaed o'r dystiolaeth a gafwyd o'r archwiliad ac yn ystyried y goblygiadau ar yr adroddiad sydd i'w baratoi o dan Reoliad 31 o Reoliadau 2008. Os oes gan yr archwiliwr annibynnol achos dros wneud datganiad cadarnhaol ar unrhyw fater sy'n codi o ddarpariaethau Rheoliadau 31(h) neu 31(i), neu wneud datganiad ar unrhyw fater sy'n codi o ddarpariaethau Reoliad 31(j), rhaid i'r archwiliwr annibynnol sicrhau cyn belled â phosibl bod yr adroddiad yn rhoi esboniad clir o'r mater ac o'i effeithiau ariannol ar y cyfrifon a gyflwynwyd.

Canllaw

10.1. Mae adroddiad yr archwiliwr yn ganlyniad archwiliad annibynnol ac mae'n cael ei gyflwyno i'r ymddiriedolwyr. Mae naill ai'n cadarnhau bod yr holl faterion y mae'n ofynnol i'r archwiliwr eu hadolygu fel y pennwyd gan Reoliadau 2008 wedi cael eu bodloni, neu mae'n adnabod pa ofynion sydd heb gael eu bodloni, ynghyd ag unrhyw faterion y mae angen adrodd amdanynt er budd dealltwriaeth y darllenydd o gyfrifon yr elusen. Mae'n rhaid i'r archwiliwr ystyried yn ofalus y casgliadau a wnaed o'i archwiliad, ac effaith y casgliadau hyn ar ei adroddiad. Mae Atodiad 4 yn rhoi enghreifftiau o adroddiadau archwiliwr annibynnol.

10.2. Mae Rheoliadau 2008 yn pennu'r gofynion cyfreithiol ar gyfer adroddiad archwiliwr annibynnol. Nid yw archwiliad annibynnol yn archwiliad ariannol ac mae'n ofynnol i'r archwiliwr ystyried nifer cyfyngedig o faterion penodol yn ei adroddiad a chadarnhau nad yw unrhyw beth wedi dod at ei sylw yn ystod ei archwiliad sy'n ei arwain at gasglu nad yw rhai gofynion wedi cael eu bodloni. Mae'r adroddiad yn darparu sicrwydd 'negyddol' sy'n gofyn i'r archwiliwr roi barn ar fater dim ond os yw wedi canfod bod gofyniad heb gael ei fodloni. Mae'r materion i'w hadrodd amdanynt wedi'u rhestru ym mharagraff 10.4.

10.3. Mae rhan gyntaf adroddiad yr archwiliwr yn ddatganiad ffeithiol. Yn adroddiad yr archwiliwr rhaid i'r archwiliwr nodi:

- enw a chyfeiriad yr archwiliwr ac enw'r elusen dan sylw;
- y flwyddyn ariannol y mae'r cyfrifon yn yr adroddiad yn cyfeirio ati, ac os yw'r elusen yn gwmni elusennol, nad oes angen cynnal archwiliad ariannol o'r cyfrifon yn unol â rhan 16 o Ddeddf Cwmnïau 2006;
- os yw'r incwm gros yn fwy na £250,000, y cymhwyster sy'n ei alluogi i weithredu fel archwilwyr annibynnol;
- unrhyw gymhwyster proffesiynol perthnasol sydd gan yr archwiliwr;
- os yw archwiliad annibynnol yn cael ei ganiatáu drwy oddefet yn lle archwiliad ariannol, y dyddiad pan oedd y Comisiwn wedi hepgor y gofyniad am archwiliad ariannol;
- bod yr adroddiad a ddarparwyd yn ymwneud ag archwiliad annibynnol a wnaed o dan adran 43 o Ddeddf 1993, a bod yr archwiliad annibynnol wedi cael ei gynnal yn unol â'r Cyfarwyddiadau a roddwyd gan y Comisiwn.

10.4. Ar ôl gwneud y datganiadau hyn, rhaid i'r archwiliwr ddatgan a yw unrhyw fater wedi dod at ei sylw, mewn perthynas â'r archwiliad, sy'n rhoi achos rhesymol dros gredu mewn unrhyw agwedd berthnasol:

- bod y cofnodion cyfrifyddu ar gyfer elusennau heb fod yn gwmnïau heb gael eu cadw yn unol ag adran 41 o Ddeddf Elusennau 1993; neu
- os yw'r elusen yn gwmni elusennol, bod cofnodion cyfrifyddu heb gael eu cadw yn unol ag adran 386 o Ddeddf Cwmnïau 2006; neu
- nid yw'r cyfrifon yn cydymffurfio â'r cofnodion cyfrifyddu; neu
- os yw'r cyfrifon wedi'u paratoi ar sail croniadau ar gyfer elusen nad yw'n gwmni o dan adran 42(1) o Ddeddf 1993 ac nid yw'r cyfrifon hynny yn cydymffurfio â gofynion Rheoliadau 2008 sy'n pennu ffurf a chynnwys cyfrifon elusen; (mae cyfrifon elusen yn cynnwys Datganiad o Weithgareddau Ariannol a mantolen a nodiadau ac yn cael eu paratoi yn unol â'r dulliau a'r egwyddorion a bennwyd yn y Datganiad o Arferion Cymeradwy); neu
- os yw'r cyfrifon yn cael eu paratoi ar gyfer cwmni elusennol, nid yw'r cyfrifon yn cydymffurfio ag adran 396 o'r Ddeddf Cwmnïau a dulliau ac egwyddorion y SORP.

10.5. Os yw unrhyw rai o'r materion uchod wedi cael eu nodi, ac ystyrir bod y methiant yn berthnasol, dylai fod esboniad clir ynghylch natur y methiant ac, os gellir amcangyfrif hynny, ei effeithiau ariannol ar y cyfrifon.

10.6. Os yw'r pryder yn ymwneud â methu â chydymffurfio â ffurf a chynnwys y cyfrifon neu anghysondeb perthnasol â'r SORP, dylai'r mater gael ei godi yn gyntaf gyda'r ymddiriedolwyr elusen i geisio'r diwygiad angenrheidiol i'r cyfrifon.

10.7. Mae'n ofynnol i'r archwiliwr yn ail ran yr adroddiad i ddatgan a yw unrhyw fater wedi dod at ei sylw mewn perthynas â'r archwiliad y dylid, ym marn yr archwiliwr, gael ei nodi yn yr adroddiad er mwyn cynnig dealltwriaeth briodol o'r cyfrifon. Disgwylir i faterion arwyddocaol yn unig gael eu hadrodd. Os yw cyfrifon croniadau yn cael eu paratoi dylid tynnu sylw at faterion sy'n berthnasol i'r cyfrifon. Dylai'r materion hyn gael eu dwyn at sylw'r ymddiriedolwyr elusen yn gyntaf gan geisio diwygiad neu addasiad i'r cyfrifon ond os yw pryderon yn parhau dylai'r mater gael ei nodi yn adroddiad yr archwiliwr. Os yw'r mater yn cael ei nodi yn yr adroddiad, dylid ei esbonio'n llawn ynghyd â'r effeithiau ariannol ar y cyfrifon.

10.8. Hefyd, mae gofyniad i ddarparu datganiad os yw'r materion penodol canlynol wedi dod at sylw'r archwiliwr yn ystod yr archwiliad:

- unrhyw wariant neu weithredu perthnasol sy'n ymddangos nad yw'n cydymffurfio ag ymddiriedolaethau'r elusen;
- unrhyw fethiant i gael yr wybodaeth a'r esboniad gan unrhyw gyn-ymddiriedolwr neu ymddiriedolwr presennol, swyddog neu weithiwr yr ystyrir ei fod yn angenrheidiol ar gyfer yr archwiliad; ac

- yn achos cyfrifon croniadau unrhyw anghysondeb perthnasol rhwng y cyfrifon ac Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr ac, yn achos cwmni elusennol ag adroddiad y cyfarwyddwyr.

10.9. Er mwyn nodi unrhyw wariant perthnasol neu weithgareddau perthnasol a wnaed y tu allan i amcanion yr elusen, rhaid cael dealltwriaeth o amcanion penodedig yr elusen, fel y'u pennwyd yn ei dogfen lywodraethol. Yn gyffredinol ni fydd lefelau gwariant bach neu amherthnasol ar ddibenion sydd y tu allan i amcanion yr elusen yn cael eu cynnwys yn adroddiad yr archwiliwr. Byddai gwariant perthnasol, neu weithrediadau arwyddocaol, sy'n groes i ymddiriedolaethau'r elusen yn bryder arwyddocaol a dylid cynnwys manylion amdano yn adroddiad yr archwiliwr. Nid oes angen i'r archwiliwr gynnal gwiriadau penodol neu ddilyn gweithdrefnau i adnabod camweithredu o'r fath, ond os yw materion wedi'u nodi rhaid eu cynnwys yn adroddiad yr archwiliwr. Hefyd bydd angen i'r archwiliwr ystyried a oes angen anfon adroddiad ar wahân am y mater i'r Comisiwn. Esbonnir y ddyletswydd ar wahân hon yn llawn yn adran Dd y canllaw hwn.

10.10. Gall unrhyw fethiant i gael yr wybodaeth a'r esboniadau amharu'n ddifrifol ar archwiliad. Os yw gwybodaeth ac esboniadau a geisir heb gael eu darparu i fodlonrwydd yr archwiliwr rhaid cynnwys y ffaith hon yn adroddiad yr archwiliwr. Mae gwrthod darparu gwybodaeth neu esboniadau yn fater difrifol ac unwaith eto mae'n bosibl y bydd angen paratoi adroddiad ar wahân i'r Comisiwn (gweler adran Dd y canllaw hwn).

10.11. Yn achos cyfrifon sy'n cael eu paratoi ar sail croniadau gall unrhyw anghysondeb mawr rhwng y cyfrifon ac Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr greu camddealltwriaeth. Dylid dwyn hwn at sylw'r ymddiriedolwyr elusen gyda'r nod o ddiwygio'r anghysondeb. Os yw'r ymddiriedolwyr yn gwrthod cytuno i newid eu Hadroddiad Blynyddol neu os yw pryderon yn parhau dylid nodi hwn yn adroddiad yr archwiliwr.

10.12. Yn achos elusennau'r GIG sy'n cael eu harchwilio'n annibynnol gan archwiliwr a benodir gan y Comisiwn Archwilio neu Archwiliwr Cyffredinol Cymru, mae gan yr archwiliwr ddyletswyddau adrodd cyfatebol a bennir yn Rheoliad 32 o Reoliadau 2008.

Dd

Dyletswydd statudol i adrodd i'r Comisiwn Elusennau

Mae adrannau 44A a 68A o Ddeddf Elusennau 1993 yn rhoi dyletswydd ar archwilwyr annibynnol elusennau sy'n gwmnïau a heb fod yn gwmnïau i baratoi adroddiad i'r Comisiwn Elusennau, os ydynt, yn ystod eu harchwiliad, yn adnabod mater sy'n ymwneud â gweithgareddau neu faterion yr elusen neu unrhyw sefydliad neu gorff cysylltiedig, ac mae achos rhesymol gan yr archwilwyr dros gredu ei fod yn debygol o fod o arwyddocâd perthnasol at ddibenion y Comisiwn yn arfer ei swyddogaethau o dan adran 8 neu 18 o Ddeddf Elusennau 1993.

Canllaw

11.1. Yn ogystal â pharatoi adroddiad archwiliad ar y cyfrifon, mae cyfrifoldeb cyfreithiol ar wahân gan yr archwiliwr i adrodd i'r Comisiwn Elusennau os yw mater o arwyddocâd perthnasol i swyddogaethau rheoleiddio'r Comisiwn yn cael eu hadnabod. Mae'r ddyletswydd hon yn gymwys i elusennau sy'n gwmnïau ac elusennau heb fod yn gwmnïau sydd wedi cofrestru gyda'r Comisiwn ac i elusennau sydd wedi'u heithrio rhag cofrestru gyda'r Comisiwn ar hyn o bryd.

11.2. Mae'n bwysig pwysleisio nad oes dyletswydd gyfreithiol na disgwyl i'r archwiliwr fynd ati'n benodol i chwilio am faterion sydd o arwyddocâd perthnasol y mae angen eu hadrodd. Fodd bynnag, os yw'r archwiliwr yn dod ar draws materion o'r fath fel rhan o'u gwaith, rhaid iddynt baratoi adroddiad i'r Comisiwn. Fe rheol bydd y mater yn ymwneud â'r flwyddyn y mae'r archwiliwr yn adrodd amdani ac nid yw'n ofynnol i'r archwiliwr adolygu cyfrifon a chofnodion y flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, os yw mater yn dod i'r amlwg sy'n ymwneud â blwyddyn ariannol flaenorol a fyddai'n golygu bod dyletswydd i adrodd, dylai'r archwiliwr barhau i baratoi adroddiad.

11.3. Mae'r Comisiwn a Swyddfa Rheolydd Elusennau'r Alban (OSCR) wedi cytuno ar restr gyffredin o 8 mater o arwyddocâd perthnasol y dylai archwiliwr annibynnol bob amser adrodd amdanynt. Mae'r materion hyn sydd o arwyddocâd perthnasol wedi'u nodi isod:

- Materion sy'n awgrymu anonestrwydd neu dwyll sy'n cynnwys colled sylweddol o gronfeydd neu asedau elusennol, neu brif risg iddynt.
- Methiant(methiannau) rheolaethau mewnol, gan gynnwys methiant(methiannau) yn null llywodraethu'r elusen, sydd wedi esgor ar golled sylweddol neu gam-berchnogi cronfeydd elusennol, neu sy'n arwain at risg i gronfeydd elusennol sylweddol.
- Materion sy'n arwain at wybod neu amau bod cronfeydd yr elusen neu gronfeydd elusennol wedi cael eu defnyddio i wyngalchu arian neu fod cronfeydd o'r fath yn enillion troseddau neu fod yr elusen yn sianel ar gyfer gweithgarwch troseddol.
- Materion sy'n arwain at gredu neu amau y bu'r elusen, ei hymddiriedolwyr, ei gweithwyr cyflogedig neu ei hasedau yn ymwneud â therfysgaeth, neu eu defnyddio i gefnogi terfysgaeth, neu sefydliadau gwaharddedig yn y DU neu y tu allan i'r DU.

- Tystiolaeth sy'n awgrymu drwy'r ffordd y mae'r elusen yn ymgymryd â'i gwaith o ran gofal a lles buddiolwyr, bod buddiolwyr yr elusen neu bu buddiolwyr yr elusen mewn perygl arwyddocaol o gael eu cam-drin neu eu camddefnyddio.
- Gweithredu'n groes i ofyniad deddfwriaethol neu ymddiriedolaethau'r elusen mewn ffordd arwyddocaol neu barhaus.
- Gweithredu'n groes i Orchymyn neu Gyfarwyddyd a wnaed gan reolydd elusennau o dan bwerau statudol, boed yn fwriadol neu'n arwyddocaol, gan gynnwys diarddel ymddiriedolwr elusen, gwahardd trafodiad neu weithgaredd arbennig neu roi cydsyniad ar delerau arbennig sy'n cynnwys asedau neu rwymedigaethau arwyddocaol.
- Unrhyw hysbysiad neu fater a adroddwyd i'r ymddiriedolwyr ynghylch ymddiswyddo fel archwiliwr neu fater y mae'r archwiliwr yn ymwybodol ohono pan fydd yn ymddiswyddo neu beidio â gweithredu sydd wedi'i gynnwys o fewn y categorïau o faterion y gellir eu hadrodd amdanynt a nodwyd uchod.

11.4. Mae'n bosibl na fydd archwilwyr annibynnol gwirfoddol yn dod ar draws y sefyllfaoedd hyn yn aml iawn wrth adolygu cyfrifon elusennau ac felly i'w helpu nhw, ac i helpu pob archwiliwr, rhoddir rhai enghreifftiau yn Atodiad 5 o faterion sydd o arwyddocâd perthnasol a lle y gallant godi yn ystod gwaith yr archwiliwr.

11.5. Rhaid i'r archwiliwr baratoi adroddiad i'r Comisiwn dim ond, yn ystod ei archwiliad annibynnol, os yw mater yn dod at ei sylw y mae achos rhesymol ganddo dros gredu y bydd yn debygol o fod o arwyddocâd perthnasol at ddibenion y Comisiwn yn arfer ei bwerau ymchwilio ffurfiol o dan adran 8 neu 18 o Ddeddf Elusennau 1993.

11.6. Mae'r ddyletswydd i adrodd yn ymwneud â gwybodaeth neu dystiolaeth a gafwyd o waith yr archwiliwr a wnaed wrth gyflawni Cyfarwyddiadau'r Comisiwn neu wrth weithredu yn rhinwedd swydd archwiliwr elusen. Ni fyddai gofyniad adrodd yn codi o fân doriadau o rwymedigaethau ymddiriedolwyr, neu wallau gweinyddol unigol sy'n annhebygol o beryglu asedau'r elusen neu gael eu hystyried yn gamymddygiad neu gamreoli.

11.7. Mae'r ddyletswydd i adrodd yn gymwys i'r archwiliwr sy'n rhaid paratoi adroddiad os yw'r mater wedi cael ei ddwyn at sylw rheolyddion neu asiantaethau eraill neu beidio, ac os yw'r ymddiriedolwyr eisoes wedi cynghori'r Comisiwn neu beidio, er enghraifft, drwy baratoi adroddiad digwyddiadau difrifol. Mewn unrhyw achos mae'n rhaid i'r archwiliwr gadw materion arbennig sydd o arwyddocâd perthnasol mewn cof wrth gynnal ei archwiliad.

11.8. Os yw'r mater sydd i'w adrodd yn ymwneud â therfysgaeth rhaid i'r mater gael ei adrodd ar unwaith i'r Heddlu cyn bod yr archwiliwr yn cyflwyno ei adroddiad i'r Comisiwn.

11.9. Os yw'r mater sydd i'w adrodd yn ymwneud â gwyngalchu arian, mae'r archwilwyr hynny sy'n codi ffi yn darparu gwasanaeth cyfrifyddu ac felly cânt eu llywodraethu gan y Rheoliadau Gwyngalchu Arian a dylent hysbysu'r Asiantaeth Troseddau Cyfundrefnol Difrifol yn y lle cyntaf. Fodd bynnag, ni ddisgwylir y bydd hysbysu'r Comisiwn, sy'n rheolydd ei hun, yn cael ei ystyried yn drosedd 'rhoi achlust'.

11.10. Wrth baratoi ei adroddiad i'r Comisiwn am fater o arwyddocâd perthnasol, dylai'r archwiliwr ddwyn ynghyd yr wybodaeth neu'r dystiolaeth berthnasol am y mater a gwneud nodyn o'r pryder(on) arwyddocaol a nodwyd. Gall fod yn ddefnyddiol i'r archwiliwr drafod y mater yn gyntaf gyda'r ymddiriedolwyr oni bai fod y mater yn ymwneud â gonestrwydd neu unplygrwydd yr ymddiriedolwyr. Yn arbennig, rhaid i faterion sy'n ymwneud â therfysgaeth neu wyngalchu arian gael eu hadrodd ar unwaith i'r heddlu neu'r Asiantaeth Troseddau Difrifol a dylid gofalu i sicrhau nad yw risgiau 'rhoi achlust' yn codi.

11.11. Ni ddylai fod unrhyw oedi rhwng anfon adroddiad i'r Comisiwn oherwydd mae'r ddyletswydd i adrodd yn ddyletswydd uniongyrchol. Fodd bynnag, mae'r Comisiwn yn cydnabod y bydd angen amser ar yr archwiliwr i ystyried yr wybodaeth neu'r dystiolaeth a nodwyd a lle bo'n briodol ceisio eglurhad neu esboniad pellach gan yr ymddiriedolwyr. Os hoffai'r ymddiriedolwyr esbonio'r camau y maent wedi'u cymryd neu'n cynnig eu cymryd gall hyn ychwanegu at adroddiad yr archwiliwr.

11.12. Pan fydd dyletswydd adrodd yn codi dylai'r archwiliwr adrodd y mater trwy'r e-bost at Whistleblowing@charitycommission.gsi.gov.uk. Dylai'r e-bost ddwyn y teitl 'Archwiliwr Annibynnol yn adrodd am fater sydd o arwyddocâd perthnasol' a dylid darparu'r wybodaeth ganlynol:

- enw a chyfeiriad cyswllt, rhif ffôn a/neu gyfeiriad e-bost yr archwiliwr;
- enw a rhif cofrestru'r elusen (os yw'n gymwys);
- datganiad bod yr adroddiad yn cael ei wneud yn unol ag adran 44A o Ddeddf 1993;
- o dan ba un o'r wyth pennawd o faterion y gellir eu hadrodd amdanynt (gweler paragraff 11.3) y mae'r adroddiad yn cael ei wneud;
- disgrifio'r mater sy'n achosi'r pryder a'r wybodaeth sydd ar gael ar y mater a adroddwyd, a lle'n bosibl, rhoi amcangyfrif o'r goblygiadau ariannol;
- os yw'r ymddiriedolwyr yn ceisio delio â'r sefyllfa, disgrifiad byr o unrhyw gamau sy'n cael eu cymryd gan yr ymddiriedolwyr y mae'r archwiliwr yn ymwybodol ohonynt;
- os yw'r adroddiad yn ymwneud â therfysgaeth, gwyngalchu arian neu weithgaredd troseddol arall a ydych wedi hysbysu'r Asiantaeth Troseddau Difrifol a/neu'r Heddlu fel y bo'n briodol; ac
- os yw'r adroddiad yn ymwneud â cham-drin buddiolwyr sy'n agored i niwed a ydych wedi hysbysu'r Heddlu a/neu Wasanaethau Cymdeithasol.

11.13. Mae adran 44A o Ddeddf 1993 hefyd yn darparu pŵer neu hawl ddewisol i'r archwiliwr baratoi adroddiad i'r Comisiwn os yw'r archwiliwr yn ymwybodol o fater, lle mae achos rhesymol dros gredu bod y mater yn debygol o fod yn berthnasol i arfer unrhyw swyddogaethau'r Comisiwn. Mae hon yn hawl eang iawn ac yn galluogi'r archwiliwr i gynghori'r Comisiwn am unrhyw faterion a all fod yn berthnasol i swyddogaethau'r Comisiwn ond nid yw'r mater wedi'i gynnwys o fewn y categori o fod o arwyddocâd perthnasol. Gallai'r hawl hon gael ei defnyddio gan archwiliwr, er enghraifft, os yw mater wedi cael ei nodi ac mae'r archwiliwr yn credu bod angen i'r Comisiwn ymyrryd er mwyn ei ddatrys.

11.14. Nid yw'n briodol i roi rhestr o faterion lle y gellid defnyddio'r pŵer dewisol hwn oherwydd ei fod yn cael ei ddefnyddio'n eang ac nid oes unrhyw rwymedigaeth ar yr archwiliwr i baratoi adroddiad. Anogir archwilwyr i beidio ag adrodd am faterion bach neu ansylweddol, yn enwedig os yw materion o'r fath wedi cael eu datrys yn foddhaol yn fewnol neu os oes modd i'r archwiliwr ddatrys y mater drwy drafodaeth gyda'r ymddiriedolwyr yn y lle cyntaf.

11.15. Os yw'r archwiliwr yn arfer eu disgresiwn i adrodd am fater, dylai'r archwiliwr adrodd trwy'r e-bost at Whistleblowing@charitycommission.gsi.gov.uk. Dylai'r archwiliwr:

- nodi enw a rhif cofrestru'r elusen (os yw'n gymwys);
- nodi enw a chyfeiriad cyswllt, rhif ffôn a/neu gyfeiriad e-bost yr archwiliwr;
- nodi bod yr adroddiad yn cael ei wneud gan ddefnyddio pŵer dewisol yr archwiliwr i adrodd am fater sy'n berthnasol i waith y Comisiwn yn unol ag adran 44A o Ddeddf 1993;
- disgrifio'r mater a barn yr archwiliwr am berthnasedd y mater i waith y Comisiwn, ac os yw'n bosibl, rhoi amcangyfrif o'r goblygiadau ariannol; ac
- os yw'r ymddiriedolwyr yn ceisio delio â'r sefyllfa, rhoi disgrifiad byr o unrhyw gamau sy'n cael eu cymryd gan yr ymddiriedolwyr y mae'r archwiliwr annibynnol yn ymwybodol ohonynt.

11.16. Mae Atodiad 5 yn rhoi cyngor pellach, yn arbennig i archwilwyr gwirfoddol, ar faterion sydd o arwyddocâd perthnasol y gellir eu hadrodd i'r Comisiwn. Mae hefyd yn rhoi enghreifftiau o sut y gellid paratoi llythyr i'r Comisiwn os yw mater adroddadwy yn cael ei nodi neu os yw'r archwiliwr yn dewis defnyddio ei bŵer dewisol neu hawl i adrodd am y mater. Os yw adroddiad yn cael ei wneud i'r Comisiwn o dan y darpariaethau hyn, ni all yr archwiliwr fod yn euog o weithredu'n groes i unrhyw ddyletswydd i'r ymddiriedolwyr nac i'r elusen, er enghraifft, tor-gyfrinachedd. Mae'r archwiliwr yn mwynhau diogelwch o ran yr wybodaeth neu'r barnau sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad i'r Comisiwn.

E
Atodiadau

Atodiad 1: Cyfrifo incwm gros

Mae adran 97 o Ddeddf 1993 yn datgan bod cyfeiriad at incwm gros yr elusen: "yn golygu ei hincwm gros a gofnodwyd o bob ffynhonnell gan gynnwys ymddiriedolaethau arbennig." Mae'r diffiniad bras hwn yn cael ei ddehongli at ddibenion gweinyddol gan y Comisiwn wrth bennu gofynion y Ffurflen Flynyddol a pharatoi rheoliadau'r Ffurflen Flynyddol o dan adran 48 o Ddeddf 1993. Mae'r diffiniad gweinyddol hwn o incwm gros yn cael ei adolygu'n flynyddol wrth baratoi ar gyfer y broses Ffurflen Flynyddol.

Y diffiniad o incwm gros (Ffurflen Flynyddol 2008)

Os yw cyfrifon yn cael eu paratoi ar **sail croniadau** dylid cyfrifo 'incwm gros' fel:

- cyfanswm yr adnoddau a dderbynnir fel y dangosir yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol (a baratowyd yn unol â'r SORP) ar gyfer pob cronfa ac eithrio unrhyw waddol; a
- chan gynnwys unrhyw swm a drosglwyddwyd o gronfeydd gwaddol i gronfeydd incwm yn ystod y flwyddyn er mwyn bod ar gael i'w ddefnyddio.

(Sylwer nid yw'r SORP yn cynnwys enillion wrth ailbrisio asedau sefydlog neu enillion ar fuddsoddiadau yn y cyfanswm adnoddau a dderbynnir oherwydd nid ydynt yn ffurfio rhan o 'incwm gros' at y dibenion hyn.)

Os yw cyfrifon yn cael eu paratoi ar **ddull derbyniadau a thaliadau**, yr incwm gros yw'r cyfanswm derbyniadau a gofnodwyd yn y datganiad o gyfrifon heblaw gwaddolion, benthyciadau ac elw o werthu buddsoddiadau neu asedau sefydlog.

Diffiniad o incwm gros ar gyfer grŵp

Mae Rheoliadau 2008 yn disgrifio sut y cyfrifir y trothwy incwm gros ar gyfer grŵp sef:

- incwm gros y grŵp yn glir o drafodion rhyng-grŵp sy'n fwy na £500,000; pan fydd
- incwm gros yn golygu, mewn perthynas ag is-gymeriad anelusennol, swm yr incwm a fyddai'n cael ei ystyried fel ei incwm gros pe byddai'n elusen (cyfeiriwch at y SORP am fwy o wybodaeth ynghylch yr hyn a ystyrir yn incwm ar gyfer elusen); a
- thrafodion o fewn grŵp yw'r trafodion hynny rhwng y rhiant elusen a'i his-gwmni neu rhwng yr is-gwmni a'i riant elusen sy'n cael eu clustnodi fel rhan o'r addasiadau cydgrynhoi wrth baratoi cyfrifon grŵp.

Atodiad 2: Siart rediad: Gofynion cymhwyster ar gyfer archwiliad annibynnol



Atodiad 3: Elusennau a leolir yng Nghymru a Lloegr sydd hefyd yn gweithredu yn yr Alban

Ers cyflwyno Deddf Elusennau a Buddsoddiadau Ymddiriedolwyr (yr Alban) 2005, mae'n bosibl y bydd angen i rai elusennau sy'n gweithio yng Nghymru a Lloegr ac sydd hefyd yn gweithredu yn yr Alban gofrestru gyda Swyddfa Rheolydd Elusennau'r Alban (OSCR). Dylai archwilwyr elusennau sydd hefyd yn gweithredu yn yr Alban, ac sydd wedi cofrestru gydag OSCR, fod yn gyfarwydd â'r canllawiau ar y fframwaith cyfrifyddu a gyhoeddwyd gan OSCR.

Hefyd dylai archwilwyr nodi os yw mater o arwyddocâd perthnasol (gweler adran Dd ac Atodiad 5) yn codi dylai'r adroddiad sy'n cael ei baratoi ar gyfer y rheolydd elusennau gael ei anfon i'r Comisiwn ac OSCR a fydd yn penderfynu ar y cyd pa reolydd sy'n ymdrin â'r mater.

Nid yw OSCR yn mynnu ar gyfrifon ar wahân ar gyfer yr Alban os yw cyfrifon croniadau yn cael eu paratoi o dan y SORP. Bydd cyfrifon sy'n cael eu paratoi o dan y SORP yn cael eu derbyn ar gyfer ffeilio yn y ddwy awdurdodaeth ar yr amod bod testun Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr yn sôn am weithgareddau yn yr Alban.

Yn achos elusennau trawsffiniol sy'n paratoi cyfrifon derbyniadau a thaliadau mae rhai gofynion ychwanegol y mae angen eu bodloni. Y prif wahaniaeth yw bod 'Datganiad o Weddillion' yn cael ei baratoi yn lle 'Datganiad o Asedau a Rhwymedigaethau' ac mae angen paratoi rhai nodiadau ar y cyfrifon. Mae canllawiau pellach ar ofynion cyfrifyddu'r Alban ar gael ar wefan OSCR yn:
www.oscr.org.uk/ScottishCharityAccounting.stm

Bydd y Comisiwn yn derbyn cyfrifon derbyniadau a thaliadau sy'n bodloni gofynion yr Alban ar gyfer y cyfrifon ac Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr. Fodd bynnag dylai'r 'Datganiad o Weddillion' ddwyn y teitl 'Datganiad o Weddillion (gan gynnwys Datganiad o Asedau a Rhwymedigaethau)' i'w ffeilio gyda'r Comisiwn. Nid oes angen gwneud unrhyw newidiadau ychwanegol oherwydd mae gofynion yr Alban yn bodloni neu'n rhagori ar y gofynion ar gyfer elusennau yng Nghymru a Lloegr sy'n paratoi cyfrifon derbyniadau a thaliadau.

Mae OSCR yn cynhyrchu '*Pecyn Gwaith Derbyniadau a Thaliadau*' y gellir ei lwytho i lawr yn:
www.oscr.org.uk/Receipts%20and%20Payments%20Work%20Pack.stm

Argymhellir yn gryf hefyd y dylai ymddiriedolwyr ac archwilwyr sy'n gweithredu ar gyfer elusennau sydd hefyd wedi'u cofrestru yn yr Alban edrych ar wefan OSCR. Yn arbennig dylai ymddiriedolwyr sicrhau bod yr archwiliwr yn bodloni gofynion cyfraith elusennau'r Alban ac yn nodi ym mhob achos os yw cyfrifon croniadau yn cael eu paratoi gan elusen sydd wedi cofrestru gydag OSCR bod rhaid i'r archwiliad gael ei gynnal gan 'archwiliwr annibynnol cymwys' fel y'i diffinnir yn Rheoliadau Cyfrifon Elusennau (yr Alban) 2006. Yn ogystal rhaid i gyfrifon elusennau sydd wedi cofrestru yn yr Alban gael eu ffeilio gydag OSCR cyn pen 9 mis o ddiwedd blwyddyn gyfrifyddu.

Dylai archwilwyr fod yn ymwybodol ei bod hi'n ofynnol i'r archwiliwr yn yr Alban adolygu'r Adroddiad Blynyddol wrth baratoi ei adroddiad a datgan yn ei adroddiad a oes gwahaniaeth perthnasol rhwng y cyfrifon a'r Adroddiad Blynyddol sydd wedi cael ei baratoi gan yr ymddiriedolwyr elusen.

Gall yr archwiliwr baratoi adroddiad archwilio ar y cyd sy'n bodloni gofynion y ddwy awdurdodaeth. Mae'r adroddiadau enghreifftiol a ddarparwyd yn yr Atodiad hwn ar gyfer elusennau sy'n gwmnïau a heb fod yn gwmnïau sy'n gweithredu yn Lloegr a Chymru a'r Alban.

ENGHRAIFFT 3.1: ADRODDIAD DIAMOD YR ARCHWILIWR ANNIBYNNOL (AR GYFER ELUSEN HEB FOD YN GWMNI SYDD HEFYD WEDI COFRESTRU GYDA SWYDDFA RHEOLYDD ELUSENNAU'R ALBAN SY'N PARATOI CYFRIFON CRONIADAU)

Adroddiad yr archwiliwr annibynnol i ymddiriedolwyr Ymddiriedolaeth "ABC"

Adroddaf ar gyfrifon yr Ymddiriedolaeth am y flwyddyn yn diweddu 30 Ebrill 2009, a nodir ar dudalennau 00 i 00.

Cyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr a'r archwiliwr

Mae'r ymddiriedolwyr elusen yn gyfrifol am baratoi'r cyfrifon. Ym marn yr ymddiriedolwyr elusen nid oes angen archwiliad ariannol ar gyfer y flwyddyn hon o dan adran 43(2) o Ddeddf Elusennau 1993 (Deddf 1993) neu o dan Reoliad 10(1)(a) i (c) o Reoliadau Cyfrifon Elusennau (yr Alban) 2006 (Rheoliadau 2006) a bod angen archwiliad annibynnol. Mae'r elusen yn paratoi cyfrifon croniadau ac rwy'n gymwys i ymgymryd â'r archwiliad drwy fod yn aelod cymwys o [gorff a enwir].

Fy nghyfrifoldeb i yw:

- archwilio'r cyfrifon o dan adran 43 o Ddeddf Elusennau 1993 ac o dan adran 44(1)(c) o Ddeddf Elusennau a Buddsoddiadau Ymddiriedolwyr (yr Alban) 2005 (Deddf 2005);
- dilyn y gweithdrefnau a osodwyd yn y Cyfarwyddiadau cyffredinol a roddwyd gan y Comisiwn Elusennau o dan adran 43(7)(b) o Ddeddf 1993; a
- datgan a yw materion arbennig wedi dod at fy sylw.

Sail adroddiad yr archwiliwr annibynnol

Cyflawnais fy archwiliad yn unol â'r Cyfarwyddiadau cyffredinol a roddwyd gan y Comisiwn Elusennau ac mae'n unol â Rheoliad 11 o Reoliadau Cyfrifon Elusennau (yr Alban) 2006. Mae archwiliad yn cynnwys adolygu'r cofnodion cyfrifyddu a gedwir gan yr elusen a chymharu'r cyfrifon a gyflwynir â'r cofnodion hynny. Hefyd mae'n cynnwys ystyried unrhyw eitemau neu ddatgeliadau anarferol yn y cyfrifon, a cheisio esboniadau gennych chi fel ymddiriedolwyr ynghylch materion o'r fath. Nid yw'r gweithdrefnau a ddilynwyd yn darparu'r holl dystiolaeth a fyddai'n ofynnol mewn archwiliad ariannol ac o ganlyniad ni roddwyd unrhyw farn ynghylch a yw'r cyfrifon yn rhoi 'darlun gwir a theg' ac mae'r adroddiad wedi'i gyfyngu i'r materion hynny a nodwyd yn y datganiad isod.

Datganiad yr archwiliwr annibynnol

Mewn perthynas â'm harchwiliad, nid yw unrhyw fater wedi dod at fy sylw:

1. sy'n rhoi achos rhesymol i mi gredu bod y gofynion mewn unrhyw agwedd berthnasol:
   - i gadw cofnodion cyfrifyddu yn unol ag adran 41 o Ddeddf 1993 ac adran 44(1)(a) o Ddeddf 2005 a Rheoliad 4 o Reoliadau Cyfrifon 2006; ac
   - i baratoi cofnodion sy'n unol â'r cofnodion cyfrifyddu ac sy'n cydymffurfio â gofynion cyfrifyddu Deddf 1993 ac adran 44(1) o Ddeddf 2005 a Rheoliad 8 o Reoliadau Cyfrifon 2006

   heb gael eu bodloni; neu
2. y dylid tynnu sylw ato, yn fy marn i, er mwyn gallu cael dealltwriaeth briodol o'r cyfrifon.

Enw:

Cymhwyster neu gorff proffesiynol perthnasol:

Cyfeiriad:

Dyddiad:

ENGHRAIFFT 3.2: ADRODDIAD DIAMOD (AR GYFER ELUSEN HEB FOD YN GWMNI SYDD HEFYD WEDI COFRESTRU GYDAG OSCR SY'N PARATOI CYFRIFON DERBYNIADAU A THALIADAU)

Adroddiad yr archwiliwr annibynnol i ymddiriedolwyr Ymddiriedolaeth "DEF"

Adroddaf ar gyfrifon yr Ymddiriedolaeth am y flwyddyn yn diweddu 30 Ebrill 2009, a nodir ar dudalennau 00 i 00.

Cyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr a'r archwiliwr

Mae'r ymddiriedolwyr elusen yn gyfrifol am baratoi'r cyfrifon. Ym marn yr ymddiriedolwyr elusen nid oes angen archwiliad ariannol ar gyfer y flwyddyn hon o dan adran 43(2) o Ddeddf Elusennau 1993 (Deddf 1993) neu o dan Reoliad 10(1)(d) o Reoliadau Cyfrifon Elusennau (yr Alban) 2006 (Rheoliadau Cyfrifon 2006) a bod angen archwiliad annibynnol.

Fy nghyfrifoldeb i yw:

- archwilio'r cyfrifon o dan adran 43 o Ddeddf Elusennau 1993 ac adran 44(1)(c) o Ddeddf Elusennau a Buddsoddiadau Ymddiriedolwyr (yr Alban) 2005 (Deddf 2005);
- dilyn y gweithdrefnau a osodwyd yn y Cyfarwyddiadau cyffredinol a roddwyd gan y Comisiwn Elusennau o dan adran 43(7)(b) o Ddeddf 1993; a
- datgan a yw materion arbennig wedi dod at fy sylw.

Sail adroddiad yr archwiliwr annibynnol

Cyflawnais fy archwiliad yn unol â'r Cyfarwyddiadau cyffredinol a roddwyd gan y Comisiwn Elusennau ac mae'n unol â Rheoliad 11 o Reoliadau Cyfrifon Elusennau (yr Alban) 2006. Mae archwiliad yn cynnwys adolygu'r cofnodion cyfrifyddu a gedwir gan yr elusen a chymharu'r cyfrifon a gyflwynir â'r cofnodion hynny. Hefyd mae'n cynnwys ystyried unrhyw eitemau neu ddatgeliadau anarferol yn y cyfrifon, a cheisio esboniadau gennych chi fel ymddiriedolwyr ynghylch materion o'r fath. Nid yw'r gweithdrefnau a ddilynwyd yn darparu'r holl dystiolaeth a fyddai'n ofynnol mewn archwiliad ariannol ac o ganlyniad ni roddwyd unrhyw farn ynghylch a yw'r cyfrifon yn rhoi 'darlun gwir a theg' ac mae'r adroddiad wedi'i gyfyngu i'r materion hynny a nodwyd yn y datganiad isod.

Datganiad yr archwiliwr annibynnol

Mewn perthynas â'm harchwiliad, nid yw unrhyw fater wedi dod at fy sylw:

1. sy'n rhoi achos rhesymol i mi gredu bod y gofynion mewn unrhyw agwedd berthnasol:
   - i gadw cofnodion cyfrifyddu yn unol ag adran 41 o Ddeddf 1993 ac adran 44(1)(a) o Ddeddf 2005 a Rheoliad 4 o Reoliadau Cyfrifon 2006; ac
   - i baratoi cofnodion sy'n unol â'r cofnodion cyfrifyddu ac sy'n cydymffurfio â gofynion cyfrifyddu Deddf 1993 ac adran 44(1)(b) o Ddeddf 2005 a Rheoliad 9 o Reoliadau 2006

   heb gael eu bodloni; neu
2. y dylid tynnu sylw ato, yn fy marn i, er mwyn gallu cael dealltwriaeth briodol o'r cyfrifon.

Enw:

Cymhwyster neu gorff proffesiynol perthnasol:

Cyfeiriad:

Dyddiad:

ENGHRAIFFT 3.3: ADRODDIAD DIAMOD YR ARCHWILIWR ANNIBYNNOL (AR GYFER ELUSEN SY'N GWMNI SYDD HEFYD WEDI COFRESTRU GYDAG OSCR)

Adroddiad yr archwiliwr annibynnol i ymddiriedolwyr "Cwmni Elusennau WXY"

Adroddaf ar gyfrifon y cwmni am y flwyddyn yn diweddu 30 Ebrill 2008, a nodir ar dudalennau 00 i 00.

Cyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr a'r archwiliwr

Mae'r ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr y cwmni at ddibenion y gyfraith cwmnïau) yn gyfrifol am baratoi'r cyfrifon. Ym marn yr ymddiriedolwyr nid oes angen archwiliad ariannol ar gyfer y flwyddyn hon o dan adran 43(2) o Ddeddf Elusennau 1993 (Deddf 1993) neu o dan Reoliad 10(1)(a) i (c) o Reoliadau Cyfrifon Elusennau (yr Alban) 2006 (Rheoliadau Cyfrifon 2006) a bod angen archwiliad annibynnol. Mae'n ofynnol i'r elusen baratoi cyfrifon croniadau ac rwy'n gymwys i ymgymryd â'r archwiliad drwy fod yn aelod cymwys o [gorff a enwir].

Ar ôl bodloni fy hun nad oes rhaid i'r elusen gael archwiliad ariannol o dan y gyfraith cwmnïau a'i bod yn gymwys i gael archwiliad annibynnol, fy nghyfrifoldeb i yw:

- archwilio'r cyfrifon o dan adran 43 o Ddeddf 1993 ac adran 44(1)(c) o Ddeddf Elusennau a Buddsoddiadau Ymddiriedolwyr (yr Alban) 2005 (Deddf 2005);
- dilyn y gweithdrefnau a osodwyd yn y Cyfarwyddiadau cyffredinol a roddwyd gan y Comisiwn Elusennau o dan adran 43(7)(b) o Ddeddf 1993; a
- datgan a yw materion arbennig wedi dod at fy sylw.

Sail adroddiad yr archwiliwr annibynnol

Cyflawnais fy archwiliad yn unol â'r Cyfarwyddiadau cyffredinol a roddwyd gan y Comisiwn Elusennau ac mae'n unol â Rheoliad 11 o Reoliadau Cyfrifon Elusennau (yr Alban) 2006. Mae archwiliad yn cynnwys adolygu'r cofnodion cyfrifyddu a gedwir gan yr elusen a chymharu'r cyfrifon a gyflwynir â'r cofnodion hynny. Hefyd mae'n cynnwys ystyried unrhyw eitemau neu ddatgeliadau anarferol yn y cyfrifon, a cheisio esboniadau gennych chi fel ymddiriedolwyr ynghylch materion o'r fath. Nid yw'r gweithdrefnau a ddilynwyd yn darparu'r holl dystiolaeth a fyddai'n ofynnol mewn archwiliad ariannol ac o ganlyniad ni roddwyd unrhyw farn ynghylch a yw'r cyfrifon yn rhoi 'darlun gwir a theg' ac mae'r adroddiad wedi'i gyfyngu i'r materion hynny a nodwyd yn y datganiad isod.

Datganiad yr archwiliwr annibynnol

Mewn perthynas â'm harchwiliad, nid yw unrhyw fater wedi dod at fy sylw:

1. sy'n rhoi achos rhesymol i mi gredu bod y gofynion mewn unrhyw agwedd berthnasol
   - i gadw cofnodion cyfrifyddu yn unol ag adran 386 o Ddeddf Cwmnïau 1993 ac adran 44(1)(a) o Ddeddf 2005; ac
   - i baratoi cofnodion sy'n unol â'r cofnodion cyfrifyddu ac sy'n cydymffurfio â gofynion cyfrifyddu Deddf Cwmnïau 2006, adran 44(1)(b) o Ddeddf 2005 a Rheoliad 8 o Reoliadau Cyfrifon 2006; ac
   - sy'n gyson â dulliau ac egwyddorion y Datganiad o Arferion Cymeradwy: Cyfrifon ac Adroddiadau Elusennau

   heb gael eu bodloni; neu
2. y dylid tynnu sylw ato, yn fy marn i, er mwyn gallu cael dealltwriaeth briodol o'r cyfrifon.

Enw:

Cymhwyster neu gorff proffesiynol perthnasol:

Cyfeiriad:

Dyddiad:

Atodiad 4: Enghreifftiau o adroddiadau archwiliwr annibynnol

Mae'r adroddiadau enghreifftiol hyn yn cael eu darparu i helpu archwilwyr i gynllunio eu hadroddiadau mewn ffordd sy'n cydymffurfio â Rheoliadau 2008. Mae'r enghreifftiau yn cwmpasu nifer o sefyllfaoedd y gall archwiliwr ddod ar eu traws yn eu gwaith.

Mae 'adroddiad diamod' yn golygu ar ddiwedd ei archwiliad, mae'r archwiliwr yn gallu adrodd nad yw unrhyw beth wedi dod at ei sylw sy'n ei arwain at gredu bod un neu fwy o'r materion penodol y mae'n adrodd amdanynt heb gael eu bodloni. Fodd bynnag, os oes pryderon neu ddiffyg cydymffurfio â gofynion Rheoliadau 2008 wedi'i adrodd gan yr archwiliwr, disgrifir yr adroddiad fel un 'amodol'.

Sylwch ar y gofyniad newydd, os yw incwm yr elusen yn fwy na £250,000, mae'n rhaid i'r archwiliwr gadarnhau ei gymhwyster(cymwysterau) sy'n ei alluogi i fod yn gymwys i gynnal yr archwiliad.

Mewn amgylchiadau eithriadol, gall y Comisiwn ganiatáu i archwiliad annibynnol gael ei gynnal yn lle archwiliad ariannol. Mae Rheoliadau 2008 yn gofyn i'r archwiliwr ddatgelu yn ei adroddiad a yw'r archwiliad yn cymryd lle archwiliad ariannol a dyddiad goddefeb y Comisiwn.

Mae'r mwyafrif helaeth o elusennau yn ymddiriedolaethau neu'n gymdeithasau anghorfforedig a dim ond nifer fach sy'n elusennau wedi'u corffori o dan y Deddfau Cwmnïau. Mae'r elusennau hynny a sefydlwyd o dan y Deddfau Cwmnïau yn cael eu galw'n 'elusennau sy'n gwmnïau' neu 'gwmnïau elusennol' at ddibenion y canllaw hwn ac oherwydd y gyfraith cwmnïau mae adroddiad yr archwiliwr yn wahanol i adroddiad y rhan fwyaf o elusennau, a elwir yn elusennau 'heb fod yn gwmnïau' yn y canllaw hwn. Os ydych yn ansicr darllenwch ddogfen lywodraethol yr elusen, oherwydd mae memorandwm ac erthyglau cymdeithasu gan elusen sy'n gwmni a bydd wedi derbyn rhif cwmni gan Dŷ'r Cwmnïau.

Yr enghreifftiau o adroddiadau archwiliwr yw

4.1. Adroddiad diamod ar gyfer elusen heb fod yn gwmni (yn gymwys ar gyfer cyfrifon croniadau a chyfrifon derbyniadau a thaliadau).

4.2. Adroddiad diamod ar gyfer cwmni elusennol (incwm gros yn fwy na £250,000 felly roedd rhaid i'r archwiliwr gadarnhau ei aelodaeth o gorff a restrir).

4.3. Adroddiad amodol lle mae elusen heb fod yn gwmni sy'n paratoi cyfrifon derbyniadau a thaliadau wedi methu ag adnabod cronfeydd cyfyngedig ar wahân.

4.4. Adroddiad amodol lle mae elusen heb fod yn gwmni sy'n paratoi cyfrifon derbyniadau a thaliadau wedi methu â chadw cofnodion cyfrifyddu priodol. (Gwnaethpwyd adroddiad o fater perthnasol i'r Comisiwn yn ôl disgresiwn yr archwiliwr gyda'r adroddiad enghreifftiol yn Atodiad 5).

4.5. Adroddiad amodol lle mae elusen heb fod yn gwmni wedi rhoi taliad arian parod dramor heb dystiolaeth bod y cronfeydd wedi cael eu gwario'n briodol. (Roedd dyletswydd statudol i adrodd i'r Comisiwn wedi codi a chafodd ei hadrodd gyda'r adroddiad enghreifftiol yn Atodiad 5.)

4.6. Adroddiad amodol lle yr oedd cwmni elusennol wedi paratoi cyfrifon oedd yn anghyson â'r SORP.

ENGHRAIFFT 4.1: ADRODDIAD DIAMOD YR ARCHWILIWR ANNIBYNNOL (AR GYFER ELUSEN HEB FOD YN GWMNI)

Adroddiad yr archwiliwr annibynnol i ymddiriedolwyr Ymddiriedolaeth "ABZ"

Adroddaf ar gyfrifon yr Ymddiriedolaeth am y flwyddyn yn diweddu 30 Ebrill 2009, a nodir ar dudalennau 00 i 00.

Cyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr a'r archwiliwr

Mae'r ymddiriedolwyr elusen yn gyfrifol am baratoi'r cyfrifon. Mae'r ymddiriedolwyr elusen o'r farn nad yw archwiliad ariannol yn ofynnol ar gyfer y flwyddyn hon o dan adran 43(2) o Ddeddf Elusennau 1993 (Deddf 1993) ac mae angen archwiliad annibynnol.

Fy nghyfrifoldeb i yw:

- archwilio'r cyfrifon o dan adran 43 o Ddeddf 1993;
- dilyn y gweithdrefnau a osodwyd yn y Cyfarwyddiadau cyffredinol a roddwyd gan y Comisiwn Elusennau o dan adran 43(7)(b) o Ddeddf 1993; a
- datgan a yw materion arbennig wedi dod at fy sylw.

Sail adroddiad yr archwiliwr annibynnol

Cyflawnais fy archwiliad yn unol â'r Cyfarwyddiadau cyffredinol a roddwyd gan y Comisiwn Elusennau. Mae archwiliad yn cynnwys adolygu'r cofnodion cyfrifyddu a gedwir gan yr elusen a chymharu'r cyfrifon a gyflwynir â'r cofnodion hynny. Hefyd mae'n cynnwys ystyried unrhyw eitemau neu ddatgeliadau anarferol yn y cyfrifon, a cheisio esboniadau gennych chi fel ymddiriedolwyr ynghylch materion o'r fath. Nid yw'r gweithdrefnau a ddilynwyd yn darparu'r holl dystiolaeth a fyddai'n ofynnol mewn archwiliad ariannol ac o ganlyniad ni roddwyd unrhyw farn ynghylch a yw'r cyfrifon yn rhoi 'darlun gwir a theg' ac mae'r adroddiad wedi'i gyfyngu i'r materion hynny a nodwyd yn y datganiad isod.

Datganiad yr archwiliwr annibynnol

Mewn perthynas â'm harchwiliad, nid yw unrhyw fater wedi dod at fy sylw:

1. sy'n rhoi achos rhesymol i mi gredu bod y gofynion mewn unrhyw agwedd berthnasol:
   - i gadw cofnodion cyfrifyddu yn unol ag adran 41 o Ddeddf 1993; ac
   - i baratoi cyfrifon sy'n unol â'r cofnodion cyfrifyddu ac sy'n cydymffurfio â gofynion cyfrifyddu Deddf 1993

   heb gael eu bodloni; neu
2. y dylid tynnu sylw ato, yn fy marn i, er mwyn gallu cael dealltwriaeth briodol o'r cyfrifon.

Enw:

Cymhwyster neu gorff proffesiynol perthnasol:

Cyfeiriad:

Dyddiad:

ENGHRAIFFT 4.2: ADRODDIAD DIAMOD YR ARCHWILIWR ANNIBYNNOL (AR GYFER ELUSEN SY'N GWMNI)

Adroddiad yr archwiliwr annibynnol i ymddiriedolwyr "Cwmni Elusennau WXY"

Adroddaf ar gyfrifon y cwmni am y flwyddyn yn diweddu 30 Ebrill 2008, a nodir ar dudalennau 00 i 00.

Cyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr a'r archwiliwr

Mae'r ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr y cwmni at ddibenion y gyfraith cwmnïau) yn gyfrifol am baratoi'r cyfrifon. Mae'r ymddiriedolwyr o'r farn nad yw archwiliad ariannol yn ofynnol ar gyfer y flwyddyn hon o dan adran 43(2) o Ddeddf Elusennau 1993 (Deddf 1993) ac mae angen archwiliad annibynnol. Mae incwm gros yr elusen yn fwy na £250,000 ac rwy'n gymwys i gynnal yr archwiliad annibynnol drwy fod yn aelod cymwys o [gorff a enwir].

Ar ôl bodloni fy hun nad oes rhaid i'r elusen gael archwiliad ariannol o dan y gyfraith cwmnïau a'i bod yn gymwys i gael archwiliad annibynnol, fy nghyfrifoldeb i yw:

- archwilio'r cyfrifon o dan adran 43 o Ddeddf 1993;
- dilyn y gweithdrefnau a osodwyd yn y Cyfarwyddiadau cyffredinol a roddwyd gan y Comisiwn Elusennau o dan adran 43(7)(b) o Ddeddf 1993; a
- datgan a yw materion arbennig wedi dod at fy sylw.

Sail adroddiad yr archwiliwr annibynnol

Cyflawnais fy archwiliad yn unol â'r Cyfarwyddiadau cyffredinol a roddwyd gan y Comisiwn Elusennau. Mae archwiliad yn cynnwys adolygu'r cofnodion cyfrifyddu a gedwir gan yr elusen a chymharu'r cyfrifon a gyflwynir â'r cofnodion hynny. Hefyd mae'n cynnwys ystyried unrhyw eitemau neu ddatgeliadau anarferol yn y cyfrifon, a cheisio esboniadau gennych chi fel ymddiriedolwyr ynghylch materion o'r fath. Nid yw'r gweithdrefnau a ddilynwyd yn darparu'r holl dystiolaeth a fyddai'n ofynnol mewn archwiliad ariannol ac o ganlyniad ni roddwyd unrhyw farn ynghylch a yw'r cyfrifon yn rhoi 'darlun gwir a theg' ac mae'r adroddiad wedi'i gyfyngu i'r materion hynny a nodwyd yn y datganiad isod.

Datganiad yr archwiliwr annibynnol

Mewn perthynas â'm harchwiliad, nid yw unrhyw fater wedi dod at fy sylw:

1. sy'n rhoi achos rhesymol i mi gredu bod y gofynion mewn unrhyw agwedd berthnasol:
   - i gadw cofnodion cyfrifyddu yn unol ag adran 386 o Ddeddf Cwmnïau 2006; ac
   - i baratoi cofnodion sy'n unol â'r cofnodion cyfrifyddu ac sy'n cydymffurfio â gofynion cyfrifyddu adran 396 Deddf Cwmnïau 2006, a dulliau ac egwyddorion y Datganiad o Arferion Cymeradwy: Cyfrifon ac Adroddiadau Elusennau

   heb gael eu bodloni; neu
2. y dylid tynnu sylw ato, yn fy marn i, er mwyn gallu cael dealltwriaeth briodol o'r cyfrifon.

Enw:

Cymhwyster neu gorff proffesiynol perthnasol:

Cyfeiriad:

Dyddiad:

ENGHRAIFFT 4.3: ADRODDIAD AMODOL YR ARCHWILIWR ANNIBYNNOL - METHU AG ADNABOD CRONFA GYFYNGEDIG MEWN CYFRIFON DERBYNIADAU A THALIADAU (ELUSEN HEB FOD YN GWMNI)

Adroddiad yr archwiliwr annibynnol i ymddiriedolwyr Ymddiriedolaeth "EFG"

Adroddaf ar gyfrifon yr Ymddiriedolaeth am y flwyddyn yn diweddu 30 Ebrill 2009, a nodir ar dudalennau 00 i 00.

Cyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr a'r archwiliwr

Mae'r ymddiriedolwyr elusen yn gyfrifol am baratoi'r cyfrifon. Mae'r ymddiriedolwyr elusen o'r farn nad yw archwiliad ariannol yn ofynnol ar gyfer y flwyddyn hon (o dan adran 43(2) o Ddeddf Elusennau 1993 (Deddf 1993)) ac mae angen archwiliad annibynnol.

Fy nghyfrifoldeb i yw:

- archwilio'r cyfrifon o dan adran 43 o Ddeddf 1993;
- dilyn y gweithdrefnau a osodwyd yn y Cyfarwyddiadau cyffredinol a roddwyd gan y Comisiwn Elusennau o dan adran 43(7)(b) o Ddeddf 1993; a
- datgan a yw materion arbennig wedi dod at fy sylw.

Sail datganiad yr archwiliwr annibynnol

Cyflawnais fy archwiliad yn unol â'r Cyfarwyddiadau cyffredinol a roddwyd gan y Comisiwn Elusennau. Mae archwiliad yn cynnwys adolygu'r cofnodion cyfrifyddu a gedwir gan yr elusen a chymharu'r cyfrifon a gyflwynir â'r cofnodion hynny. Hefyd mae'n cynnwys ystyried unrhyw eitemau neu ddatgeliadau anarferol yn y cyfrifon, a cheisio esboniadau gennych chi fel ymddiriedolwyr ynghylch materion o'r fath. Nid yw'r gweithdrefnau a ddilynwyd yn darparu'r holl dystiolaeth a fyddai'n ofynnol mewn archwiliad ariannol ac o ganlyniad ni roddwyd unrhyw farn ynghylch a yw'r cyfrifon yn rhoi 'darlun gwir a theg' ac mae'r adroddiad wedi'i gyfyngu i'r materion hynny a nodwyd yn y datganiad isod.

Datganiad amodol yr archwiliwr annibynnol

Mae'r ymddiriedolwyr wedi paratoi cyfrifon derbyniadau a thaliadau ond nid ydynt wedi adnabod cronfeydd cyfyngedig ar wahân o fewn y cyfrifon hynny. Ar ddiwedd un gwasanaeth eglwys gwnaethpwyd apêl arbennig ar gyfer cenhadaeth i Samarkand ond cafodd yr arian ei fancio gyda'r casgliad arferol ac ni chadwyd cofnod ar wahân o'r swm a dderbyniwyd. Mae'r cyfrifon yn dangos bod y gwariant ar y genhadaeth i Samarkand wedi cael ei nodi ar wahân a'r swm oedd £2,837. Roedd yr ymddiriedolwyr wedi nodi mai'r bancio ar gyfer y gwasanaeth hwnnw oedd £1,978 yn erbyn bancio wythnosol cyfartalog o £1,275, ond erbyn hyn maent wedi gweithredu protocol i sicrhau bod unrhyw apeliadau yn cael eu cyfrif a'u bancio ar wahân.

Mewn perthynas â'm harchwiliad, nid yw unrhyw fater arall heblaw'r hyn y cyfeirir ato yn y paragraff uchod wedi dod at fy sylw:

1. sy'n rhoi achos rhesymol i mi gredu bod y gofynion mewn unrhyw agwedd berthnasol:
   - i gadw cofnodion cyfrifyddu yn unol ag adran 41 o Ddeddf 1993; ac
   - i baratoi cyfrifon sy'n unol â'r cofnodion cyfrifyddu ac sy'n cydymffurfio â gofynion cyfrifyddu Deddf 1993

   heb gael eu bodloni; neu
2. y dylid tynnu sylw ato, yn fy marn i, er mwyn gallu cael dealltwriaeth briodol o'r cyfrifon.

Enw:

Cymhwyster neu gorff proffesiynol perthnasol:

Cyfeiriad:

Dyddiad:

ENGHRAIFFT 4.4: ADRODDIAD AMODOL YR ARCHWILIWR ANNIBYNNOL - METHU Â PHARATOI CYFRIFON DERBYNIADAU A THALIADAU YN BRIODOL (ELUSEN HEB FOD YN GWMNI)

Adroddiad yr archwiliwr annibynnol i ymddiriedolwyr Ymddiriedolaeth "DEF".

Adroddaf ar gyfrifon yr Ymddiriedolaeth am y flwyddyn yn diweddu 30 Ebrill 2009, a nodir ar dudalennau 00 i 00.

Cyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr a'r archwiliwr

Mae'r ymddiriedolwyr elusen yn gyfrifol am baratoi'r cyfrifon. Mae'r ymddiriedolwyr elusen o'r farn nad yw archwiliad ariannol yn ofynnol ar gyfer y flwyddyn hon o dan adran 43(2) o Ddeddf Elusennau 1993 (Deddf 1993)) ac mae angen archwiliad annibynnol.

Fy nghyfrifoldeb i yw:

- archwilio'r cyfrifon o dan adran 43 o Ddeddf 1993;
- dilyn y gweithdrefnau a osodwyd yn y Cyfarwyddiadau cyffredinol a roddwyd gan y Comisiwn Elusennau o dan adran 43(7)(b) o Ddeddf 1993; a
- datgan a yw materion arbennig wedi dod at fy sylw.

Sail datganiad yr archwiliwr annibynnol

Cyflawnais fy archwiliad yn unol â'r Cyfarwyddiadau cyffredinol a roddwyd gan y Comisiwn Elusennau. Mae archwiliad yn cynnwys adolygu'r cofnodion cyfrifyddu a gedwir gan yr elusen a chymharu'r cyfrifon a gyflwynir â'r cofnodion hynny. Hefyd mae'n cynnwys ystyried unrhyw eitemau neu ddatgeliadau anarferol yn y cyfrifon, a cheisio esboniadau gennych chi fel ymddiriedolwyr ynghylch materion o'r fath. Nid yw'r gweithdrefnau a ddilynwyd yn darparu'r holl dystiolaeth a fyddai'n ofynnol mewn archwiliad ariannol ac o ganlyniad ni roddwyd unrhyw farn ynghylch a yw'r cyfrifon yn rhoi 'darlun gwir a theg' ac mae'r adroddiad wedi'i gyfyngu i'r materion hynny a nodwyd yn y datganiad isod.

Datganiad amodol yr archwiliwr annibynnol

Mae'r ymddiriedolwyr wedi paratoi cyfrifon derbyniadau a thaliadau ac mae'r cyfrifon yn dangos mai'r arian parod a dderbyniwyd yn y flwyddyn oedd £36,873, ond nid yw unrhyw gofnodion wedi cael eu cadw i gyfateb â chofnod y rhoddion a dderbyniwyd i'r bancio a wnaed, a chafodd y gweddillion arian parod eu cadw heb eu bancio. Yr unig gofnod ysgrifenedig a gadwyd yw llythyr yn cynghori bod dyfarniad grant o £10,000 wedi'i roi. Cafodd y mwyafrif o'r gwariant ei wneud mewn arian parod o arian parod heb ei fancio a gadwyd neu drwy arian parod a dynnwyd allan drwy ddefnyddio cerdyn debyd yr elusen ond ni chadwyd llawer o dderbynebau. Ar wahân i'r anfonebau ar gyfer cyfleustodau a rhent ac offer chwarae, nid oes unrhyw gofnodion o dreuliau gwirfoddolwyr neu dreuliau eraill. Roedd cyfanswm yr arian parod a wariwyd yn £86,000 gyda derbynebau ar gyfer dim ond £41,732 gan adael £44,268 o daliadau heb unrhyw gofnodion ategol.

Mewn perthynas â'm harchwiliad, nid yw unrhyw fater arall heblaw'r hyn y cyfeirir ato yn y paragraff uchod wedi dod at fy sylw, ar wahân i'r cofnodion cyfrifyddu sydd heb gael eu cadw'n briodol yn unol ag adran 41 o Ddeddf 1993.

1. sy'n rhoi achos rhesymol i mi gredu mewn unrhyw ffordd berthnasol bod y gofynion i baratoi cyfrifon sy'n unol â'r cofnodion cyfrifyddu ac sy'n cydymffurfio â gofynion cyfrifyddu Deddf 1993 heb gael eu bodloni; neu
2. y dylid tynnu sylw ato, yn fy marn i, er mwyn gallu cael dealltwriaeth briodol o'r cyfrifon.

Enw:

Cymhwyster neu gorff proffesiynol perthnasol:

Cyfeiriad:

Dyddiad:

ENGHRAIFFT 4.5: ADRODDIAD AMODOL YR ARCHWILIWR ANNIBYNNOL - MATER I'W ADRODD (ELUSEN HEB FOD YN GWMNI)

Adroddiad yr archwiliwr annibynnol i ymddiriedolwyr Ymddiriedolaeth "ABC"

Adroddaf ar gyfrifon yr Ymddiriedolaeth am y flwyddyn yn diweddu 30 Ebrill 2009, a nodir ar dudalennau 00 i 00.

Cyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr a'r archwiliwr

Mae'r ymddiriedolwyr elusen yn gyfrifol am baratoi'r cyfrifon. Mae'r ymddiriedolwyr elusen o'r farn nad yw archwiliad ariannol yn ofynnol ar gyfer y flwyddyn hon o dan adran 43(2) o Ddeddf Elusennau 1993 (Deddf 1993)) ac mae angen archwiliad annibynnol.

Fy nghyfrifoldeb i yw:

- archwilio'r cyfrifon o dan adran 43 o Ddeddf 1993;
- dilyn y gweithdrefnau a osodwyd yn y Cyfarwyddiadau cyffredinol a roddwyd gan y Comisiwn Elusennau o dan adran 43(7)(b) o Ddeddf 1993; a
- datgan a yw materion arbennig wedi dod at fy sylw.

Sail datganiad yr archwiliwr annibynnol

Cyflawnais fy archwiliad yn unol â'r Cyfarwyddiadau cyffredinol a roddwyd gan y Comisiwn Elusennau. Mae archwiliad yn cynnwys adolygu'r cofnodion cyfrifyddu a gedwir gan yr elusen a chymharu'r cyfrifon a gyflwynir â'r cofnodion hynny. Hefyd mae'n cynnwys ystyried unrhyw eitemau neu ddatgeliadau anarferol yn y cyfrifon, a cheisio esboniadau gennych chi fel ymddiriedolwyr ynghylch materion o'r fath. Nid yw'r gweithdrefnau a ddilynwyd yn darparu'r holl dystiolaeth a fyddai'n ofynnol mewn archwiliad ariannol ac o ganlyniad ni roddwyd unrhyw farn ynghylch a yw'r cyfrifon yn rhoi 'darlun gwir a theg' ac mae'r adroddiad wedi'i gyfyngu i'r materion hynny a nodwyd yn y datganiad isod.

Datganiad amodol yr archwiliwr annibynnol

Mewn perthynas â'm harchwiliad, nid yw unrhyw fater wedi dod at fy sylw sy'n rhoi achos rhesymol i mi gredu bod y gofynion, mewn unrhyw agwedd berthnasol:

- i gadw cofnodion cyfrifyddu yn unol ag adran 41 o Ddeddf 1993; ac
- i baratoi cyfrifon sy'n unol â'r cofnodion cyfrifyddu ac i gydymffurfio â gofynion cyfrifyddu Deddf 1993

heb gael eu bodloni.

Mae'r cyfrifon yn datgelu taliad o grant cyfyngedig perthnasol o £75,000 i'r sefydliad partner XXX sy'n gweithredu yng ngwlad X. Esboniodd yr ymddiriedolwyr bod ymddiriedolwr wedi mynd ag arian drosodd mewn doleri UD mewn siwtces a rhoi'r arian i gynrychiolydd y sefydliad partner XXX. Fodd bynnag, nid oedd yr ymddiriedolwyr yn gallu esbonio sut y cafodd yr arian ei ddefnyddio ac nid oeddent yn gallu darparu tystiolaeth ar ffurf derbynneb neu lythyr cydnabod gan y sefydliad partner XXX. Roedd pryder y byddai'n rhaid ad-dalu'r grant o bosib oherwydd y diffyg tystiolaeth oedd ar gael i hysbysu'r rhoddwr o'r defnydd ohono.

Nid yw unrhyw fater arall wedi dod at fy sylw mewn perthynas â'm harchwiliad y dylid, yn fy marn i, dynnu sylw ato er mwyn gallu cael dealltwriaeth briodol o'r cyfrifon.

Enw:

Cymhwyster neu gorff proffesiynol perthnasol:

Cyfeiriad:

Dyddiad:

ENGHRAIFFT 4.6: ADRODDIAD AMODOL YR ARCHWILIWR ANNIBYNNOL - HEB GYDYMFFURFIO Â'R SORP A'R DDEDDF CWMNÏAU (ELUSEN SY'N GWMNI)

Adroddiad yr archwiliwr annibynnol i ymddiriedolwyr "Cwmni Elusennau WXY"

Adroddaf ar gyfrifon y cwmni am y flwyddyn yn diweddu 30 Ebrill 2008, a nodir ar dudalennau 00 i 00.

Cyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr a'r archwiliwr

Mae'r ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr y cwmni at ddibenion y gyfraith cwmnïau) yn gyfrifol am baratoi'r cyfrifon. Mae'r ymddiriedolwyr o'r farn nad yw archwiliad ariannol yn ofynnol ar gyfer y flwyddyn hon o dan adran 43(2) o Ddeddf Elusennau 1993 (Deddf 1993) ac mae angen archwiliad annibynnol.

Ar ôl bodloni fy hun nad oes rhaid i'r elusen gael archwiliad ariannol o dan y gyfraith cwmnïau a'i bod yn gymwys i gael archwiliad annibynnol, fy nghyfrifoldeb i yw:

- archwilio'r cyfrifon o dan adran 43 o Ddeddf 1993;
- dilyn y gweithdrefnau a osodwyd yn y Cyfarwyddiadau cyffredinol a roddwyd gan y Comisiwn Elusennau o dan adran 43(7)(b) o Ddeddf 1993; a
- datgan a yw materion arbennig wedi dod at fy sylw.

Sail adroddiad yr archwiliwr annibynnol

Cyflawnais fy archwiliad yn unol â'r Cyfarwyddiadau cyffredinol a roddwyd gan y Comisiwn Elusennau. Mae archwiliad yn cynnwys adolygu'r cofnodion cyfrifyddu a gedwir gan yr elusen a chymharu'r cyfrifon a gyflwynir â'r cofnodion hynny. Hefyd mae'n cynnwys ystyried unrhyw eitemau neu ddatgeliadau anarferol yn y cyfrifon, a cheisio esboniadau gennych chi fel ymddiriedolwyr ynghylch materion o'r fath. Nid yw'r gweithdrefnau a ddilynwyd yn darparu'r holl dystiolaeth a fyddai'n ofynnol mewn archwiliad ariannol ac o ganlyniad ni roddwyd unrhyw farn ynghylch a yw'r cyfrifon yn rhoi 'darlun gwir a theg' ac mae'r adroddiad wedi'i gyfyngu i'r materion hynny a nodwyd yn y datganiad isod.

Datganiad amodol yr archwiliwr annibynnol

Nid yw'r cyfrifon yn cydymffurfio'n llawn â'r gyfraith cwmnïau ac nid ydynt yn gyson â'r SORP Elusennau. Mae mantolen a nodiadau yn bresennol ond yn lle Datganiad o Weithgareddau Ariannol sy'n cynnwys cyfrif incwm a gwariant, dim ond cyfrif elw a cholled sydd wedi cael ei baratoi. Nid yw'r cronfeydd yn y cyfrif elw a cholled na'r fantolen wedi cael eu dadansoddi rhwng cronfeydd anghyfyngedig a chyfyngedig. Mae manylion swm y cronfeydd cyfyngedig i'w gweld yn y nodiadau ar y cyfrifon ac yn ymwneud â chasgliad cyhoeddus gyda gweddill o £x ar ddiwedd y flwyddyn.

Mewn perthynas â'm harchwiliad, ar wahân i'r mater y cyfeiriwyd ato uchod sy'n dangos nad yw'r cyfrifon yn cydymffurfio'n llawn â gofynion cyfrifyddu adran 396 o Ddeddf Cwmnïau a gyda dulliau ac egwyddorion y Datganiad o Arferion Cymeradwy: Cyfrifon ac Adroddiadau gan Elusennau, nid yw unrhyw fater wedi dod at fy sylw:

1. sy'n rhoi achos rhesymol i mi gredu mewn unrhyw ffordd berthnasol bod y gofynion i baratoi cyfrifon sy'n unol â'r cofnodion cyfrifyddu ac i gadw cofnodion cyfrifyddu yn unol ag adran 386 o Ddeddf Cwmnïau heb gael eu bodloni; neu
2. y dylid tynnu sylw ato, yn fy marn i, er mwyn gallu cael dealltwriaeth briodol o'r cyfrifon.

Enw:

Cymhwyster neu gorff proffesiynol perthnasol:

Cyfeiriad:

Dyddiad:

Atodiad 5: Cyngor pellach i archwilwyr: adnabod materion o arwyddocâd perthnasol

5.1. Cyflwyniad

Esbonnir dyletswydd statudol yr archwiliwr i adrodd am faterion sydd o arwyddocâd perthnasol i'r Comisiwn yn adran Dd y canllaw hwn. Mae'r Atodiad hwn yn rhoi cyngor pellach, yn arbennig i archwilwyr gwirfoddol, ar faterion sy'n adroddadwy i'r Comisiwn.

Bydd penderfyniad i adrodd mater i'r Comisiwn bob amser yn cynnwys defnyddio barn yn seiliedig ar benderfynu a yw'r mater yn debygol o fod o arwyddocâd perthnasol i swyddogaethau rheoleiddio'r Comisiwn. Yn ymarferol mae'n rhaid i'r archwiliwr ystyried y mater a nodwyd o bersbectif y rheolydd. Nid yw'r canllaw hwn yn bwriadu bod yn rhestr wirio neu'n rhestr derfynol o'r holl faterion sydd o 'arwyddocâd perthnasol' a all godi ond yn hytrach yn gymorth i'r archwiliwr wrth benderfynu a yw'r mater dan sylw yn adroddadwy. Cofiwch ni ddisgwylir i'r archwiliwr chwilio am faterion i'w hadrodd amdanynt a disgwylir iddo wneud ei orau a gweithredu'n rhesymol ac yn onest yn unig wrth benderfynu a yw mater yn adroddadwy.

Fel rheol nid yw mân doriadau o rwymedigaethau ymddiriedolwyr neu wallau gweinyddol unigol sydd heb beri risg sylweddol i asedau elusennau yn adroddadwy oni bai eu bod yn digwydd mor aml fel eu bod yn cael eu hystyried yn gamymddygiad neu'n camreoli.

Mae'r Comisiwn yn cydnabod y gall dod i gasgliad ynghylch a yw mater yn un adroddadwy neu beidio fod yn dasg anodd yn enwedig i archwilwyr gwirfoddol sydd heb feddu ar gymwysterau cyfrifyddu proffesiynol.

Mae sawl cwestiwn y gall yr archwiliwr ei ystyried i'w helpu i ddod i'w gasgliad:

- Ydy hwn yn fater sy'n achosi chi, yr archwiliwr, unrhyw bryder arwyddocaol?
- Ydy hwn yn fater y mae'r Comisiwn yn debygol o fod angen ei ymchwilio?
- Ydy hwn yn fater y mae angen i'r Comisiwn wybod amdano er mwyn rheoleiddio'r sector?
- Ydy cronfeydd yr elusen neu ddiogelwch buddiolwyr neu'r cyhoedd mewn perygl arwyddocaol?

Dylai'r archwiliwr annibynnol wirio a yw'r mater wedi'i gynnwys o fewn yr 'wyth mater' a restrir yn adran Dd y canllaw hwn sydd bob amser yn cael eu hystyried yn rhai y gellir eu hadrodd i'r Comisiwn. Hefyd gall fod yn ddefnyddiol i ddeall yr ystod o faterion y mae'r Comisiwn yn ymchwilio iddynt ac mae modd llwytho i lawr achosion ymchwiliad wedi'u cwblhau yn: www.charitycommission.gov.uk/investigations/inquiryreports/inqreps.asp

Ar ôl mynd trwy'r camau hyn, os yw'r archwiliwr yn parhau'n ansicr a fyddai'r Comisiwn yn ystyried y mater yn un sydd o 'arwyddocâd perthnasol' gall fod yn ddefnyddiol i drafod y mater gyda ni. Bydd y penderfyniad terfynol ynghylch adrodd neu beidio yn parhau gyda'r archwiliwr; byddwn ni yn y Comisiwn yn fodlon trafod gydag archwilwyr ond ni allwn wneud y penderfyniadau drosoch. Hefyd mae'n bwysig cofio na fydd unrhyw drafodaeth ffôn yn dileu'r angen i'r archwiliwr gyflwyno adroddiad os yw'r mater o arwyddocâd perthnasol.

Os yw mater a all fod yn adroddadwy yn cael ei nodi argymhellwn fod yr archwiliwr yn cofnodi'r ffeithiau neu amgylchiadau allweddol. Nid oes rhaid i'r archwiliwr gynhyrchu corff o dystiolaeth sy'n profi mater heb os ond mae angen i'r archwiliwr gael digon o wybodaeth i roi 'achos rhesymol dros gredu' bod y mater adroddadwy yn bodoli neu wedi digwydd. Gall hyn olygu y bydd rhaid i'r archwiliwr annibynnol wneud peth gwaith ychwanegol i helpu sefydlu ei bryder ond dim ond i'r graddau sy'n angenrheidiol i'w fodloni bod achos rhesymol dros gredu bod y mater yn adroddadwy.

Hefyd mae'n bwysig i'r archwiliwr gofio nad oes dyletswydd ganddo i chwilio'n benodol am faterion i'w hadrodd amdanynt. Nid yw archwiliad annibynnol mor drylwyr ag archwiliad ariannol ac mae Rheoliadau 2008 dim ond yn gofyn i'r archwiliwr ystyried nifer cyfyngedig o bethau fel rhan o'i archwiliad. Mae'r trefniadau ar gyfer cynnal archwiliad wedi'u pennu gan y Cyfarwyddiadau ac fe'u hesbonnir yn y canllaw sy'n dilyn pob Cyfarwyddyd. Ond ni all yr archwiliwr

annibynnol anwybyddu mater sy'n dod i'r amlwg wrth iddo weithredu fel archwiliwr yr elusen sy'n debygol o fod o arwyddocâd perthnasol.

- **Materion sy'n awgrymu anonestrwydd neu dwyll sy'n cynnwys colled sylweddol o gronfeydd neu asedau elusennol, neu brif risg iddynt.** Dylai gweithgarwch troseddol o fewn neu sy'n cynnwys yr elusen gael ei adrodd hyd yn oed os yw'r mater eisoes wedi cael ei adrodd i'r heddlu. Gall rhai gweithdrefnau archwilio hefyd dynnu sylw at risgiau y dylid eu hystyried, er enghraifft, tynnu llawer o arian neu arian rheolaidd heb esboniad digonol, gwariant heb fod at ddibenion yr elusen, ffugio cofnodion cyfrifyddu, methiant arwyddocaol i gadw cofnodion cyfrifyddu, defnyddio cyfrifon banc personol i ddal cronfeydd elusen neu'r defnydd anarferol o asiantau i wneud taliadau i'r elusen lle nad oes modd adnabod y sawl sy'n eu derbyn. Gall adolygu cofnodion cyfrifyddu, cymharu cofnodion cyfrifyddu â'r cyfrifon a cheisio esboniadau ar gyfer eitemau anarferol ddod â'r materion hyn i'r amlwg.
- **Methiant(methiannau) rheolaethau mewnol, gan gynnwys methiant(methiannau) yn null llywodraethu'r elusen, sydd wedi esgor ar golled sylweddol neu gamberchnogi cronfeydd elusennol, neu sy'n arwain at risg i gronfeydd elusennol sylweddol.** Er nad yw'n ofynnol i'r archwiliwr annibynnol ystyried rheolaethau mewnol gall rhai methiannau neu risgiau barhau i fod yn amlwg yn ystod yr archwiliad, er enghraifft, os nad yw cofnodion cyfrifyddu yn cael eu cadw, gwariant rheolaidd heb awdurdod, cyn-lofnodi sieciau gwag, lefel arferol o uchel o ddefnydd o gerdyn credyd, cardiau siopau, e-gardiau (cardiau wedi'u llwytho ymlaen llaw ag arian) neu arian parod heb eu cefnogi gan dderbynebion neu heb angen busnes amlwg neu ymddiriedolwyr sydd byth neu bron byth yn cwrdd i weinyddu'r elusen. Gallai'r materion hyn ddod i'r amlwg trwy adolygu'r cofnodion cyfrifyddu neu wrth geisio dealltwriaeth gyffredinol o sut y mae'r elusen yn gweithredu.
- **Materion sy'n arwain at wybod neu amau bod cronfeydd yr elusen neu gronfeydd elusennol wedi cael eu defnyddio i wyngalchu arian neu fod cronfeydd o'r fath yn enillion troseddau neu fod yr elusen yn sianel ar gyfer gweithgarwch troseddol.** Os codi ffi, mae'r archwiliwr annibynnol yn debygol o ddarparu gwasanaeth cyfrifyddu o dan gontract, ac felly dylai'r archwiliwr annibynnol ystyried Rheoliadau Gwyngalchu Arian 2007 ac unrhyw ganllawiau a gyhoeddwyd gan ei gorff proffesiynol. Yn achos archwilwyr gwirfoddol gall fod yn anodd gwybod pryd y mae amheuaeth yn adroddadwy. Er mwyn bod yn adroddadwy dylai amheuaeth gael ei seilio ar beth dystiolaeth, hyd yn oed os yw'r dystiolaeth honno yn betrus. Ni fyddai fwrw amcan fod yr elusen efallai'n ymwneud â gwyngalchu arian yn sail ddigonol i ffurfio amheuaeth. Nid yw'n bosibl rhoi rhestr derfynol o'r dangosyddion o wyngalchu arian - ond mae'r materion a fyddai angen eu hystyried ymhellach yn cynnwys:
  - yr ymddiriedolwyr yn gwrthod esbonio trafodiad anarferol;
  - pryderon am onestrwydd, unplygrwydd neu hunaniaeth ymddiriedolwyr;
  - rhoddion mawr neu reolaidd sy'n golygu bod angen i'r elusen drosglwyddo'r cronfeydd hynny i barti enwebedig y tu allan neu'r tu mewn i'r DU neu i brynu nwyddau neu wasanaethau o'r rhoddwr neu drydydd parti a enwir;
  - benthyciadau o ffynhonnell anhysbys neu heb ei gwirio, ar gyfradd llog sero, isel neu fasnachol, y gofynnir i'r elusen ei ad-dalu trwy siec neu drosglwyddiad banc i'r rhoddwr neu'r trydydd parti;
  - cais gan roddwr i ddychwelyd cronfeydd trwy siec neu drosglwyddiad banc oherwydd y cawsant 'eu talu o'r cyfrif anghywir';
  - 'benthyca' cyfrif banc yr elusen er mwyn galluogi trydydd partïon neu unigolion i wneud adneuon neu drafodion;
  - gwneud trosglwyddiadau arian y tu allan neu'r tu mewn i'r DU ar ran trydydd parti yn gyfnewid am ffi;

- trafodion afresymegol neu lywio cronfeydd trwy gyfres o gyfrifon banc;
- trafodion buddsoddi neu eiddo anarferol heb ddiben buddsoddi neu sail resymegol glir.

- **Materion sy'n arwain at gredu neu amau y bu'r elusen, ei hymddiriedolwyr, ei gweithwyr cyflogedig neu ei hasedau yn ymwneud â therfysgaeth, neu eu defnyddio i gefnogi terfysgaeth, neu sefydliadau gwaharddedig yn y DU neu y tu allan i'r DU.** Os yw pryder yn codi dylai archwilwyr annibynnol ddarllen ein Canllaw Gweithredol OG96 Elusennau a Therfysgaeth ar ein gwefan. Os yw'r pryder yn ymwneud â chefnogi sefydliad arbennig (mewn arian parod neu fel arall) gallwch wirio i weld a yw'n sefydliad gwaharddedig ar wefan y Swyddfa Gartref yn www.homeoffice.gov.uk. Dylai ffactorau sy'n awgrymu gweithgarwch gwyngalchu arian gael eu hystyried hefyd.
- **Tystiolaeth sy'n awgrymu drwy'r ffordd y mae'r elusen yn ymgymryd â'i gwaith o ran gofal a lles buddiolwyr, bod buddiolwyr yr elusen neu bu buddiolwyr yr elusen mewn perygl arwyddocaol o gael eu cam-drin neu eu camddefnyddio.** Ni ddisgwylir i'r archwiliwr annibynnol weithredu fel arolygydd neu i geisio dehongli cyflwr corfforol, emosiynol neu ysbrydol y buddiolwyr. Er nad yw archwilwyr yn ystyried rheolaethau mewnol bydd gwybodaeth gyffredinol ganddynt ynghylch sut mae'r elusen yn gweithredu, er enghraifft o gofnodion ymddiriedolwyr, neu gallant fod yn ymwybodol o batrwm o gwynion neu bryderon. Er enghraifft, gall archwilwyr adnabod gwybodaeth sy'n ymwneud ag achos cyfreithiol yn erbyn yr elusen, ymchwiliad troseddol neu ymchwiliad neu bryder a godwyd gan reolydd neu asiantaeth arall neu nid yw'r gwiriadau cymhwyster gofynnol wedi cael eu cynnal ar ymddiriedolwyr neu staff. Os yw pryderon yn cael eu mynegi gall ein canllawiau ar ddiogelu elusennau fod yn ddefnyddiol a gallwch eu llwytho i lawr yn: www.charitycommission.gov.uk/supportingcharities/protection.asp
- **Gweithredu'n groes i ofyniad deddfwriaethol neu ymddiriedolaethau'r elusen mewn ffordd arwyddocaol neu barhaus.** Ni ddisgwylir i'r archwiliwr annibynnol fod yn arbenigwr cyfreithiol ac y pwysleisiwyd cyn hynny nid yw mân doriadau o rwymedigaethau ymddiriedolwyr neu wallau gweinyddol unigol sydd heb beri unrhyw risg sylweddol i asedau neu enw da'r elusen yn adroddadwy fel rheol. Fodd bynnag, os yw'r symiau dan sylw yn fawr neu'n ailadroddus gall fod yn arwydd o bryder am weinyddiaeth yr elusen. Gallai gweithgareddau fod heb unrhyw gysylltiad â dibenion yr elusen gan wneud yr elusen yn ffug-elusen mewn gwirionedd neu gallai fod gwariant mawr at ddiben sydd yn amlwg heb gysylltiad â'r elusen neu sy'n anwybyddu gofynion deddfwriaeth neu amharodrwydd i unioni cam, er enghraifft, taliad heb awdurdod neu fuddiannau am wasanaeth fel ymddiriedolwr (gall ymddiriedolwyr hawliau treuliau priodol a gallant gael eu talu i ddarparu gwasanaethau i elusen, heblaw am eu gwasanaethau fel ymddiriedolwr, ar yr amod bod y gweithdrefnau a bennwyd yn y gyfraith yn cael eu dilyn ac mae'r taliad wedi'i ddatgelu os yw cyfrifon croniadau yn cael eu paratoi).
- **Gweithredu'n groes i Orchymyn neu Gyfarwyddyd a wnaed gan reolydd elusennau o dan bwerau statudol, boed yn fwriadol neu'n arwyddocaol, gan gynnwys diarddel ymddiriedolwr elusen, gwahardd trafodiad neu weithgaredd arbennig neu roi cydsyniad ar delerau arbennig sy'n cynnwys asedau neu rwymedigaethau arwyddocaol.** Weithiau bydd y Comisiwn yn defnyddio ei bwerau rheoleiddio i ddiogelu asedau neu enw da elusen neu bydd trafodiad arbennig yn destun cydsyniad ar dermau arbennig. Er enghraifft os gwyddys bod ymddiriedolwr sydd wedi'i ddiarddel yn ymwneud o hyd â gweinyddu'r elusen neu os yw cronfeydd yn cael eu gwario pan fydd asedau wedi'u rhewi neu os yw trafodiad arwyddocaol yn mynd rhagddo ar sail sy'n groes i'r cydsyniad a roddwyd, dylid adrodd am hyn.

- **Unrhyw hysbysiad neu faterion a adroddwyd i'r ymddiriedolwyr adeg ymddiswyddo fel archwiliwr annibynnol neu faterion y mae'r archwiliwr annibynnol yn ymwybodol ohono pan fydd yn ymddiswyddo neu'n peidio â gweithredu sydd wedi'i gynnwys o fewn y categorïau o faterion y gellir eu hadrodd amdanynt a nodwyd uchod.** Nid oes modd osgoi'r ddyletswydd i adrodd trwy ymddiswyddo fel archwiliwr annibynnol. Os yw mater yn codi, er enghraifft, gwrthod darparu gwybodaeth sy'n ofynnol ar gyfer archwiliad neu os yw pryder yn codi sydd mor fawr ac nid yw'r archwiliwr yn barod i barhau yna dylai'r archwiliwr ystyried a yw'r mater wedi'i gynnwys o fewn y categorïau o faterion adroddadwy a nodwyd uchod.

  Mae'n ofynnol i ymddiriedolwyr hysbysu'r Comisiwn ar wahân o faterion sydd wedi'u cynnwys o fewn y categorïau o faterion sy'n gofyn am lenwi adroddiad digwyddiadau difrifol. Mae'r adroddiadau digwyddiadau difrifol hyn yn cael eu gwneud gan ymddiriedolwyr naill ai yn ystod y flwyddyn neu fel rhan o'u Ffurflen Flynyddol i'r Comisiwn. Yr ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am ysgrifennu'r adroddiadau digwyddiadau difrifol hyn, nid yr archwiliwr, ond gall fod yn ddefnyddiol i'r archwiliwr ofyn i'r ymddiriedolwyr a fu achos ganddynt ysgrifennu adroddiad digwyddiadau difrifol. Os yw'r ymddiriedolwyr wedi paratoi adroddiad digwyddiadau difrifol dylai'r archwiliwr ofyn am gopi ac os yw'n fater o arwyddocâd perthnasol ysgrifennu ei adroddiad ei hun yn nodi'r hyn y mae'r archwiliwr yn ei ddeall sydd wedi digwydd ac unrhyw gamau y mae'r ymddiriedolwyr wedi'u cymryd neu yn eu cymryd i unioni'r mater y mae'r archwiliwr yn ymwybodol ohono.

  Mae llythyr enghreifftiol, sy'n adrodd am fater o arwyddocâd perthnasol i'r Comisiwn, wedi'i ddarparu yn yr Atodiad hwn. Mae dau lythyr enghreifftiol hefyd yn cael eu darparu am faterion nad ydynt, ym marn yr archwiliwr, wedi'u cynnwys o fewn y categori 'arwyddocâd perthnasol' ond mae'r archwiliwr wedi dewis arfer eu pŵer dewisol neu'r hawl i lunio adroddiad gan gredu bod yr wybodaeth yn berthnasol i swyddogaethau'r Comisiwn.

5.2. Adroddiad enghreifftiol sy'n codi o ddyletswydd gyfreithiol i adrodd am fater sydd o arwyddocâd perthnasol i'r Comisiwn Elusennau.

Mae'r enghraifft hon yn darparu gwybodaeth ychwanegol sy'n ymwneud â'r enghraifft o adroddiad yr archwiliwr annibynnol 4.5 yn Atodiad 4.Whitetree

Whitetree
White Town Lane
White Whitterington
Well County
WW1 3ZZ

15 Medi 2009

Annwyl Syr,

Archwiliwr annibynnol yn adrodd am fater o arwyddocâd perthnasol ynghylch Ymddiriedolaeth ABC, rhif elusen 1XXX700

Rwy'n adrodd i chi yn unol ag adran 44A o Ddeddf Elusennau 1993 i'ch cynghori am fater y credaf sydd o arwyddocâd perthnasol i chi wrth arfer eich swyddogaethau o dan adran 8 neu 18 o Ddeddf Elusennau 1993. Mae'r mater yn ymwneud â methiant rheolaethau mewnol sydd wedi arwain at roi cronfeydd elusennol sylweddol mewn risg sylweddol.

Roedd incwm Ymddiriedolaeth ABC i'r flwyddyn yn diweddu 30 Ebrill 2009 yn £242,876 ac yn cynnwys grant cyfyngedig a roddwyd gan Ymddiriedolaeth Rhoddwr AB o £75,000 i gyllido prosiect arfaethedig yng ngwlad X i leddfu tlodi. Yn ystod fy archwiliad daeth i'r amlwg fod Mr CD, ymddiriedolwr yr elusen, wedi teithio i wlad X 10 gwaith gan fynd â'r arian yma gydag ef ar ffurf doleri UD mewn siwtces, a roddodd yr arian yma i Mr TZ o'r sefydliad partner XXX. Nid oes gan Mr CD na'r ymddiriedolwyr eraill unrhyw dderbynneb gan Mr TZ ac nid ydynt wedi ffeilio adroddiadau neu dystiolaeth arall ynghylch sut y cafodd yr arian ei ddefnyddio.

Mae gan yr ymddiriedolwyr pob ffydd yn Mr TZ a ddywedant eu bod wedi ei hadnabod am o leiaf blwyddyn a chredant fod y cyfleusterau sy'n cael eu rhedeg gan sefydliad partner XXX yn cynnig budd mawr i'r wlad dlawd X. Yn dilyn fy archwiliad mae'r ymddiriedolwyr wedi gofyn i Mr TZ baratoi adroddiadau maes ond cawsant wybod nad yw ar gael gan ei fod wedi teithio i'r wlad gyfagos Y ac mae'r dyddiad y bydd yn dychwelyd yn ansicr. Mae pryder y gall Ymddiriedolaeth AB ofyn i'r arian yma gael eu dychwelyd yn awr oherwydd nid oes cofnodion digonol gan yr elusen i ddangos sut y cafodd yr arian ei wario.

Ar ôl cwblhau fy archwiliad o'r cyfrifon roeddwn wedi darparu adroddiad archwiliwr annibynnol amodol yn wyneb y materion hyn.

Yn gywir,

Mr A Doubt

5.3. Adroddiad enghreifftiol: Adroddiad dewisol o fater sy'n debygol o fod yn berthnasol i'r Comisiwn Elusennau.

Whitetree
White Town Lane
White Whitterington
Well County
WW1 3ZZ

15 Medi 2009

Annwyl Syr,

Mater sy'n berthnasol i swyddogaethau'r Comisiwn Elusennau ynghylch Ymddiriedolaeth WWZ, rhif elusen 1XXX900

Rwy'n adrodd i chi yn unol ag adran 44A o Ddeddf Elusennau 1993 i'ch cynghori am fater y credaf sy'n berthnasol i chi wrth arfer eich swyddogaethau o dan Ddeddf Elusennau 1993.

Wrth ymgymryd â'r archwiliad annibynnol o Ymddiriedolaeth WWZ nodaf fod yr ymddiriedolwyr wedi rhoi honorariwm o £1,500 i ymddiriedolwr sy'n ymddeol, Mr Long Service, i gydnabod 40 blynedd o fod yn ymddiriedolwr. Nid oes gan yr elusen unrhyw bŵer yn ei chyfansoddiad i wneud y taliad ac mae'r ymddiriedolwyr wedi cadarnhau nad oeddent wedi sylweddoli bod y taliad, sy'n uwch na'r lefel o £1,000 lle mae angen cydsyniad ymlaen llaw y Comisiwn, yn groes i'r gyfraith elusennau. Deallaf fod yr ymddiriedolwyr wedi cysylltu â'r Comisiwn Elusennau Uniongyrchol erbyn hyn i ofyn am eich cyngor ar y mater.

Ar ôl cwblhau fy archwiliad o'r cyfrifon, roeddwn i wedi darparu adroddiad archwiliwr annibynnol diamod oherwydd dangosir y taliad yn y cyfrifon ac nid oeddwn yn ystyried bod angen rhoi esboniad pellach yn fy adroddiad archwiliwr er mwyn rhoi dealltwriaeth briodol o'r cyfrifon yn wyneb y swm gweddol fach sydd dan sylw.

Yn gywir,

Mr A Doubt

5.4. Adroddiad enghreifftiol: Adroddiad dewisol o fater sy'n debygol o fod yn berthnasol i'r Comisiwn Elusennau

Mae'r enghraifft hon yn darparu gwybodaeth ychwanegol sy'n ymwneud â'r enghraifft o adroddiad yr archwiliwr annibynnol 4.4 yn Atodiad 4.

Whitetree
White Town Lane
White Whitterington
Well County
WW1 3ZZ

15 Medi 2009

Annwyl Syr,

Mater sy'n berthnasol i swyddogaethau'r Comisiwn Elusennau ynghylch Ymddiriedolaeth DEF, rhif elusen 1XXX905

Rwy'n adrodd i chi yn unol ag adran 44A o Ddeddf Elusennau 1993 i'ch cynghori am fater y credaf sy'n berthnasol i chi wrth arfer eich swyddogaethau o dan Ddeddf Elusennau 1993.

Wrth gynnal archwiliad annibynnol o Ymddiriedolaeth DEF sylwais nad oedd yr ymddiriedolwyr wedi cadw cofnodion digonol i gefnogi £44,268 o daliadau a wnaed yn y flwyddyn. Mae'r elusen wedi tyfu'n gyflym iawn gyda grant wedi'i roi yn y flwyddyn flaenorol gan ddarparu cronfeydd i gefnogi ehangiad mawr yn y gweithgareddau i blant. Esboniodd yr ymddiriedolwyr nad oeddent wedi sylweddoli'r gwaith ychwanegol oedd ei angen ac wrth ruthro i recriwtio gwirfoddolwyr ychwanegol nid oeddent wedi gweithredu prosesau cadw llyfrau i sicrhau bod arian yn cael ei fancio'n brydlon a bod gwirfoddolwyr yn arwyddo llyfr derbynebion ar gyfer eu ffurflen hawlio treuliau. Mae'r elusen hefyd yn darparu teganau, te a lluniaeth, ciniawau i'r plant, ac yn prynu anrhegion a theisennau i'r plant, y cyfan yn cael eu talu gydag arian parod. Hefyd talwyd gwirfoddolwyr mewn arian parod am dreuliau parod a thalwyd am gostau teithio a ffioedd gweinyddol ar gyfer sawl taith dydd dan arolygydd i'r plant mewn arian parod hefyd. Cefais fy sicrhau bod o leiaf un o'r ymddiriedolwyr wrth law bob amser pan gafodd arian ei dderbyn neu ei wario a'u bod wedi goruchwylio'r holl daliadau a wnaed. Nid yw'r ymddiriedolwyr nag aelodau o'u teulu wedi elwa mewn unrhyw ffordd o gronfeydd yr elusen neu wedi derbyn unrhyw dreuliau.

Roedd anhawster pellach wedi codi oherwydd bu'r trysorydd gwirfoddol wedi bod yn sâl am ran helaeth o'r flwyddyn felly nid oedd y ddisgyblaeth o gael derbynebion a defnyddio sieciau wedi cael eu cynnal a thalwyd mewn arian parod er cyfleuster. Cefais gydweithrediad llawn wrth gynnal fy archwiliad ac roedd yr amgylchiadau a'r wybodaeth a roddwyd i mi wedi rhoi atebion llawn i bob un o'r cwestiynau, ac er nad yw'n ofynnol i mi chwilio am dwyll, ni welais unrhyw dystiolaeth oedd wedi fy arwain at gredu bod twyll wedi digwydd, felly adroddaf hwn fel mater perthnasol yn hytrach na mater o arwyddocâd perthnasol i chi.

Deallaf fod yr ymddiriedolwyr yn cydnabod y bu diffygion mawr yn y cofnodion a gedwir ac erbyn hyn maent wedi hurio llyfrifwr a gweithredu rheolaethau priodol drwy fabwysiadu canllawiau'r Comisiwn Elusennau sef *Rheolaethau Ariannol Mewnol i Elusennau* (CC8).

Ar ôl cwblhau fy archwiliad o'r cyfrifon, rwyf wedi darparu adroddiad yr archwiliwr annibynnol amodol sy'n datgan bod cofnodion cyfrifyddu digonol cyflawn heb gael eu cadw.

Yn gywir,

Mr A Doubt

Atodiad 6: Rhestr termau

Mae'r rhestr termau hon yn esbonio nifer o dermau technegol a ddefnyddir yn y canllawiau a'r atodiadau nad ydynt efallai'n gyfarwydd i bob archwiliwr.

Aelodau: Aelodau'r elusen yw'r unigolion hynny neu ddosbarth o unigolion a ddiffinnir yn y ddogfen lywodraethol fel aelodau'r elusen. Mae'r ddogfen lywodraethol yn amlinellu'r broses ar gyfer penodi a diswyddo aelodau, rôl a chyfrifoldebau aelodau a'r lle sydd gan yr aelodaeth wrth lywodraethu'r elusen. O dan y gyfraith cwmnïau aelodau'r cwmni yw tanysgrifwyr cychwynnol Memorandwm y cwmni adeg cofrestru a hefyd yr unigolion hynny sy'n dod yn aelodau ac mae eu henwau wedi'u cofnodi yng nghofrestr aelodau'r cwmni. Bydd y gyfraith cwmnïau ac erthyglau cymdeithasu'r cwmni yn pennu'r broses ar gyfer penodi a diswyddo aelodau, rôl a chyfrifoldebau aelodau a'r lle sydd gan aelodaeth wrth lywodraethu'r cwmni elusennol.

Archwiliad proffesiynol: Mae archwiliad ariannol yn cael ei wneud gan unigolyn sy'n gymwys o dan Ddeddf 1993 ac fel rheol mae'n archwiliwr cofrestredig. Mae'n rhaid i'r archwiliwr ariannol fynegi ei farn broffesiynol ynghylch a yw'r cyfrifon yn rhoi darlun 'gwir a theg' yn unol â safonau archwilio'r DU.

Archwiliad statudol: Os yw'r term archwiliad statudol yn cael ei ddefnyddio mae'n cyfeirio at y gofyniad yn ôl y gyfraith elusennau i gynnal archwiliad ariannol os yw incwm gros a/neu asedau'r elusen yn fwy na'r trothwy perthnasol gan unigolyn sy'n gymwys i'w benodi fel ariannol annibynnol cwmni, neu unigolyn a gymeradwywyd gan y Comisiwn yn unol â Rheoliadau 2008.

Asedau gros (Cyfanswm): Cyfanswm asedau'r elusen, cyn didynnu rhwymedigaethau, fel ar ddyddiad y fantolen, hy ar ddiwedd diwrnod olaf blwyddyn ariannol yr elusen.

Busnes gweithredol: Mae'r cysyniad hwn yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r elusen baratoi cyfrifon ar y sail y bydd yn parhau mewn bodolaeth weithredol yn y dyfodol agos. Mae'r sail busnes gweithredol yn gymwys i gyfrifon sy'n cael eu paratoi oni bai ei fod yn angenrheidiol, neu os yw'r ymddiriedolwyr yn bwriadu, roi terfyn ar weithgareddau gweithredol, dirwyn i ben neu ddiddymu'r elusen.

Cam-berchnogi: Defnyddir y term hwn yng Nghyfarwyddyd 4 (adran D), adran Dd ac Atodiad 5 ac mae'n golygu cymhwyso neu ddefnyddio arian neu asedau y mae'r elusen yn berchen arnynt yn anonest at eich defnydd eich hun.

Camddatgan: Defnyddir y term hwn yng Nghyfarwyddiadau 4 a 6, gweithdrefnau dadansoddol, ac mae'n golygu a yw'r cyfrifon mewn unrhyw ffordd wedi'u camddatgan yn berthnasol drwy gynnwys eitem neu agwedd ar y cyfrifon sy'n anghywir yn ffeithiol, drwy gamgymeriad neu wall neu drwy hepgor eitem y dylid fod wedi'i chynnwys yn briodol yn y cyfrifon.

Camreoli: Mae camreoli yn golygu bod yr ymddiriedolwyr wedi methu â rheoli materion yr elusen a diogelu ei hasedau. Am fwy o wybodaeth ynghylch dyletswyddau ymddiriedolwyr cyfeiriwch at ein cyhoeddiad *Yr Ymddiriedolwr Hanfodol: Yr hyn y mae angen i chi wybod* (CC3).

Camymddwyn: Mae camymddwyn yng nghyd-destun adrodd am faterion o arwyddocâd perthnasol yn cyfeirio at dystiolaeth, neu amheuaeth resymol o dwyll, lladrad, ymddygiad troseddol, tor-ymddiriedaeth ailadroddus neu sylweddol neu gamgymeriadau gweinyddol (camreoli), neu dynnu budd preifat anawdurdodedig.

Cronfeydd anghyfyngedig: Cronfeydd y gall yr ymddiriedolwyr eu gwario yn ôl eu disgresiwn ar gyfer unrhyw ddibenion yr elusen. Gall cronfeydd anghyfyngedig hefyd gynnwys rhan o'r cronfeydd anghyfyngedig y mae'r ymddiriedolwyr wedi'u clustnodi ar gyfer diben arbennig; mae'r cronfeydd hyn a glustnodwyd yn cael eu galw'n gronfeydd dynodedig. Mae cronfeydd dynodedig o'r fath yn rhan gyfreithiol o'r cronfeydd anghyfyngedig, er gellir eu hadrodd ar wahân yn y fantolen neu'r nodiadau, os yw cyfrifon croniadau yn cael eu paratoi, neu fel rhan o'r cronfeydd anghyfyngedig, os yw cyfrifon derbyniadau a thaliadau'n cael eu paratoi.

Cronfeydd incwm cyfyngedig: Cronfeydd y gall yr ymddiriedolwyr eu gwario ar ddibenion arbennig yr elusen. Mae cronfeydd incwm cyfyngedig yn ddarostyngedig i ymddiriedolaethau penodol a all gael eu datgan gan y rhoddwr(wyr), neu gyda'i awdurdod (ee, mewn apêl gyhoeddus), neu gael eu creu trwy broses gyfreithiol, ond sy'n parhau i fod o fewn amcanion ehangach yr elusen.

Crynodebau cyflogres: Cofnodion cyfrifiadurol neu gofnodion llaw sy'n nodi drwy gyfrwng gweithiwr a enwir, y cyflog gros a dalwyd, treth cyflogwyr ac yswiriant gwladol cyflogwyr a chostau cysylltiedig eraill gweithwyr (ee, costau cynllun gofal iechyd neu gyfraniadau gweithwyr at bensiynau cyfraniadau diffiniedig neu fudd diffiniedig), lle y bo'n gymwys.

Cyfarwyddwyr: Un neu ragor o unigolion sy'n hŷn nag 18 oed ac yn gyfrifol yn ôl y gyfraith am weithrediadau'r cwmni. Mae'r cyfarwyddwyr yn ffurfio Bwrdd cyfarwyddwyr sy'n creu'r corff gwneud penderfyniadau ac mae'r Bwrdd yn gyfrifol am reoli materion y cwmni. Mae dyletswyddau penodol gan gyfarwyddwyr o dan y gyfraith cwmnïau ac maent yn atebol yn gyfreithiol am eu gweithrediadau. Mae cyfarwyddwyr yn ymddiriedolwyr cwmni elusennol.

Cyfriflyfr nominal: Mae cyfriflyfr nominal, neu gyfriflyfr cyffredinol, yn derm cyfrifyddu ar gyfer y cofnod llaw neu gyfrifiadurol sy'n cynnwys y trafodion cyfrifyddu ar gyfer y cyfnod hwn. Mae'r cyfriflyfr yn cynnwys cofnod manwl o'r holl drafodion sydd wedi cael eu prosesu dros gyfnod penodol o amser ac mae modd tynnu prawfweddill a pharatoi cyfrifon ariannol o'r cyfriflyfr hwn. Mae'n bosibl na fydd elusennau llai yn cadw cyfriflyfr nominal ond yn lle hynny byddant yn cadw llyfr arian parod wedi'i ddadansoddi fel rheol ar ffurf golofnol wedi'i dadansoddi gydag incwm wedi'i ddangos ar wahân i wariant.

Cyfrifon anstatudol: Mae cyfrifon anstatudol yn gyfrifon sydd wedi'u paratoi gan yr ymddiriedolwyr sydd heb eu paratoi o dan neu sydd heb fod yn ofynnol gan Ran 6 Deddf Elusennau 1993 a'r Rheoliadau 2008 cymwys, neu os yw'r elusen yn gwmni, Rhan 15 o Ddeddf Cwmnïau 2006. Mae cyfrifon o'r fath yn cynnwys cyfrifon rheoli wedi'u paratoi yn ystod y flwyddyn i hysbysu ymddiriedolwyr ynghylch cyllid yr elusen, a chyfrifon grŵp sy'n cael eu paratoi yn wirfoddol.

Cyfrifon grŵp: Mae'r term hwn yn disgrifio'r sefyllfa pan fydd elusen yn rheoli un neu ragor o is-gwmnïau. Er mwyn rhoi golwg gyffredinol o'r holl asedau a rhwymedigaethau a reolir gan yr ymddiriedolwyr mae set o gyfrifon yn cael eu paratoi sy'n cyfuno materion yr elusen a materion ei his-gwmnïau a gelwir y rhain yn gyfrifon grŵp. Dylid paratoi cyfrifon grŵp trwy ddilyn y canllawiau a nodir yn y SORP ac mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith dim ond os yw incwm y grŵp (yn glir o drafodion o fewn grŵp) yn fwy na'r trothwy statudol.

Cyfrifon rheoli: Mae cyfrifon yn ffurfio rhan o'r cyfriflyfr nominal mewn systemau cyfrifyddu llaw neu gyfrifiadurol ac fe'u defnyddir fel swyddogaeth reoli ar gyfer gwerthiannau, pryniannau, cyflogres ac weithiau ar gyfer arian parod. Yn achos rheoli cyfriflyfr gwerthiannau neu bryniannau mae'r cyfansymiau a anfonebwyd a'r arian parod a dderbyniwyd neu a dalwyd yn erbyn anfonebau wedi'u postio i gyfrifon o'r fath. Gall y gweddill ar gyfrifon o'r fath gael eu cysoni i bryniannau a anfonebwyd ond sydd heb eu talu neu anfonebau gwerthiannau nad yw taliad wedi cael ei dderbyn ar eu cyfer.

Cyfrifon statudol: Cyfrifon statudol yw'r cyfrifon sydd wedi'u paratoi gan yr ymddiriedolwyr sy'n ofynnol ac yn bodloni ffurf a gofynion cynnwys Rhan 6 o Ddeddf Elusennau 1993 a'r Rheoliadau 2008 cymwys, neu os yw'r elusen yn gwmni, Rhan 15 o Ddeddf Cwmnïau 2006, y mae'r Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr gofynnol wedi'i atodi iddo, ac sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith neu ddogfen lywodraethol yr elusen, yr adroddiad archwiliad allanol sydd wedi'i baratoi gan yr archwiliwr ariannol neu'r archwiliwr annibynnol.

Cysoniad banc: Mae'r datganiad hwn yn cysoni'r gweddill yn y banc, fel ar ddyddiad y gyfriflen, gyda'r gweddill a ddangosir yn y cyfrifon drwy addasu'r gweddill banc wrth gau ar gyfer trafodion, er enghraifft, sieciau sydd wedi cael eu hysgrifennu ond sydd heb eu

cyflwyno a bancio sydd wedi cael ei wneud ond heb ei gredydu, a weithredwyd ar neu cyn dyddiad y gweddill banc wrth gau.

Deddf 1993: Deddf Elusennau 1993 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Elusennau 2006

Deddf 2006: Deddf Elusennau 2006

Dogfen lywodraethol: Unrhyw ddogfen sy'n pennu dibenion yr elusen ac, fel arfer, sut y caiff ei gweinyddu. Gall fod yn weithred ymddiriedolaeth, cyfansoddiad, memorandwm ac erthyglau cymdeithasu, ewyllys, trawsgludiad, Siarter Frenhinol, Cynllun y Comisiwn, neu'n ddogfen ffurfiol arall. Ymddiriedolaethau elusen yw'r darpariaethau sydd wedi'u cynnwys yn nogfen lywodraethol/ dogfennau llywodraethol yr elusen.

Ffurf a chynnwys: Y gofynion statudol ynghylch datgeliadau, dadansoddi a gwybodaeth y dylid eu cynnwys yn y cyfrifon.

Gorchymyn 2009: Gorchymyn (Dirprwyo Symiau) 2009 Deddfau Elusennau 1992 a 1993 Rhif 508

Gwaddol: Math o gronfa gyfyngedig lle mae'n ofynnol i'r ymddiriedolwyr yn ôl y gyfraith i fuddsoddi neu gadw'r cyfalaf. Dylai'r incwm a gynhyrchir o'r cyfalaf gael ei wario. Fel rheol bydd y cronfeydd hyn yn fuddsoddiadau ond gallant hefyd fod yn eiddo a ddelir fel gwaddol at ddefnydd yr elusen. Mae dau fath o waddol. Mae gwaddol parhaol yn gronfa lle nad oes gan yr ymddiriedolwyr y pŵer i wario'r cyfalaf. Gwaddol treuliadwy yw cronfa lle mae dewis gan yr ymddiriedolwyr i wario'r cyfalaf, o dan rai amgylchiadau, yn yr un ffordd â gwario cronfeydd incwm.

Llythyr ymrwymiad: Llythyr wedi'i gyfeirio at yr ymddiriedolwyr elusen gan yr archwiliwr annibynnol yn rhoi manylion am gyfrifoldebau cyfrifyddu'r ymddiriedolwyr elusen a chyfrifoldebau statudol yr archwiliwr annibynnol. Gall hefyd gynnwys materion megis trefniadau ffioedd, amserlen arfaethedig ar gyfer yr archwiliad a manylion unrhyw waith anstatudol sydd i'w wneud gan yr archwiliwr. Pwrpas y llythyr yw cytuno ar delerau a lleihau camddealltwriaeth a dylai cynnwys unrhyw lythyr o'r fath gael ei gytuno yn ysgrifenedig gyda'r ymddiriedolwyr elusen.

Papurau gweithio: Cofnodion ysgrifenedig neu gyfrifiadurol, megis nodiadau o'r esboniadau a dderbyniwyd ac atodlenni gwaith a wnaed, a gedwir gan yr archwiliwr annibynnol i gofnodi'r hyn a wnaeth, yr hyn y mae wedi'i ganfod, y cwestiynau a ofynnwyd a'r atebion a gafwyd i'r cwestiynau hynny. Bydd papurau gweithio yn cynnwys adolygiad dadansoddol yr archwiliwr, a chopïau o unrhyw gofnodion a all fod yn berthnasol i'r archwiliad. Yn gyffredinol bydd yr archwiliwr yn cadw gyda'i bapurau gweithio gopi o unrhyw brawfweddill, atodlenni a baratowyd i gefnogi'r cyfrifon, y cyfrifon a archwiliwyd, Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr ac os yw'n gymwys gopi o'r llythyr ymrwymiad.

Polisïau cyfrifyddu: Yr egwyddorion, sylfeini, confensiynau, rheolau ac arferion hynny sy'n pennu sut mae effeithiau trafodion a digwyddiadau eraill yn cael eu hadlewyrchu yn y cyfrifon trwy gydnabod, mesur a chyflwyno asedau, rhwymedigaethau, enillion, colledion a newidiadau neu symudiadau mewn cronfeydd. Fe'u hategir gan dechnegau amcangyfrif lle mae angen llunio barn wrth gofnodi gwerth adnoddau a dderbynnir ac a ddefnyddiwyd, asedau a rhwymedigaethau. Dylai polisïau cyfrifyddu fod yn berthnasol ac yn ddibynadwy a chynnig modd cymharu a deall yr wybodaeth ariannol a gyflwynir yn y cyfrifon.

Prawfweddill: Rhestr o weddillion wrth gau ar bob cyfrif unigol ar wahân a gedwir o fewn cofnodion llaw neu gofnodion cyfrifiadurol yr elusen.

Rheoliadau 2008: Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 Rhif 629

Safonau cyfrifyddu: Dylai cyfrifon sy'n bwriadu rhoi darlun gwir a theg gydymffurfio â rhai safonau a gyhoeddwyd neu a fabwysiadwyd gan y Bwrdd Safonau Cyfrifeg. Mae'r safonau hyn, y disgwylir i gyfrifwyr proffesiynol fod yn gyfarwydd â nhw, yn cynnwys nifer o 'Ddatganiadau o Arferion Cyfrifyddu Safonol', 'Safonau Adrodd Ariannol' a 'Chrynodebau Tasglu Materion Brys'.

Sail croniadau: Mae'r cysyniad hwn yn gofyn i effeithiau trafodion a digwyddiadau eraill gael eu hadlewyrchu, cyn belled â phosibl, yn y cyfrifon am y cyfnod pan fyddant yn digwydd, ac nid, er enghraifft, yn y cyfnod pan fydd unrhyw daliad arian parod yn cael ei wneud. Mae'r cysyniad hwn yn ganolog i gydnabod asedau a rhwymedigaethau'r fantolen.

Defnyddiwyd y term hwn i ddisgrifio cyfrifon a baratowyd yn unol â gofynion adran 42(1) o Ddeddf 1993. Dylai cyfrifon o'r fath gael eu paratoi gan yr ymddiriedolwyr i roi darlun 'gwir a theg'. Mae'r cyfrifon yn cynnwys:

- datganiad o weithgareddau ariannol;
- mantolen; a
- nodiadau ar y cyfrifon.

Dylai cyfrifon o'r fath gael eu paratoi ar sail polisïau cyfrifyddu sy'n cynnig modd i'r cyfrifon roi darlun gwir a theg ac sy'n gyson â safonau cyfrifyddu a chysyniadau cyfrifyddu busnes gweithredol a chroniadau.

Sail derbyniadau a thaliadau: Cyfrifon wedi'u paratoi o dan adran (42)(3) o Ddeddf 1993. Mae'r cyfrifon yn cynnwys:

- cyfrif derbyniadau a thaliadau; a
- datganiad o asedau a rhwymedigaethau.

Nid yw cyfrifon o'r fath yn honni rhoi 'darlun gwir a theg'; yn lle hynny dylent roi crynodeb ffeithiol o'r arian a dderbyniwyd ac a dalwyd yn ystod y flwyddyn a datganiad sy'n darparu gwybodaeth ynghylch asedau a rhwymedigaethau'r elusen ar ddiwedd y flwyddyn.

SORP: Datganiad o Arferion Cymeradwy (SORP): Mae'r Cyfrifon ac Adroddiadau Elusennau (a gyhoeddir yn achlysurol, y diweddaraf yw'r 2il argraffiad o SORP 2005) yn amlinellu'r arferion cymeradwy at ddiben paratoi Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr a pharatoi cyfrifon elusen ar sail croniadau. Nid yw argymhellion cyfrifyddu'r SORP yn gymwys i elusennau sy'n paratoi cyfrifon derbyniadau a thaliadau.

Terfysgaeth: O dan Ran II o Ddeddf Terfysgaeth 2000, mae pŵer gan yr Ysgrifennydd Gwladol i wahardd unrhyw sefydliad y cred sy'n 'gysylltiedig â therfysgaeth'. Mae sefydliad yn 'gysylltiedig â therfysgaeth' os yw'n cyflawni neu'n cymryd rhan mewn gweithrediadau terfysgol, yn paratoi ar gyfer terfysgaeth, yn hybu neu'n annog terfysgaeth, neu fel arall yn ymwneud â therfysgaeth naill ai yn y DU neu dramor.

Twyll: Roedd Deddf Twyll 2006 wedi sefydlu diffiniad o dwyll. Gall twyll gael ei gyflawni drwy gyfrwng dweud anwiredd, methu â datgelu gwybodaeth, neu gamddefnyddio swydd os mai'r bwriad yw bod y sawl sy'n cyflawni'r twyll yn gweithredu'n anonest ac yn ceisio elwa ar y twyll neu achosi colled i barti o ganlyniad i'r twyll.

Tystiolaeth: Defnyddir y term hwn yn Atodiad 5 wrth bennu a yw mater o arwyddocâd perthnasol i'r Comisiwn ac a ddylid ei adrodd. Tystiolaeth yw'r wybodaeth neu'r ffeithiau a gasglwyd gan yr archwiliwr yn ystod yr archwiliad. Mae'r ffynonellau tystiolaeth sydd ar gael yn cynnwys y cyfrifon, y cofnodion cyfrifyddu, adolygiad dadansoddol yr archwiliwr, yr esboniadau a roddwyd yn yr atebion i'r cwestiynau, materion a sefydlwyd trwy unrhyw weithdrefnau gwirio sy'n angenrheidiol a chofnodion eraill yr elusen, er enghraifft cofnodion cyfarfodydd ymddiriedolwyr.

Ymddiriedolaethau: Dyma'r darpariaethau sydd ar unrhyw adeg arbennig yn rheoleiddio dibenion a gweinyddiaeth yr elusen.

Ymddiriedolwyr elusen: Diffinnir ymddiriedolwyr elusen gan adran 97 o Ddeddf 1993 a dyma'r bobl sydd, o dan ddogfen lywodraethol elusen, yn gyfrifol am reoli gweinyddiad yr elusen yn gyffredinol. Yn nogfen lywodraethol yr elusen gallant gael eu galw'n ymddiriedolwyr, yn ymddiriedolwyr rheoli, yn aelodau pwyllgor, yn llywodraethwyr neu'n gyfarwyddwyr, neu gall fod enw arall arnynt.

Atodiad 7: Ffynonellau gwybodaeth bellach

Cyhoeddiadau

Cyfrifon ac Adroddiadau gan Elusennau: Datganiad o Arferion Cymeradwy

Hefyd yn cael ei alw SORP 2005, mae ar gael yn rhad ac am ddim o'n gwefan. Mae modd cael fersiwn brintiedig ohono (pris £15 a thâl post a phacio) gan CCH trwy ffonio 0870 777 2906 (8.30am i 5.30pm yn yr wythnos) neu archebwch ar-lein yn www.cch.co.uk neu anfonwch e-bost at customerservices@cch.co.uk gan ddyfynnu cod cynnyrch CCSORP.CCH.

Canllawiau perthnasol eraill:

Adroddiadau a Chyfrifon Elusennau: Yr hanfodion Ebrill 2008	CC15a
Adroddiadau a Chyfrifon Elusennau: Yr hanfodion Ebrill 2009	CC15b
Pecyn Cyfrifon Derbyniadau a Thaliadau	CC16
Pecyn Cyfrifon Croniadau	CC17

Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr a Chyfrifon Enghreifftiol

Mae ein gwefan yn cynnig ystod eang o wasanaethau, offer, gwybodaeth a chanllawiau hygyrch ar-lein. Cyn cysylltu â ni am gyngor neu gymorth efallai yr hoffech chwilio ein cronfa ddata ar-lein o gwestiynau cyffredin. Bydd y rhan fwyaf o bobl yn cael hyd i'r ateb y mae ei angen arnynt heb ffonio neu ysgrifennu e-bost. Fel arall, ceir cyswllt i'n tudalen Cysylltu â ni o frig a gwaelod pob tudalen we.

Y Rheoliadau

Mae **Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008** (SI 2008 Rhif 629) a **Gorchymyn (Dirprwyo Symiau) 2009 Deddfau Elusennau 1992 a 1993 (SI 2009 Rhif 508)** ar gael o wefan Swyddfa Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus.

Canllawiau ar ofynion y gyfraith cwmnïau

Mae'r Adran Busnes, Menter a Diwygio Rheoleiddio yn cyhoeddi nifer o daflenni defnyddiol sy'n esbonio gofynion y gyfraith cwmnïau. Gallwch eu cael o'i wefan: www.berr.gov.uk/bbf/index.html

Canllawiau Trysorlys EM ar Ddeddf Elw Troseddau 2000 a Rheoliadau Gwyngalchu Arian

Mae'r Rheoliadau hyn yn hanfodol i unrhyw archwiliwr sy'n codi ffi neu'n derbyn taliad oherwydd ei fod yn darparu gwasanaethau cyfrifyddu sydd wedi'u cynnwys o fewn busnesau a effeithir gan y rheoliadau hyn. Os ydych hefyd yn aelod o gorff proffesiynol, mae'n bosibl bod eich corff proffesiynol yn cynhyrchu gwybodaeth am wyngalchu arian a fydd yn eich helpu. Gallwch gyrchu canllawiau Trysorlys EM ar ei wefan:

www.hm-treasury.gov.uk/consultations_and_legislation/money_laundering_directive/consult_moneylaundering_2007.cfm

© Hawlfraint y Goron 2007. Gellir atgynhyrchu'r cyhoeddiad hwn yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod ei fod yn cael ei atgynhyrchu'n gywir ac nid yw'n cael ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y cyhoeddiad.

Crëwyd a chynhyrchwyd gan: Adran Ddylunio, Comisiwn Ellusennau

Gallwch gael fersiynau print bras o'r cyhoeddiad hwn gan y Comisiwn Elusennau ar 0845 300 0218

Comisiwn Elusennau
Ffôn: **0845 300 0218**
Typetalk: **0845 300 0219**
Gwefan: **www.charitycommission.gov.uk**

Archwiliad Annibynnol o Gyfrifon Elusennau: Canllaw Archwilwyr. Ebrill 2009
ISBN 978-1-84922-016-3
CC32